Y DRYSORFA.

RHIF. 701.] MAWRTH, 1889. [LLYFR LIX.

Y LLE A'R ETIFEDDIAETH.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR BARCH. JOSEPH THOMAS, CARNO.

A draddodwyd yn Towyn, Boreu Sabboth, Chwefror 26*ain*, 1888.

(WEDI EI CHOFNODI GAN MR. J. MAETHLON JAMES.)

YN ystod yr oedfa, canwyd yr Emynau canlynol: 131, 303, 327 a 720. Wedi darllen Salm xlviii., gweddïodd Mr. THOMAS fel y canlyn:—*

"Cynnorthwya ni, O Arglwydd! i nesâu atat ti ar ddechreu gwasanaeth y Sabboth hwn. Mae cymaint a hyn o honom wedi cael bywyd ac iechyd i ddyfod i dy gynteddoedd eto unwaith; ac nid oes na difaterwch nac esgeulusdra wedi ein rhwystro ni. Diolch iti am hyn; ac am y rhagor sydd rhyngom ni heddyw â'r cleifion a'r tlodion sydd yn methu dyfod i dy dŷ. Pob rhagor a feddwn ni heddyw ar y cyfryw rai, tydi, O Arglwydd! a'i gwnaethost. Goleua ni i weled gwerth ein manteision cyn eu colli. Mae llawer o bethau yn y byd hwn y mae yn rhaid i ni fod hebddynt. Ond gwared ni rhag bod heb weled gwerth y pethau yr ydym yn eu mwynhau; a rho gymhorth i ni, yn y mwynhâd o'r pethau a gollir genym, i ddyfod i geisio y pethau na chollir byth mo honynt. Mae genyt ti bethau, os cawn ni hwynt, nyni fydd pïau hwynt am byth. Dyro i ni gyrchu at nôd a dyben bywyd ar y ddaear, trwy ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Maddeu i ni mor dueddol ydym i addunedu heb gyflawni. Deffro ni i wneyd rhywbeth a fyddo yn werth ei wneyd yn y byd yma. Cynnorthwya ni i ddyweyd a gwrando, a mwynhau dy eiriau. Yr ydym yn cael fod y genedl gynt yn ymffrostio fod ganddynt Abraham yn dad iddynt, ond nid oedd dim lle i dy eiriau di yn eu calonau. Ti sydd yn gwybod i ba ddyben y daethom yma heddyw. Rho dy fendith arnom. Cadw dy waith yn fyw yn ein hysbryd. Gwna yr efengyl yn allu er iachawdwriaeth heddyw. Cofia y cleifion. Cadw ni heb golli ein cydymdeimlad â hwy. Cofia y tlodion a'r rhai sydd mewn helbul. Agor galonau cyfoethogion y byd yma i'w cynnorthwyo. Dy amddiffyn fyddo ar ein gwlad. Cadw hi rhag pechu dy amddiffyn dwyfol oddiarni. Erfyniwn yr oll yn enw ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist. Amen."

"Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i a'm phïol; ti a gynneli fy nghoelbren: y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth deg."—SALM xvi. 5, 6.

Chwi welwch, fy nghyfeillion I, heb i mi ymdroi gydag amgylchiadau y geiriau hyn, mai yr hyn sydd gan y Salmydd yw, dadgan ei foddlonrwydd ar ei le ac yn ei etifeddiaeth. Dyn yn foddlon ar ei le. Mae yn ymddangos i mi ein bod yn bur dueddol i aros gormod gyda'r pethau nad ydynt yn ein meddiant. Os bydd dyn yn meddu ar gyfoeth a rhwysg mawr, yr ydym yn dueddol i feddwl fod ded-

* Gall cyhoeddi gweddi ymddangos yn beth dyeithr i lawer o Gymry. Ond y mae argraffu y Weddi ynghyd a'r Bregeth yn beth cyffredin yn Lloegr. Y mae llïaws o weddïau wedi eu cofnodi yn y Bibl. Ac y mae darllen gwir weddïau yn beth dymunol a bendithiol iawn.

wyddwch yn eiddo iddo o herwydd hyny. Mae tuedd yn hyn i wywo mwyniant o'r pethau sydd genym. Mae yn hawdd iawn i ni gamsynied am y mwyniant sydd yn y pethau nad ydynt yn ein meddiant. Mae hanes am un hen frenin oedd wedi bod unwaith yn gwisgo coron, yn dywedyd yn yr olwg ar goron freninol, ac wrth glywed rhywrai yn canmawl ei pherlau a'i harddwch: "Ydyw," meddai yntau, "y mae hi yn ymddangos yn hardd, ond y mae yna *bigau* ynddi hi er hyny." Ac felly y mae hi yn fynych iawn yn hanes coronau y byd yma. Meddyliwch am y *gwas*, yn awr, yn tybio pe bae ef yn lle ei feistr y byddai yn ddedwydd iawn arno. Ond pe cawsai ei ddymuniad, fe gawsai wel'd yn bur fuan fod gan y *meistr* ofalon na wyddai y gwas ddim oddiwrthynt. Mae Iesu Grist yn dyweyd yn un o'r Efengylau nad yw bywyd dyn yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo; hyny yw—*hŷd* bywyd dyn, dyna sydd i'w feddwl, o herwydd mae yr Arglwydd Iesu oddiar hyn yn llefaru dammeg y gŵr goludog. Y gwir am bethau y byd hwn ydyw—'fedra 'nhw mo'n cadw ni yma, a ddo'n 'nhw ddim gyda ni oddiyma. "Gwyn eu byd y rhai addfwyn," meddai yr Arglwydd Iesu, "canys hwy a etifeddant y ddaear:" nid cael y ddaear a ddywedir, ond ei hetifeddu. Yr addfwynder ysbryd a gynnyrchwyd gan ysbryd yr efengyl yn unig sydd yn galluogi y dyn i fwynhau pethau y byd yma. Fe ddaw y dwfr i'w *level* yn naturiol, ond treiwch chwi ei yru yn uwch na hyny, fe gostia drafferth i chwi. Felly am gysuron y byd yma: fe ddo'nt i'w *level*, a phan ddo'nt yn uwch na hyny mae y trafferthion yn dechreu. Fe all dyn wellhau yn ei gysur, yn ei ysbryd, ac yn ei wisgoedd, ond y mae rhyw *level* i'r rhai hyn i gyd, uwchlaw pa un ânt yn drafferthion; ac y mae miloedd heddyw yn y trafferthion hyn. Mae llawer yn meddwl y daw cysuron gyda hwynt i bob man, ond nid felly y mae hi. Buasai yn dda ni osod gwerth ar y pethau sydd genym; ac yn awr mi enwaf rai o'r pethau y byddai yn dda i ni roddi mwy o werth arnynt:—

1. Edrychwn ar y *bendithion* PERSONOL.

Iechyd, dyna un. Yr wyf yn meddwl fod iechyd da yn wisg ragorol ddyn i fyned trwy y byd yma. Mae iechyd i'r fuchedd hon yn debyg i'r hyn ydyw sancteiddrwydd i'r nefoedd—y mae yn gymhwysder i fwynhau pob peth arall. *Synwyr*, dyna drugaredd arall werthfawr iawn. Fel y mae y llygad i'r corff, felly mae synwyr i'r dyn, yn anmhrisiadwy. *Carictor* hefyd. Beth bynag fydd pobl heb y tri pheth hyn, pobl heb ryw lawer o gysur ydynt. Cofiwch am *garictor:* fedr neb ei wneyd i chwi, na chwaith ei adael i chwi mewn llythyr cymun: rhaid i chwi ei wneyd o eich hunain, ac yr ydych yn dechreu ei wneyd o yn gynt nag yr ydych yn meddwl; neu foddloni i fod heb yr un pan wedi myned yn hen. Mae *carictor* yn debyg i'r pren yna; rhaid iddo gael amser i dyfu—i ffurfio, ond gellir ei dori i lawr mewn byr amser. Byddai yn dda i ni droi i edrych ar y pethau hyn sydd genym—*iechyd*, *synwyr*, a *charictor*, a rhoi gwerth mawr arnynt.

2. Gallwn edrych eto ar *y pethau sydd genym yn* WLADOL.

Nid wyf fi fy hun wedi teithio rhyw lawer iawn, ond yr wyf wedi darllen tipyn o hanes gwahanol wledydd y byd yma; ac yr wyf yn meddwl yn siwr nad oes yr un ran o'r byd yma heddyw â'r fath amddiffyn ar *fywydau ac eiddo* ei deiliaid a'r wlad yr ydym ni yn byw ynddi. Peth go fawr yw hyn. Nid wyf yn gwybod chwaith am un wlad â chymaint o amddiffyn dros ei *thlodion* â'r wlad hon. Cof genyf fod yn ymddyddan â gwraig unwaith oedd wedi bod mewn amgylchiadau lled gysurus, ond wedi ei

darostwng y pryd hyny i gyfyngder mawr iawn; ac wrth son am ei thlodi a'i hanghen, dyna ddywedodd hi, ei bod wedi cael sirioli ei meddwl yn fawr y diwrnod hwnw trwy yr hyn a ddywedodd rhyw chwaer garedig wrthi; a dyna oedd hyny, "Nad ydyw hi ddim yn gyfraith yn y wlad hon i neb farw o newyn." Ac yr oedd yn amlwg iawn ei bod yn gwerthfawrogi y syniad hwn yn fawr, ac yn meddwl yn uwch o'i gwlad o herwydd hyny. A pheth go werthfawr ydyw hyn hefyd.

Mi enwaf un peth arall gwerthfawr iawn sydd genym: mae deiliaid y wlad hon yn cael eu cyfrif yn *bersonau*, ac nid yn *bethau*. Yn oes rhai pobl, yr oeddys yn gwerthu dynion fel gwerthu tir. Mae hyn yn rhywbeth y dylem edrych arno gyda diolchgarwch. Fedr neb werthu dyn yn y wlad hon oddieithr iddo werthu ei hun; ac y mae yn dda genyf fy mod wedi cael byw i weled hyn. Mae yr efengyl *yn rhoddi ei le i ddyn*. Mi adawaf y pethau yna fel yna 'rwan at eich ystyriaethau.

Nid af at *addysg* yr oes yma, am wn i, 'rwan—y fath fanteision sydd yn nghyrhaedd yr oes hon yn y cyfeiriad yma. Mae y naill ddiwygiad yn agor y ffordd i ddiwygiad arall. Felly y bu gyda Chymdeithas y Biblau. Yr Ysgol Sabbothol roddodd fod i hon. Wedi i'r bobl gael blas ar ddarllen y Gair yn yr Ysgol Sul, yr oedd eisieu ychwaneg o Fiblau, fel yr ydych yn gwybod yr hanes. Heblaw hyn y mae manteision addysg wedi d'wad erbyn hyn i godi dynion i lanw *swyddau* pwysig. Nid oes raid cael arian i brynu swyddau yn awr; mae addysg wedi dyfod i roddi cymhwysderau i'w llanw. Mae yma lawer mwy o agoriadau i ddefnyddioldeb yn awr i ferched, ragor oedd flynyddoedd yn ol, ac y mae llu mawr o honynt yn llanw lleoedd pwysig iawn. Cofiwch nad ä eich plant yn uchel iawn os na roddwch addysg iddynt. "Gwas gweision ein brodyr" ydyw hanes ein cenedl ni wedi bod yn rhy hir o lawer iawn. Ond cawsom ni y fraint o ddyfod i'r byd yma pan oedd hen ddillad nos yr hen genedl yn myned o'r ffasiwn. Mi welais i rai o honynt yn myned megys dros ben y banc o'r golwg.

3. Edrychwn ar ein *manteision* CREFYDDOL. Y mae wedi dyfod yn ddydd arnom ni. Ac yn wyneb hyn, mae tri gair gan yr Apostol Paul, yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, y byddai yn dda i ni sylwi arnynt, a dyma nhw: *deffro*, *diosg*, a *gwisgo*. "Gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist," ac yna mi fyddwch yn *didy*, ac yn *fit* i'ch dangos i'r byd. Yr wyf wedi sylwi tipyn bach ar rai o'r pethau oedd gan yr hen bobl fu yma o'n blaen ni; a dyna oedd eu tuedd—"gwneyd troell naturiaeth" lygredig "yn fflam." Cyn i'r Ysgol Sul oleuo ei chanwyll ac ysgubo y tŷ, tywyllwch ac anfoesoldeb oedd yn gorchuddio y wlad; ond cawsom ni y fraint o ddyfod i dŷ wedi ei ysgubo o lawer iawn o'r pethau hyn. Peth arall hefyd, yr oedd yr efengyl yn llefain wrth ein drysau ni. Pobl wedi clywed llawer am Iesu Grist ydym ni. Ni chlywsom ni ddim cymaint am ddim byd ag am hwn. Wel, mae eisieu i ni fawrhâu y pethau hyn. Mae yn rhaid fod pobl yn ddwl iawn i fod heb weled gwerth mewn cael efengyl bur, heb ei seremoniau a'i defodau hefyd i raddau helaeth.

Hwyrach y gallwn edrych gormod ar ein *hanfanteision*. Dyna un—*y codwm yn Eden*. 'Does dim llawer o oleuni yn dwad wrth edrych gormod ar hwna. Yr wyf yn cofio unwaith i mi daro i ymddyddan â hen wraig ar y ffordd, a fy mod wedi gofyn iddi hi a fedrai hi ddarllen? "O! medra," meddai hi, "fel person." (Fel yna y byddent yn arfer dyweyd am ddarllenwr gwell na'i gilydd gynt.) "Wyddoch ch'i rywbeth am Adda?"

meddwn. "O! gwn, yn *reit* dda; *tro sal* wnaeth Adda â ni," meddai hithau. Gofynais iddi wed'yn am Iesu Grist; a dyna oedd yn fy synu I, na wyddai hi ond y nesaf peth i ddim am dano. Dyna anfantais arall, *etholedigaeth genedlaethol*—gadael y Cenedloedd ac ethol yr Iuddewon. Ond nid ydyw Duw byth yn gwneyd dim heb fod yn deilwng o hono ei hun; a byddai yn dda i ni gofio hyny. Dyna beth arall — *esgeulusdra rhieni.* Hwyrach fod llawer rhieni wedi gwneyd cam â'u plant. Mae y plant yn gwneyd heddyw fel y dywedwch chwi wrthynt, ac fe ddylent wneuthur hyny hefyd. Ond fe fyddant yn eistedd mewn barn arnoch chwi eto, pan y byddwch chwi yn eich bedd. Ymddygwch tuag at eich plant yn y fath fodd fel y medrwch ddal eu beirniadaeth deg arnoch, heb i chwi fod yn is yn eu golwg. Fe gawn fod y meibion hyny wedi colli yr offeiriadaeth, o herwydd fod eu tad wedi rhoddi eu henwau ymblith achau y Barziliaid. Fe ddichon plant fel yna weithiau ddyoddef o herwydd esgeulusdra eu rhieni.

Ond dyma efengyl gras Duw yn rhoddi *chance* i chwi eto i wneyd eich *fortune*, beth bynag ydych wedi golli yn Adda! Dyna ydyw iaith y colledigion: "O! na wrandawswn ar lais fy athrawon!" 'O: na chawswn I *well* athrawon?' O nage! "O! na wrandawswn ar lais *y rhai gês I!*" Mae yr efengyl yn codi dynion i gyflwr llawer uwch nag oedd Adda yn Eden ynddo.

Fe allai, wedi'r cyfan, nad ydyw y pethau nad ydynt yn ein meddiant o gymaint o werth ag y maent yn ymddangos i ni. Meddyliwch am Haman. Mae yn dyfod adref o Susan, y palas breninol, ryw ddiwrnod at ei deulu (ac mi greda' I mai un go lew yn ei deulu oedd o hefyd), ac yn adrodd wrthynt ei fod wedi cael diwrnod *noble* y diwrnod hwnw. "Cefais wledd heddyw," meddai, "heb ei dysgwyl." "Ai ïe?" "Do." "Pwy oedd yn y wledd?" "Neb ond y brenin a minnau." "Ai ïe?" "Ië." "Sut y mae hi i fod fory, Haman?" "Gwledd eto yfory!" meddai yntau. "Wel, yr wyt ti'n hapus, Haman?" "Nac ydwyf." "P'am?" "Onid ydyw Mordecai yr Iuddew yn y porth yn gomedd *bowio* i mi; pa fodd y medra' I fod yn hapus?" Fel yna mae rhyw Fordecai ar ffordd llawer un eto. Brenin arall, yr hwn oedd yn perchen tri phalas, un o honynt ar ddyffryn Jezreel. Ond yr oedd Naboth heb fod ymhell o'r parthau, ac yn perchen gwinllan; ac yr oedd y brenin yn annedwydd iawn eisieu cael hon. "A wnei di werthu y winllan i mi, Naboth?" "Na wnaf," ebe Naboth. "Wnei di ei newid hi, ynte?" "Na wnaf, ddim ei newid hi ychwaith," ebe Naboth. Ac O! mor annedwydd oedd y brenin am na chai o winllan y dyn tlawd! Byddai yn dda i ni dreio diolch mwy am y pethau sydd yn ein meddiant.

Mae genym hanes am un llwyth yn cwyno am fod ganddo rhy fach o dir. "Ewch i'r mynyddoedd," ebe Josua, "torwch y coed, ac arloeswch dir i chwi eich hunain." "Na, eisieu tir wedi ei arloesi yn barod sy arnom ni," meddai nhw. Fel yna mae rhai dynion yn annedwydd byth a hefyd eisieu rhywbeth nad yw yn eu meddiant. Byddai yn dda i ni ddal ar y cynghor gafodd y bobl yma, "arloesi tir newydd:" myn'd â'r efengyl at bobl sydd ei heisieu hi. Yr ydych yn cofio mai y coelbren oedd yn settlo y cwbl gynt. Dyna Gad a Manasseh yn dyfod at Moses ryw ddiwrnod i ofyn am y darn tir oeddynt wedi ennill ar wastadedd yr Iorddonen, i wneyd corlanau i'w defaid a bythynod i'w gwragedd a'u plant arno. "Ydych chwi am adael eich brodyr i fyned i fyny i wynebu y gelynion eu hunain?" meddai Moses. "Nac ydym," meddent hwythau, "mi yrwn ni ddeng niu

mil o wŷr nerthol i gynnorthwyo ein brodyr, os cawn ni y rhandir yma; y mae o yn ein *ffitio* ni." Ac felly y cawsant ef am fod y lle yn eu *ffitio*. Caer Arba—lle oedd hwn yr oedd yr ysbïwyr yn troi yn ol o hono yn ddigalon, ac yn dyweyd am y cewri oedd yno: "Nid ydym ond fel ceiliogod rhedyn yn eu hymyl." Ond yr oedd Caleb yn ddigon gwrol, ac yn meddu ar ddigon o ffydd i fyned yn erbyn y cewri, ac am hyny fe roddwyd Caer Arba iddo ef. Coelbren Duw oedd yn *settlo* y cwbl. Byddai yn dda i ni gofio mai Duw sydd yn ein gosod ninnau eto yn y lle goreu er ein lles. Y peth wnaiff dynion yn yr amgylchiadau y maent ynddynt a wnaent mewn amgylchiadau eraill. Mae anffyddlondeb i ddefnyddio y gallu sydd gan ddynion yn anfantais fawr iddynt.

Dyma yn fyr, dybygaf fi, yw ystyr y Salm. Yn gyntaf, *Duw;* yn ail, *Ei wasanaeth;* ac yn drydydd, *Pobl Dduw.* Beth i'w feddwl am bobl Dduw? "Beth ddaw o honynt yn nhragywyddoldeb?" Na, beth wyt ti yn ei wneyd o'r rhai hyn yn y byd hwn? Yr ydych yn cofio fel yr oedd Duw a Moses yn taflu yr hen genedl at eu gilydd: "y bobl hyn a ddygaist i fyny o'r Aipht," meddai Duw. "Na, dy bobl *di* ydynt," meddai Moses. Ond nid fel yna yr oedd hi, yr ydych yn cofio, gyda'r Arglwydd Iesu Grist yn ei weddi fawr; nid Efe a'i Dad yn eu taflu at eu gilydd: ond "dy eiddo di sydd eiddof fi, a'r eiddof fi sydd eiddot ti." Rhan y saint yw Duw, a rhan Duw yw ei bobl. Mae *estate* y Duw mawr yn myn'd yn fwy fel y mae dynion yn cael eu hachub. Pwy pïa ni, mhobl i? A ydyw Duw yn eiddo i ni? A ydym ni yn eiddo i Dduw? Y Duw mawr a'n nertho ni oll i ofyn y cwestiwn hwn yn ddifrifol, ac a fendithio yr ychydig sylwadau hyn i'r dyben hwnw er mwyn ei enw. Amen.

Y DIWEDDAR BARCH. JOSEPH THOMAS, CARNO.

Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., *Llandinam.*

I.

Nid oedd yr un gweinidog yn Nghymru yn fwy adnabyddus i bob dosbarth o'r boblogaeth yn y 30ain mlynedd diweddaf na'r Parch. Joseph Thomas, Yr oedd yn meddu ar gyfuniad o nodweddion meddyliol a rhagoriaethau moesol oedd yn ei osod yn gwbl ar ei ben ei hunan, heb neb yn gyffelyb iddo. Meddai ar ysbryd mor dangnefeddus, ar galon mor dyner, ar ddeall mor graff, ar gallineb mor fawr, ac ar y fath ystôr o arabedd *(humour)* fel nad rhyfedd ei fod yn anwylddyn y bobl. Gallai wisgo ei ddywediadau a'i gymhariaethau mewn iaith mor briodol a tharawiadol a chryno, fel y maent yn awr yn glynu fel diarebion neu wirebau hunanbrofedig yn nghof ei wrandawyr. Yn ychwanegol at hyn oll, yr oedd pob cydwybod yn argyhoeddedig ei fod yn ddyn â'i galon yn dyheu am achubiaeth eneidiau. Yr oedd cyfundrefn deithiol y Methodistiaid yn rhoddi mantais i holl gynnull-eidfaoedd y wlad gael mwynhau ei weinidogaeth. Pan ystyrier hŷd ei oes weinidogaethol, a'r cylch eang ymha un y llafuriai, y lleoedd pell i ba rai y teithiai i'w gyhoeddiadau, a hyny yn dra mynych, a'i ddoniau dymunol a phoblogaidd, ni byddem yn euog o ormodedd pe dywedem ei fod ar y blaen fel un o'r ychydig weinidogion adnabyddus i'r holl genedl.

Yr oedd pawb yn ei adnabod yn ei flynyddoedd diweddaf, ond ychydig iawn sydd yn fyw oedd yn ei gofio yn nyddiau ei ieuenctyd. Diau genym y teimla darllenwyr y Drysorfa yn ddiolchgar am ychydig oleuni ar y cyfnod cyntaf o'i hanes, ac y cânt lawer o bleser wrth ddarllen yr amlinelliad a ganlyn:—

Ychydig o hanes y diweddar Barchedig Joseph Thomas, *o'i enedigaeth hyd ei fynediad i'r Bala,* 1814—1841.

Mae bron yr oll o'i gyfoedion yn yr ardal hon wedi ei ragflaenu i'r byd tragywyddol, ac felly y mae bron yn annichonadwy cael dim o hanes y cyfnod hwn i fanylrwydd a sicrwydd. Pe buasai hyn wedi dygwydd ychydig flynyddoedd yn gynt, buasai yma

amryw oedd wedi bod yn cydchwareu âg ef, a allasai roddi ei hanes yn fanwl. Yr unig un sydd yn awr yn fyw yn alluog i roddi ychydig o'i hanes ydyw Mr. Evan Jones, Glyndu, yr hwn sydd wedi ei gaethiwo er ys blynyddoedd gan y *rheumatism* fel nas gall ddyfod i'r moddion cyhoeddus, eto yn gwir ofalu am yr achos mawr. Y mae ef wedi ei eni yn yr un flwyddyn a'r diweddar Barchedig Joseph Thomas, a chanddo ef y cafwyd y ffeithiau canlynol.

Ganwyd y Parchedig Joseph Thomas yn y flwyddyn 1814, mewn tŷ bychan dinod yn y pentref hwn, yr hwn oedd yn eiddo i'w rieni y pryd hwnw. Enw ei rieni oedd Edward a Mary Thomas. Brodor o Swydd Gaernarfon oedd ei dad, ond genedigol o Langynog oedd ei fam. Chwarelwr wrth ei alwedigaeth oedd ei dad, a dygodd ei feibion i fyny yn yr un alwedigaeth. Yr oedd ganddo chwarel fechan yn yr ardal hon o'i eiddo ei hun, yr hon a weithiodd ef a'i feibion am lawer o flynyddau. Ac yn y chwarel hon y bu ein gwrthddrych yn dechreu ei oes, ac y parhaodd i weithio hyd nes yr aeth i'r Bala, yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 1841, pan oedd ef tua 27ain oed. Nid oedd ei dad yn ddyn crefyddol, ond fe gafodd ei fendithio â mam grefyddol a gofalus. Er hyny ni chafodd ei ddwyn i fyny yn yr eglwys. Nid ydym yn cael iddo fod yn euog o bechodau mawr a rhyfygus, eto o herwydd ei alluoedd mawrion yr oedd ar y blaen i'w holl gyfoedion yn yr holl chwareuon. A thrwy hyny efe oedd eu prif gynghorwr a'r cynlluniwr. Yr oedd yn dalach o'i ysgwyddau na neb o honynt y pryd hwn fel yr oedd mewn cylchoedd eraill ar ol hyny.

Ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg, am mai isel oedd y teulu o ran eu hamgylchiadau, ac mai prin oedd y cyfryw fanteision yn ardaloedd gwledig Cymru y pryd hwnw. Yr oedd yn ffyddlawn iawn yn yr Ysgol Sul, ac fe wnaeth y defnydd goreu o honi.

Tua'r flwyddyn 1836, fe sefydlwyd Cymdeithas Ddirwestol yn Llangynog, ac yr oedd ef yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf i ymuno â hi, a daeth ar unwaith bron yn un o'r areithwyr mwyaf poblogaidd, nid yn unig yn Llangynog, ond yn yr holl gymydogaethau cylchynol, megys Llanrhaiadr, Llanfyllin, Llanwyddyn, Penybont fawr, &c. Clywais rai o'r oll o'r lleoedd uchod, yn dyweyd na fyddai dim perygl na cheid cyfarfod poblogaidd a da, ond cael Joseph Thomas yno. Yr oedd yn yr ardaloedd a enwyd y pryd hyn ddynion craff a galluog, dynion sydd wedi gadael eu hol yn annileadwy ar yr ardaloedd hyn, mewn ystyr ddaionus, yn gofalu am achos y Gwaredwr, ac yr oeddynt oll yn unfryd unfarn fod yn y llanc o Langynog elfenau dyn pwysig, poblogaidd, a defnyddiol, ond cael amser i ymddadblygu, fel nad yw yr hyn a welais mewn un neu ddau o newyddiaduron yn hollol gywir, sef mai y diweddar Barchedig Dr. Edwards a welodd ynddo ddefnyddiau pregethwr poblogaidd gyntaf; ond yr oedd pob un oedd yn meddu ar ddim craffder wedi ei weled. Yr oedd yr hyn a ddywedwyd am y Gwaredwr yn wir hefyd am dano yntau—"Nis gallasai fod yn guddiedig." Yr hyn a wnaeth y Dr. Parchedig oedd bod yn offerynol i ddwyn hyny i bwynt neillduol yn ei hanes. Yr oedd yn wrandawr cyson gyda'r Methodistiaid y cyfnod hwn, ond heb ymuno â'r eglwys, er fod llawer yn ei ddysgwyl y naill Sul ar ol y llall; ond yn y flwyddyn 1840 y cymerodd y peth pwysig hwn le yn ei hanes. Aeth rhyw nos Sabboth yr adeg hon i wrando y Parch. David Price, gweinidog gyda'r Annibynwyr yma ac yn Penybont fawr ar y pryd, a'r nos Sabboth hwnw arosodd ar ol yn y *Society;* yr hyn a darawodd y Methodistiaid â syndod, fod dyn ieuanc o'i alluoedd ef, ac un oedd mor ffyddlawn a chyson yn y moddion, wedi eu gadael mor sydyn ac heb un achos gwybyddus. Ymddyddanodd y blaenoriaid â'u gilydd, a phenderfynasant anfon Mr. Robert Jones i ymddyddan âg ef, a chael eglurhad ar ei ymddygiad; ond ni chafodd un rheswm neillduol ganddo dros yr hyn a wnaeth, a dyna ddywedodd wrth Mr. Robert Jones yn y diwedd, "Pa le bynag y byddaf y Sabboth nesaf, yno y byddaf am fy oes." Ac er llawenydd yr holl frawdoliaeth, gwelwyd ef yn ei le arferol y Sul canlynol, ac arosodd yn y cyfarfod eglwysig y nos Sul hwnw; ac yn lled fuan ar ol hyn y bu iddo fyned gyda chyfaill arall o Langynog i Lwyneinion, gerllaw y Bala, i areithio ar ddirwest. A dygwyddodd fod y diweddar Barchedig Dr. Edwards o'r Bala yno yn gwrando, er nad oedd ef yn gwybod, a chafodd y doctor ei foddloni gymaint ynddo fel yr annogodd ef i ddyfod ato i'r Athrofa. Ac yn mis Mawrth, 1841, efe a aeth, ac yn yr haf canlynol daeth y diweddar Barchedig John Hughes, o Bontrobert, i Langynog, dros y Cyfarfod Misol, i ymddyddan âg ef, ac wedi cael ei lwyr foddloni ynddo, annogodd ef i ddechreu pregethu ar unwaith, yr hyn a wnaeth y Sabboth canlynol oddiar y geiriau hyny—"Cytuna â'th wrthwynebwr ar frys," &c.

EVAN STEPHENS.

Llangynog, Chwef. 9, 1889.

Y DDEDDF FOESOL.

NATUR AC AWDURDOD Y DDEDDF.

Gan y Parch. ROBERT WILLIAMS, M.A., *Corwen.*

CEISIR egluro y pwnc trwy feirniadu *Damcaniaeth Butler ar y Gydwybod.*

Wrth "ddeddf foesol" yn y traethawd hwn y meddylir, y wybodaeth sydd gan ddyn wrth natur am y gwahaniaeth rhwng da a drwg; y ddeddf ag y dadleuai yr Apostol ei bod

yn nghalon pob dyn wrth naturiaeth. Cydwybod ydyw y gallu meddyliol trwy ba un y mae y ddeddf hono yn dadguddio ei hun fel rheol buchedd i bob person unigol.

Nid gallu i deimlo ond gallu i wybod ydyw cydwybod, yn ol y golygiad hwn. Cydwybod ydyw y gallu i ganfod gwirioneddau moesol hunan-amlwg. Dylid gwahaniaethu rhwng y gallu i ganfod gwirionedd moesol yn ei oleu ei hun, â'r gallu i gymhwyso gwirionedd cyffredinol at weithredoedd unigol; a rhwng y naill a'r llall â'r teimlad a ddilyna gyflawniad gweithred dda neu ddrwg, neu yn hytrach gweithred *a dybir* yn dda neu ddrwg.

Yn y cyntaf ceir Rheswm yn darganfod gwirioneddau hunan-brofedig.

Yn yr ail, Deall sydd yn casglu gwirionedd ychwanegol yn a thrwy wirioneddau eraill.

Yn yr olaf, Teimlad ydyw y brif elfen.

Mewn iaith gyffredin, rhoddir yr holl ystyron a rhagor i'r gair *Cydwybod*. Achosa hyn fawr ddyryswch, ac anhawsder i gael ymdriniaeth deg a chlir ar y pwnc.

Yn y sylwadau hyn cyfyngir y gair Cydwybod i'r cyntaf yn unig, h.y. Cydwybod ydyw gallu i ddarganfod gwirioneddau moesol anghenrheidiol, cyffredinol a hunan-brofedig. "Barn Foesol" *(Moral judgment)* y gelwir cymhwysiad y gwirionedd cyffredinol a ddarganfyddir gan gydwybod. Rhan o waith y deall ydyw hwn, ac y mae yn agored i gamgymeriad fel holl ymarferiadau eraill y deall. Byddai cofio hyn yn help i esbonio y gwahaniaeth barn ynghylch natur foesol gweithredoedd arbenig, ymhlith gwahanol bersonau a chenedloedd. Er esiampl, creda y fam Gristionogol y byddai taflu ei baban i'r afon yn bechod o'r fath waethaf; tra y creda y fam baganaidd fod taflu ei baban i'r Ganges yn weithred o'r fath fwyaf rhinweddol. Byddai cofio mai pwnc o farn ydyw hyn, ac nid pwnc o gydwybod, yn help i osgoi llawer o ddyryswch a dadleuaeth. *Teimlad moesol* y gelwir yr hyn a deimlir yn y meddwl pan gredir fod gweithred ddrwg wedi ei chyflawni. Os y dyn ei hun fydd wedi cyflawni y weithred, gelwir y boen yn adgno cydwybod. Ond nid yw hwn mewn gwirionedd ynrhan o gydwybod, nac yn ganlynydd ffyddlawn i gydwybod; ond canlyna yn hytrach Farn foesol, er nad bob amser, megys pan ddywedir fod cydwybod wedi ei serio.

Gan nad yw y Ddeddf foesol yn hysbysu ei hun trwy y Gydwybod, ac nad yw y Gydwybod yn ymwybodol o honi ei hun ond fel hysbysydd y Ddeddf; i bob dyben ymarferol yn eu hymwneyd â buchedd, gellir cymeryd y ddeddf a chydwybod yn gyfystyr.

Mae defnyddiad y gair Cydwybod yn y gwahanol ystyron a nodwyd i'w briodoli i raddau i ddiffyg elfeniad priodol o alluoedd y meddwl. Nid oes dim yn fwy amlwg na bod damcaniaeth Butler dan yr anhawsder hwn. Defnyddir y gair cydwybod ganddo ef ymhob un o'r ystyron a nodwyd uchod.

Ond fel egusawd drosto rhaid cofio fod Butler yn bwrpasol yn osgoi termau ysgolheigaidd er mwyn gallu cyfarfod, ar eu tir eu hunain, y rhai oedd yn ceisio hud-ddenu y werin-bobl oddiwrth grefydd a moesoldeb.

I. *Deffiniad Butler o Gydwybod.* Gadewch i ni chwilio i fewn i ystyr y frawddeg ganlynol o'i eiddo :—"Mae ymhob dyn egwyddor oruchaf o fyfyrdod, neu Gydwybod, yr hon a wahaniaetha rhwng egwyddorion mewnol ei galon yn gystal a'i weithredoedd allanol; yr hon a basia farn arno ef a hwythau; a gyhoedda yn bendant rai gweithredoedd ynddynt eu hunain yn gyfiawn, yn uniawn, ac yn dda; ac eraill ynddynt eu hunain yn ddrwg, anuniawn, ac anghyfiawn." *Serm.* II. Prin y mae yn briodol dyweyd "egwyddor o fyfyrdod." Nid egwyddor ydyw myfyrdod, ond ymarferiad o allu; yr hwn allu wrth gwrs a dybia egwyddorion a deddfau ei lywodraethiad. Ond y mae myfyrdod i'w wahaniaethu oddiwrth ddeddfau ei lywodraethiad; ac oddiwrth y deddfau a ganfyddir trwy ei gynnorthwy, fel deddfau natur er engraifft; neu y ddeddf foesol, yr hon trwy gynnorthwy myfyrdod a gymhwysir at weithredoedd penodol. Ond rhaid canfod y ddeddf cyn y gellir ei chymhwyso. A darganfod y ddeddf foesol ydyw gwaith priodol cydwybod; ond rhan o waith y deall, neu y *Farn foesol*, ydyw ei chymhwyso. Mae myfyrdod yn rhy ëang i fod yn gyfystyr â chydwybod. A phan ddefnyddir ef mewn perthyn-

as â'r ddeddf foesol, meddylia beth hollol wahanol i gydwybod. Mae myfyrdod hefyd yn hollol wahanol i gydwybod, am y gall ef ragflaenu yn gystal a dylyn y gydwybod. Ymarferiad hirbarhaol ydyw myfyrdod, a gall y casgliad fod yn anghywir; fel y dygwydda yn fynych pan yr ydym yn meddwl yn ddiofal, neu os byddwn heb ymberffeithio yn y gallu i adgrynhoi sylw. Ond gan mai y gallu sydd yn darganfod deddf foesol yn ddigyfrwng ydyw y gydwybod, ni all wneyd camgymeriad. Fel y dywed Kant, "y mae meddwl y gall cydwybod wneyd camgymeriad yn ynfydrwydd." Pan ddywed Butler mai "y gallu hwnw ydyw cydwybod a wahaniaetha rhwng egwyddorion mewnol," camddefnyddia y gair yn hollol, am mai *ymwybod (consciousness)* ac nid *cydwybod* a wna hyn. Gwahaniaetha cydwybod rhwng egwyddorion mor bell yn unig ag y mae a fynont â moesoldeb; ond daw agweddau eraill i'r egwyddorion i'r golwg trwy gymhorth myfyrdod.

Yn y frawddeg "mae yn allu a wahaniaetha weithredoedd allanol," cymerir cydwybod yn y fath ystyr ëang fel y gall gynnwys pob ymarferiad ag y gall y meddwl ei gyflawni.

Pan y dywed "fod cydwybod yn pasio barn arno ei hun (y gweithredydd) a hwythau" (y gweithredoedd), mae yn amlwg ei fod yn y rhan gyntaf yn cymeryd Cydwybod yn gyfystyr â'r Teimlad moesol; ond y rhan olaf yn gyfystyr a'r farn Foesol.

Pan ddywed Butler "fod cydwybod yn cyhoeddi rhai gweithredoedd yn ddynt eu hunain yn ddrwg neu yn dda," y mae yn defnyddio y gair yn ei ystyr priodol. Yma y mae yn cael ei ddefnyddio i olygu y gallu i ddarganfod gwirioneddau moesol cyffredinol a sefydlog.

II. Diffyg amlwg yn namcaniaeth Butler ydyw ei ymgais *i wneyd y natur ddynol yn safon rhinwedd.*

Mae dyweyd mai natur dyn yw safon moesoldeb yr un peth a dyweyd fod amser yn dibynu am ei fodolaeth ar yr awrlais neu yr oriawr. Lluniwyd yr oriawr, mae yn wir, i ganlyn neu i fesur amser, a dyma un moddion sydd genym i wahaniaethu un rhan o amser oddiwrth y llall; ond rhedai amser yn ei flaen yr un fath pe na byddai oriawr nac awrlais mewn bod, ac amser sydd yn rhoddi ystyr i'r oriawr. Yn debyg hefyd y gallwn ddyweyd fod natur dyn wedi ei llunio i ganlyn y ddeddf foesol. Ond nid sylfaen y ddeddf, ond un o'r moddion sydd genym i wahaniaethu rhwng gwahanol ranau y ddeddf foesol a'u gilydd, ydyw natur dyn.

Mae y prawf a ddyry Butler fod gwahanol egwyddorion yn y natur ddynol yn anwrthwynebol. A hefyd, ar y cyfan, rhaid cymeryd ei ddosbarthiad o honynt fel un o'r rhai mwyaf boddhäol. Ond y mae drychfeddwl sylfaenol ei gyfundrefn, sef sylfaenu rhinwedd ar y natur ddynol, yn hollol gyfeiliornus. Mae, pa fodd bynag, yn gosod uwchafiaeth y naill egwyddor ar y llall mewn dull hynod glir a chywir. Oblegid ffeithiau yw y rhai hyn ag y mae ymwybyddiaeth pob dyn yn eu dadguddio i'r sylwgar. Ond nid fel y ceisia ef wneyd ailan, am fod un egwyddor yn fwy naturiol na'r llall, y mae y naill uwchlaw y llall. Ond yn hytrach am fod yna ddeddf yn bresennol yn y gydwybod, nad yw yn dibynu am ei hawdurdod orchymynol ar natur. Pe buasai y ddeddf foesol yn dibynu am ei hawdurdod ar ein natur ni, nis gallasai ar y goreu gyrhaedd hawl uwch i ufudd-dod na bod ufuddhau yn beth manteisiol. Ond y mae cyffredinolrwydd, a "Dylet" neu *rhaid* yn hanfod y ddeddf foesol. Gall pob un ddeall hyn trwy brofiad; os ydyw y ddeddf foesol yn gwneyd dim y mae yn gorchymyn. Mae anghenrheidrwydd wedi ei argraffu ar bob un o orchymynion y deddf foesol. Mae gonestrwydd yn iawn. Teimlwn mai nid mater o gyfleusdra ydyw hyn, ond rhaid ei fod felly. Ac nid yw y rhaid mewn un modd yn dibynu ar gyfansoddiad ein natur; pe byddai i'n natur gael ei chyfnewid yn hollol, byddai gonestrwydd yn parhau yn iawn er hyny. Os ydyw deddf yn ddeddf foesol, mae yn rhaid iddi fod yn ddeddf gyffredinol. Mae deddf foesol heb y nodweddion hyn yn anamgyffredadwy, am eu bod yn cael eu tybio yn ei natur. Ond ni all cyffredinolrwydd nac anghenrheidrwydd y ddeddf gael ei gasglu os ydyw y ddeddf foesol yn sylf enedig ar ein natur.

III. *Uwchafiaeth Cydwybod* ydyw yr athrawiaeth ag sydd yn cyfansoddi

prif ragoriaeth ei gyfundrefn. Ac am y rhan a gymerodd i sefydlu yr athrawiaeth hon bydd ei goffadwriaeth byth yn enwog ymysg athronwyr. Uwchafiaeth Cydwybod ydyw coron ei gyfundrefn; a sefydlu teitl Cydwybod i'r frenhiniaeth ymhlith cynneddfau yr enaid, ydyw y gwasanaeth pwysig a wnaeth Butler i Athroniaeth Foesol. Dangosodd yn eglur mai Cydwybod ydyw yr awdurdod uchaf, er nad y gallu cryfaf yn myd meddwl.

Ond er mai profi Uwchafiaeth Cydwybod ydyw prif ragoriaeth cyfundrefn Butler, y mae sylfaenu yr uwchafiaeth hwnw ar gydgordiad y natur ddynol yn un o brif wendidau ei gyfundrefn. Wrth gwrs y mae y ffaith, mai trwy gymeryd yn ganiataol uwchafiaeth Cydwybod y gellir cael cydgordiad priodol rhwng gwahanol ranau y natur ddynol â'u gilydd, yn brawf o uwchafiaeth Cydwybod. Ond nid yw mewn un modd yn brawf mai cyfansoddiad ein natur ydyw sylfaen yr uwchafiaeth. Gwir fod y ddeddf foesol mewn cydgordiad â natur dyn, ac nad yw natur dyn yn cytuno â hi ei hun ond pan y mae yn cytuno â'r ddeddf foesol; ond o safle athroniaeth gellir edrych ar y cytundeb hwn fel damwain yn unig, ac nid fel sylfaen awdurdod y gyfraith.

Mae yn deilwng o sylw hefyd fod Butler wedi canfod pa beth yn briodol a feddylir wrth *Awdurdod* y ddeddf. Gwahaniaetha rhwng awdurdod a gallu Cydwybod yn y frawddeg adnabyddus, "Pe buasai ganddi (sef Cydwybod) allu yn gyfatebol i'w hawdurdod, hi fuasai unig feistres y byd." Mae awdurdod cydwybod yn gynnwysedig nid mewn gallu i orfodi yr ewyllys, ond yn y gwirionedd a ddadguddir ganddi. Cawn ganddo yn y frawddeg hon wir natur cydwybod a'i dull o weithredu. Mae yn natur y ddeddf foesol, fel ei dadguddir gan gydwybod, i ddyweyd "dylet;" ond gall dyn ufuddhau neu anufuddhau i'r gorchymyn. Ond y wybodaeth fod y gorchymyn yn iawn, fod gwirionedd yn sylfaen i'r gorchymyn, sydd yn cyfansoddi ei hawdurdod.

Nid yw anufudd-dod chwaith yn gwanhau awdurdod Cydwybod. Oblegid y mae y dwysbigiad a ddilyna anufudd-dod yn brawf fod yna ddyledswydd; ac y mae dyledswydd bob amser yn tybio awdurdod. Mae dwysbigiad cydwybod yn brawf pendant mai ei hawdurdod hi sydd oruchaf. Mae, o'r tu arall, yn dangos mai nid dyma y gallu cryfaf, am y gellir myned yn erbyn ei hawdurdod. Ond er pob anufudd-dod, fe barha cydwybod i hòni ei hawdurdod i orchymyn, er nad i fynu, ufudd-dod. Ond nid yw yr awdurdod a hònir gan gydwybod, mewn gwirionedd, yn ddim amgen nag awdurdod y ddeddf a ddadguddir gan gydwybod. Nid yw y teimlad o euogrwydd a ddilyna gyflawniad gweithred yn ddim amgen na'r ddeddf yn dangos ei hawdurdod; neu yn iaith Butler, "Cydwybod ydyw yr egwyddor oruchaf yn y natur ddynol." Fel y dywed Butler, mae ei huwchafiaeth yn cael ei dybio yn ystyr y gair cydwybod. Oblegid meddwl cyntaf deddf foesol ydyw ei bod yn ddeddf i bawb. Mae pob dyn, a holl alluoedd dyn yn eu gweithrediad, i fod dan reolaeth y ddeddf hon. Ond dylai y ddeddf ag sydd i arwain dyn pa fodd i ddefnyddio ei alluoedd fod uwchlaw iddynt, er mwyn iddi fod yn arweinydd diogel. Mae amcan cyntaf y ddeddf foesol yn gofyn am i'w hawdurdod fod yn oruchaf. Ond cydwybod ydyw y ddolen gydiol rhwng y ddeddf foesol âg ymddygiad dyn. Mewn geiriau eraill, trwy y gydwybod y gwna y ddeddf ei hun yn hysbys fel arweinydd buchedd dyn. Cydwybod gan hyny ydyw ein hysbysydd o gynnwys ac ystyr deddf ymddygiad. Mewn pethau yn perthyn i ymddygiad, cydwybod felly ydyw y llys uchaf. Mae ystyr gyntaf cydwybod yn gwneyd yn anmhosibl appelio oddiwrthi at unrhyw egwyddor neu awdurdod uwch. Cydwybod ydyw yr awdurdod uchaf mewn pethau yn perthyn i ymddygiad, am ei bod yn darganfod yn ddigyfrwng ddeddf gyffredinol a sefydlog ymddygiad.

Pa fodd y gallai Butler ddal annibyniaeth a sefydlogrwydd cydwybod yn ngwyneb ei ddamcaniaeth am y natur ddynol, mae yn anhawdd gweled.

IV. Nid yw Butler yn amcanu *rhoddi cyfres gyflawn o'r holl orchymynion moesol.* Ni ddywed yn bendant fod gwahaniaeth hanfodol rhwng gwahanol orchymynion moesol â'u gilydd. Ar y cyfan, ymddengys ei fod

yn cymeryd yn ganiatäol eu bod oll yn cael eu cynnwys mewn un egwyddor, er fod ei ddull o brofi fod ein natur fewnol yn meddu ar ranau hollol wahanol i'w gilydd yn peri i ni gredu, pe buasai wedi rhoddi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn, y buasai yn dal fod yn anmhosibl cynnwys yr holl orchymynion moesol dan "un gorchymyn mawr."

Bai amlwg yn ei gyfundrefn ydyw *peidio gwneyd allan nodweddion gwahaniaethol gweithred dda a gweithred ddrwg.* Nid yw dyweyd mai gweithred ddrwg yw pob un a gondemnir gan gydwybod, o gwbl yn gwneyd i ffwrdd â'r anhawsder. Oblegid, o'r tu arall, gellir edrych ar gydwybod fel y gallu a gondemnia weithred ddrwg. Ond nid yw hyn ond engraifft o'r hyn a elwir ymresymu mewn cylch. Rhaid cael allan y nodwedd sydd yn gyffredin i bob gweithred ddrwg trwy elfeniad manwl, ac ystyriaeth ddigonol o natur arbenig pob un o'r gorchymynion moesol, fel y maent yn dwyn cysylltiad â dyn yn ei wedd bersonol, gymdeithasol a chrefyddol.

Ond y mae yr hyn a ddywed am gydgordiad y natur ddynol yn dangos y buasai yn rhaid iddo ddal fod yr holl orchymynion moesol yn gyson â'u gilydd, er fe allai na ellid eu cynnwys oll dan un gorchymyn. Hyd y gallaf weled, dyma brif ddiffygion a rhagoriaethau cyfundrefn foesol Butler; ac y mae ei ddiffygion agos oll wedi tarddu o aneglurder a diffyg manylder mewn defnyddiad termau priodol.

URDDAS A RHYDDID CREFYDDOL.

Nid oes dim â mwy o urddas yn perthyn iddo na'r Efengyl. Y mae yn ddadguddiad o'r Tad, a'r Mab, ac o'r Ysbryd Glân. Ac y mae yn ddadguddiad o honynt yn eu gwaith; nid yn nghreadigaeth y byd, ond yn achubiaeth dyn wedi ei golli trwy bechod. A mwy, y mae yn ddadguddiad o'r urddas y dyrchefir pawb iddo a wnant dderbyniad o honi. Urddas "na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn" i ddychymygu am dano—yr urddas o fod yn blant ac yn etifeddion i Dduw, ac yn gydetifeddion â Christ. Y mae yr urddas hwn yn ddeublyg. Y mae yn urddas amgylchiadol, ac y mae yn urddas hanfodol. O ran ei amgylchiadau, y mae Duw "yn trigo yn y goleuni," fel nas gellir dyfod ato; ac o ran ei hanfod, "Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch;" a thra y mae o un tu yn eistedd ar amgylchoedd y nefoedd, a'i freiniaeth yn llywodraethu ar bob peth, y mae o'r tu arall yn "Ydwyf, yr hwn Ydwyf," "yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, "a'i enw yn Jah," "a'i hanfod ynddo ei hun."

Ond nid oes dim, ar yr un pryd, â mwy o ryddid yn ei nodweddu na'r Efengyl. Cwestiwn mawr y cynfyd, wrth feddwl am y pellder sydd rhwng dyn fel creadur a Duw fel Creawdwr, ac yn enwedig wrth feddwl am y pellder sydd rhyngddo fel pechadur â Duw fel Barnwr, oedd, "Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear?" Y mae y gagendor mor fawr, fel yr oedd yn ymddangos yn anmhosibl iddi byth gael ei llanw. Ond "pan ddaeth cyflawnder yr amser Duw a ddanfonodd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf."

"Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr,
Fe 'i llanwodd â'i haeddiant ei hun."

Ni ollyngodd ei afael o'r urddas hanfodol a berthynai iddo am eiliad; ond i'r gwrthwyneb, yn ei ddarostyngiad mwyaf "Mab Duw yn wir oedd y dyn hwn," ac yr oedd yn "Fab y Dyn yr hwn sydd yn y nef" tra yma ar y ddaear; ac "i chwi y rhai ydych yn credu y mae yn urddas" ac yn destun ymffrost. Ond fe roddodd heibio dros amser ei urddas amgylchiadol: "Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw, eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas." Fe ymgymysgodd yn rhydd â gwehilion cymdeithas, fe bregethodd yr efengyl i'r tlodion. Fe "gymerodd ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau;" ac yn y diwedd bu farw. Ac wedi gorphen ei waith y mae yn gweddïo am adferiad o'r urddas a adawodd o'i ol, gan ddyweyd, "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear, mi a gwblheais

y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur. Ac yn awr, O Dad, gogonedda di fyfi gyda Thi dy hun â'r gogoniant oedd i mi gyda Thi cyn bod y byd." Fe "esgynodd goruwch yr holl nefoedd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd." Ond wedi i'r gogoneddiad gymeryd lle, y mae yr un rhyddid ac agosrwydd eto yn parhau; o herwydd meddai, "Os câr neb fi," beth bynag fyddo ei amgylchiadau, "efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau; a nyni a ddeuwn ato, ac a wnawn ein trigfa gydag ef." Ac am yr Ysbryd, dywedir, "Ac efe a erys gyda chwi yn dragywydd, ac ynoch y bydd efe." Ac felly, meddaf, y mae yr Efengyl yn gyfuniad teg o'r urddas mwyaf dyrchafedig ac o'r rhyddid mwyaf trwyadl.

Yr oedd yr hen Fethodistiaid yn cael eu nodweddu gan ryddid arbenig ymhlith eu gilydd. Yr oeddynt, mae yn wir, yn credu yn gryf mewn swyddogaeth eglwysig, a bod y swyddogion yn gweithredu mewn awdurdod, ac o dan gyfrifoldeb mawr. Ond yr oedd y gweinidogion, fel yr Athraw mawr, yn cyflwyno eu haddysg mewn iaith, ac yn ei gwisgo mewn cymhariaethau, mor ddealladwy i'r gwrandawyr, fel ag yr oedd agosrwydd mawr rhyngddynt; ac yr oedd eu bugeiliaid, gan mwyaf yn bobl oedd wedi codi o'u plith hwy eu hunain, ac wedi eu temtio yn mhob peth yr un ffunud a hwythau. Ac yn gymaint a'u bod yn troi ymhlith dynion mewn bywyd cyffredin, yr oeddynt yn adnabod y natur ddynol yn dda; ac yn eu cyfarfodydd eglwysig yr oedd rhyddid mawr yn eu plith, a theimladau y naill yn naturiol yn ymdoddi i deimladau y llall. Ac "yn gymaint a dyoddef o honynt hwy, gan gael eu temtio, yr oeddynt yn medru cynnorthwyo y rhai a demtid." Ond yr oedd y rhyddid hwnw yn cael ei ddiogelu i fesur mawr rhag myned yn eofndra direol, gan urddas ysbrydol mawr o du y swyddogion; o herwydd yr oeddynt fel rheol nid yn unig wedi dysgu llawer o ddoethineb yn ysgol fawr profiad yn y byd, ond yr oeddynt hefyd yn ddylanwad arbenig gyda Duw mewn gweddi, ac yn tynu eu hadnoddau mawrion o'r byd ysbrydol, ac yn dwyn tystiolaeth i gydwybodau y rhai a'u hadwaenent oreu eu bod, fel Ioan gynt, yn ddynion oedd wedi eu hanfon oddiwrth Dduw; ac yr oeddynt "yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd." Mae yn wir eu bod hwythau yn gwybod am lawer o ymbleidiau, ac enllibiau, ac erlidiau, fel eu brodyr y rhai sydd yn y byd; ond meddaf eto, yr oedd rhyddid ymarferol ac urddas ysbrydol yn nodweddu yr hen dadau Methodistaidd yn mhob cylch, o'r Gymanfa Chwarterol hyd at y moddion mwyaf distadl yn eu plith.

Nid oedd y Cyfundeb ar y cyntaf yn cael ei nodweddu gan lawer o urddas amgylchiadol; ond i'r gwrthwyneb, syml a diaddurn oedd ei gapelau, gyda meinciau cyfaddas gogyfer â'r tlawd, y weddw a'r amddifad, yn y canol. Syniad gogoneddus, mae yn wir! A digon anghelfydd yn fynych oedd y gwasanaeth a ddygid ymlaen o'u mewn, a phobl gyfrifedin eu hamgylchiadau oedd cyfangorff eu haelodau. Ac oni b'ai am "yr eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw," trwy yr hwn "y gwyddent bob peth," dynion anwybodus gan mwyaf fuasai ei ddysgawdwyr; a digon priodol y gellir dyweyd "nad llawer o rai doethion yn ol y cnawd, nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion," fu yn galw drosto nac yn cael eu galw ganddo; ac "mor llygredig oedd ei wedd" fel y mae yn amlwg mai nid yn ei amgylchiadau yr oedd cuddiad ei gryfder. Ond yn y blynyddoedd diweddaf, mae yn amlwg ei fod yn eithaf priodol, o dan arolygiaeth yr ystadegwyr, yn ymgyrhaedd am ychwaneg o urddas amgylchiadol. Y mae yn gweddnewid yn ein gwydd. Ac erbyn hyn, o drugaredd, y mae nifer liosog o'n haelodau yn gyfoethog, yn aelodau Seneddol, yn ustusiaid heddwch, yn wŷr meirch ac yn wŷr cerbydau; ac yr ydym ninnau yn teimlo ein bod trwyddynt yn cael ein codi tuag i fyny, er, fe allai, mewn llawer amgylchiad nad yw rhai o honynt yn cyfranu hanner y treuliadau ychwanegol yr eir iddynt trwy eu cysylltiad â ni, a'r baich mewn canlyniad yn gorphwys yn drwm ar ysgwyddau pobl gymharol weiniaid. Amcenir hefyd gwneyd y pulpud yn bulpud dysgedig, a gosod yr holl eglwysi o dan ofal bugeiliaid uwchraddol a boneddigaidd. Adeiledir capelau mawrion ac addurn-

edig, a dygir yr holl wasanaeth ymlaen o'u mewn ar raddeg gyfatebol. Pethau treulfawr, mae yn wir; ond pethau ar yr un pryd na charwn eu diystyru, na dyweyd gair yn eu herbyn. Ond y cwestiwn mawr yw,—A ddichon efe, wrth ennill mewn urddas amgylchiadol, ddal ei afael yn y rhyddid ymarferol a'r urddas ysbrydol a'i nodweddai o'r cychwyniad cyntaf?

Yn ol yr esiampl a nodwyd eisoes, y mae yn amlwg nad ydynt yn anghydnaws â'u gilydd, fel ag i bresennoldeb y naill o anghenrheidrwydd fod yn tybied absennoldeb y lleill. Ond i'r gwrthwyneb, gwelsom lawer o bersonau unigol yn meddu llawer o urddas amgylchiadol ac urddas ysbrydol; ac ar yr un pryd yn bobl hawdd iawn i bawb nesâu atynt ymhob lle ac ymhob amgylchiad, fel y diweddar Iarll Shaftesbury er esiampl. A gellir dyweyd yr un peth am lawer o eglwysi, os nad am gyfundebau hefyd. Ond yn anffodus, y maent wedi eu gwahanu yn fynych oddiwrth eu gilydd; ac fe allai nas gallwn gael gwell esiampl o hyny nag ymysg ein cymydogion y Saeson, yn enwedig yn y trefydd poblog. Ac, a myned heibio i'r Sefydliad, gyda ei esgobion a'i eglwysi cadeiriol, ei ŵyr mawr a'i bencapteniaid, awn at yr Anghydffurfwyr, ac fe gawn lawer o urddas amgylchiadol y dosbarth canol o'u cwmpas hwythau eto. Y mae eu capelau fel rheol yn fawrion, eu gweinidogaeth yn ddysgedig, eu haelodau yn lliosog, eu cyfarfodydd yn amrywiol, a'u cyfraniadau yn helaeth; a'r ystadegwyr, fe allai, yn eu cyhoeddi fel mewn sefyllfa foddhaol ac addawol iawn. Ond nid yw y tlawd a'r anwybodus, fel rheol, yn syniadaeth eu trefniadau. Y mae y capelau yn rhy wychion iddynt hwy i'w mynychu, ardreth yr eisteddleoedd a gofynion eraill yn rhy uchel iddynt hwy fedru eu talu. A chyda'r eithriad o Mr. Spurgeon ac eraill, y mae yr addysg yn cael ei gweinyddu mewn cangeniaith nad ydynt hwy yn medru ei deall, a'r egluriadau gan mwyaf yn cael eu benthyca o awdwyr nad ydynt hwy yn medru oddiwrthynt. Hwyrach y dywed y gweinidog fod yr Arglwydd Iesu yn Waredwr mewn modd arbenig i'r tlodion; ac yna ymaith âg ef ar ol y bobl fawrion. Dyna y fan, fel rheol, y gorphwys ei enaid. Ac mewn canlyniad i'r pethau hyn a'r cyffelyb, y mae yr Efengyl wedi colli ei gafael ar y dosbarth gweithiol, a'r dosbarth truenus sydd yn ngwaelodion cymdeithas, y dosbarth y teimlodd y Gwaredwr yn fwyaf cynhes tuag atynt pan yma ar y ddaear. Yr oedd yn "gyfaill publicanod" ac "yn derbyn pechaduriaid ac yn bwyta gyda hwynt." "A'r Hwn a ddisgynodd yw yr Hwn hefyd a esgynodd." Ac oni b'ai am Fyddin Iachawdwriaeth a'r cyffelyb, buasai y dosbarth gweithiol a'r trueiniaid sydd yn gorwedd wrth odrau cymdeithas, heb foddion gras ac ordinhadau yr efengyl wedi eu darpar ar eu cyfer. Ac yn niffyg yr unig foddion a drefnodd Duw i'w cyfnewid hwy oddimewn, y mae *Socialistiaeth* yn d'od ymlaen, ac yn eu cynhyrfu i geisio gwellhau eu hamgylchiadau oddiallan ar gost pobl eraill. Oes, meddaf, y mae llawer o urddas amgylchiadol yn perthyn i'r Anghydffurfwyr Seisonig; ond y maent i fesur mawr yn ddiffygiol o'r rhyddid a'r agosrwydd sydd mor nodweddiadol o'r efengyl; ac wrth ddylyn yr un llwybrau, yr ydym ninnau, y Cymry, mewn perygl o derfynu yn yr un sefyllfa, ac i gorff ein cenedl ddychwelyd eilwaith i dywyllwch ac i aros "yn mro a chysgod angeu."

I ochelyd y fath drychineb, mae yn ymddangos i mi fod ein diogelwch yn dibynu ar ein bod yn gosod y pwys mwyaf ar urddas ysbrydol, a gosod argraff ddofn ar feddyliau ein haelodau ein bod yn prisio duwioldeb yn fwy na chyfoeth lawer, ac yn gwerthfawrogi ysbrydolrwydd meddwl yn uwch na dysgeidiaeth uchel; a'n bod yn gofyn yn ein swyddogion yn arbenig y mesur helaethaf o gymhwysderau ysbrydol i gyflawni gwaith eu swyddau; eu bod yn ddynion sydd yn rhoddi cwbl ddiwydrwydd, ac yn ychwanegu at eu ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth, ac at wybodaeth gymedrolder, ac at gymedrolder amynedd, ac at amynedd dduwioldeb, ac at dduwioldeb garedigrwydd brawdol, ac at garedigrwydd brawdol gariad. Ac yna, "os bydd y pethau hyn ganddynt, ac yn aml hwynt, y maent yn peri nad ydynt na segur na diffrwyth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist." Ac fe fydd eu haddysg, nid

yn ffrwyth brwdfrydedd dealltwriaeth o'r efengyl yn unig, ond yn ffrwyth cofleidiad calon o honi hefyd; a hyn, fel "O!" ryfedd Whitfield, ac attal dyweyd John Elias, a ddyogela y dysgedig, o un tu, rhag gwagder anffyddiaeth, ac a gyfyd y tlawd, o'r tu arall, o drobwll anobaith. Ac er fod arucheledd yn perthyn i'r urddas hwn, eto y mae, o ran ei ysbryd, mor eang fel y gall gymeryd i mewn bob dosbarth o ddynion ar yr un pryd, ac yn ddigon dwfndreiddiol i roddi ysbryd a bywyd yn ffigyrau sychion yr ystadegwyr. A phan y cydgyferfydd urddas ysbrydol ac urddas amgylchiadol â rhyddid ymarferol, y maent yn attynu ac yn gogoneddu y naill y llall; a phriodol y gellir dyweyd, "A'r tri hyn yn un y maent yn cytuno."

H. E.

CREFYDD DEULUAIDD.

Anerchiad a draddodwyd yn Nghyfarfod Misol Criccieth, Rhagfyr 4, 1888.

Gan EDWARD JONES, Ysw., *Maer Pwllheli.*

WRTH grefydd deuluaidd y meddyliwn, yr ymarferiad hwnw o grefydd ag sydd briodol ac anghenrheidiol i'r cylch teuluol. Mae gan grefydd ei llais at y teulu, ac y mae y teulu wedi ei fwriadu i fod yn gyfrwng cyflead o honi i'r byd.

Duw sydd wedi dysgu dyn i weled pwysigrwydd a chysegredigrwydd y teulu, ac i werthfawrogi y dedwyddwch hwnw sydd yn deilliaw oddiwrth yr ymarferiad o grefydd yn y teulu. Efe gysegrodd y reddf deuluol sydd mewn dyn, trwy neillduo teulu Abraham iddo ei hun, a'i wneyd yn gyfrwng cyflead iachawdwriaeth i'r byd; trwy hyn cafodd teulu Abraham ei amgylchu â'r fath gysegredigrwydd nad oedd unrhyw deulu arall ar y pryd yn feddiannol arno. Nid yw teulu crefyddol ond dadblygiad o'r hyn a wnaeth Duw i deulu Abraham.

Nid oes dim ag y mae Ysgrythyrau y Testament Newydd yn gosod mwy o bwys arno na dyrchafiad a phureiddiad y teulu, mewn ystyr foesol ac ysbrydol: gwelwn hyn yn Epistolau Paul. Yn Epistol Paul at yr Ephesiaid, y mae yn esgyn i uchelderau ag ydynt hyd yn nod iddo ef yn eithriadol. Y mae ei lygaid yn yr Epistol hwn yn edrych mor bell i oleuni y dyfodol ag yr edrychai llygaid eryraidd Ioan yn llyfr y Dadguddiad. A beth mae yn ei weled? Y mae yn gweled lledaeniad, cynnydd, a buddugoliaeth crefydd Crist yn y byd. A beth ydyw un o'r prif foddion trwy ba un y gwel hyn yn cael ei ddwyn oddiamgylch? Y teulu. Dywed lawer am y teulu yn mhennodau olaf yr epistol hwn. Gesyd bwys annhraethol ar sancteiddiad y teulu; â mor bell a chymeryd yr undeb teuluol rhwng y gŵr a'r wraig yn gymhariaeth i ddangos undeb Crist â'i eglwys. Eglur yw fod Paul yn ei garchar yn edrych ar ddyrchafiad a phureiddiad y teulu, er ei sancteiddiad oddiwrth yr anfoesoldeb dirfawr a ffynai ar y pryd, fel moddion trwy ba un y byddai i grefydd Crist gael ei sefydlu a'i lledaenu yn holl ranbarthau y ddaear. Edrycha ar deulu crefyddol fel *reservoir* o allu ysbrydol, trwy ba un y mae y byd i gael ei adgenedlu. Trwy sancteiddiad y bywyd teuluol y mae bywyd y byd i gael ei sancteiddio.

Dyma yn wir ydyw y modd trwy ba un y mae Cristionogaeth yn gweithredu ac yn ymledaenu. Nid cymeryd gafael mewn cymdeithas fel cyfangorff a'i chyfnewid, nid dyna fodd Cristionogaeth o weithredu; ond cymeryd gafael mewn rhan o gymdeithas, sef y teulu, a gweithio ei ffordd trwy y rhanau at yr oll o gymdeithas. Mae athroniaeth gweithrediad Cristionogaeth wedi cael ei ddangos i ni gan Fab Duw yn nghyffelybiaeth y clamp toes. Nid trawsgyfnewid yr oll o'r blawd fel cyfanswm ar unwaith y mae y clamp toes; ond cyfnewid y gronynau, ac ymledaenu trwy y gronynau, nes cyfnewid yr oll i'w elfen ei hun. Felly Cristionogaeth, trwy weithio ei ffordd trwy y person unigol a thrwy y teulu, y mae yn y diwedd i dd'od â'r byd i'r un elfen â hi ei hunan.

Yn y teulu gallwn arddangos yr oll o foesoldeb crefydd, ac ymarfer ei holl rinweddau. Gall pob teulu fod yn fath o eglwys ynddo ei hun. Yn wir bu amser pryd na fodolai yr eglwys yn unman ond yn y teulu. Nid oes dim yn dangos mwy o ysbryd cyfeiliornus y grefydd Babaidd, na gwaith llawer o'i chofleidwyr yn ymryddhâu oddi-

wrth linynau y teulu, ac yn ffurfio math o gartref iddynt eu hunain rhwng muriau mynachdai a dirgel sefydliadau eraill, gan dybio fod teulu o'r fath yma yn burach ac yn well na'r teulu ag y mae y Duw anfeidrol wedi ei sefydlu, ac wedi ei fwriadu i ni fyw ynddo. Nid mewn teulu mynachol y mae y grefydd deuluol oreu i'w chael, ond yn y teulu o ŵr a gwraig, a brodyr a chwiorydd, ag y mae Duw ei hun wedi ei sefydlu. Derbyniad Crist i'r teulu, presennoldeb meddwl Crist yn ei hunan-ymroddiad, ei gariad, a'i burdeb yn aelodau y teulu, dyna y grefydd deuluaidd ag y mae Duw eisieu i ni ei hymarfer, ac nid crefydd y mynachdŷ. Mae gwahanol berthynasau y teulu yn cael eu nodi gan Paul; ond nid yw ef gymaint ag unwaith yn dywedyd fod yn rhaid i ni wisgo gwisg neillduol, a bod yn hynod fanwl yn yr ymarferiad o ffurfweddiau neillduol, mewn trefn i gael y rhywogaeth uwchaf o grefydd. *Nonsense* wedi tarddu o ddychymyg cyfeiliornus Pabyddiaeth yw peth fel yna. Na, dysg Paul fod yn bosibl i gael crefydd o'r fath oreu yn y teulu cyffredin: "Yr hyn a gysylltodd Duw, na wahaned dyn." Nid trwy dori a gwahanu y teulu y mae Cristionogaeth i gyrhaedd ei hamcan, ond trwy ddwyn ei hysbryd hi i mewn i'r teulu fel yma; ac nis gellir dychymygu am ddim cryfach yn efengyleiddiad y byd, na mam a thad yn byw yn ofn yr Arglwydd, ac yn arwain traed eu plant ar hyd ei ffyrdd sanctaidd Ef. Gellir olrhain rhai o'r pethau mwyaf a wnaed yn y byd erioed, mewn ffordd o'i ddyrchafu mewn moes a rhinwedd, i ddylanwadau duwiol mewn teulu crefyddol.

Nis gallwn osod gormod o bwys ar arferyd crefydd gartref. Y *compliment* mwyaf dalodd Duw i Abraham—ac fe roddodd Duw gryn lawer o *gompliments* i Abraham—ond y *compliment* uwchaf dalodd iddo oedd pan y dywedodd y gwyddai y gwnai Abraham orchymyn i'w deulu gadw ffordd yr Arglwydd. Os ydyw crefydd yn wan yn y teulu, y mae yn sicr o fod yn gymesurol wan yn yr eglwys. Ofnwn fod gwendid yr eglwys yn y dyddiau hyn i'w briodoli i fesur helaeth i wendid crefydd yn y teulu. Os ydyw y teulu wedi taflu yr allor deuluaidd dros y drws, ac yn eu hymddygiad yn awgrymu y gall llyfr Duw fyned ar ei hol, o ran y defnydd a wnant hwy o hono, na ryfedder os ydyw aelodau y teulu yna, fel aelodau o'r eglwys, yn aelodau oerion a difater. Y bobl sydd ganddynt fwyaf o grefydd yn y teulu, ydyw y bobl sydd yn dangos fwyaf o wir grefydd yn yr eglwys, ac i'r byd. Mae proffesu crefydd o gwbl, ac esgeuluso gweddi a darlleniad cyson o Air Duw yn y teulu, yn anghysondeb o'r fath fwyaf annheilwng. Gwareded Duw ni rhagddo!

Dadau a mamau, mae eich cyfrifoldeb yn fawr. Mae dyfodol y plant ag yr ydych yn eu caru, y plant ag yr ydych yn awr yn eu magu, yn dibynu i fesur helaeth iawn ar y mesur o grefydd a arferwch gartref. Byddant hwy yn eich gadael chwi, neu chwi yn eu gadael hwy yn fuan; a'r gynnysgaeth oreu allwch roddi iddynt ydyw adgof o weddiau a chynghorion, a bywyd crefyddol yn y teulu. Bydd hyn yn amddiffyn iddynt rhag y drwg sydd yn y byd. Mae math o ehediaid yn yr America ag ydynt fel y gwenyn, yn gadael eu hen gartref bob hyn a hyn o amser. Cychwynant yn gymylau duon, gan faint eu hamledd; ond ychydig o honynt, mewn cymhariaeth, sydd yn cyrhaedd cartref newydd, oblegid mae miloedd o honynt wrth adael yr hen gartref yn colli eu hadenydd, yn disgyn i'r ddaear, ac y mae y llyffaint a'r ymlusgiaid yn byw yn fras ar eu cyrff. Os gedy eich plant yr hen gartref, heb esiamplau bywyd duwiol tad a mam yn y teulu, byddant i'r mesur hwnw heb allu i ymgodi uwchlaw perygl, ac fel yr ehediaid wedi colli eu hadenydd, disgynant i ddrygau ydynt fel ymlusgiaid aflan yn gwylio am danynt.

Yr ydym oll yn aelodau o'r un corff yn Nghrist, ac y mae yna fantais i ni ddangos ein parch a'n cariad tuag ato yn y teulu, a gallwn ofyn i ni ein hunain, "A oes yna rywbeth yn y bywyd gartref ag sydd yn groes i ewyllys Crist?" Gallwn ymddangos yr hyn nad ydym *o'r* cartref, ond *yn* y cartref rhaid i ni dynu y *mask* ac ymddangos yr hyn ydym mewn gwirionedd; ac fel ein hadnabyddir yn y teulu fel yr ydym, ein hadnabyddir ger bron gorseddfainc Duw! Byddwn fyw yn y teulu yn y fath fodd ag a'i gwnelo yn crr es o'r bywyd diderfyn yn y nef.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, MAWRTH 10FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MEDI 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

ADN. 15: *Ac un o honynt, pan welodd ddarfod ei iachâu, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llef uchel.* Nid oeddynt wedi myned at yr offeiriaid; iachäwyd hwynt ar y ffordd tra yn myned. Aeth y naw ymlaen. Dychwelodd yr un hwn yn ol yn y fan, pan deimlodd yr iachâd trwy ei holl fôd, wedi ei lenwi â diolchgarwch. Cymerodd y cwbl le mewn byr amser; ac ymddengys fel pe buasai yr adroddwr yn llygad-dyst.

ADN. 16: *Ac efe a syrthiodd ar ei wyneb wrth ei draed ef, gan ddiolch iddo.* Nid ffurf oedd yma, ond calon lawn yn cael ei thywallt. *A Samariad oedd efe.* Dyma y ffaith arwyddocaol: estron a heretic yn ngolwg yr Iuddew, na wyddai ddim am wir addoli.

ADN. 17: *Oni lanhawyd y deg? Ond pa le y mae y naw?* Aethai y naw ymlaen at yr offeiriaid, wedi eu glanhau, mewn ufudd-dod i lythyren y gorchymyn. Ond nid oedd y manylwch seremoniol hwn ond peth bychan yn ngolwg ein Hiachawdwr, yn ymyl calon ddiolchgar.

ADN. 18: Y mae diolchgarwch yn rhoddi i Dduw y gogoniant sydd ddyledus iddo fel Rhoddwr pob daioni. *Yr estron hwn.* Cenedlddyn. Tebyg i'r engraifft arall o ffydd yn y canwriad Cenedlig, fwy nag a gawsai yr Iesu "yn yr Israel." Gwelir rhai yn ddiffygiol yn nghanol manteision, ac eraill yn rhagori er pob anfantais. Y mae yn debyg fod ein Harglwydd yn gweled yn yr amgylchiad hwn arwyddocâd cysgodol o anniolchgarwch dynolryw yn y cyfanswm. Fel hyn yr oedd llawer o'r rhai yr oedd efe o'r blaen wedi eu hiachâu. Diolchgarwch yw y "gras" sydd yn wreiddyn defosiwn (Heb. xii. 28). Anniolchgarwch oedd gwreiddyn gwrthgiliad Israel (Deut. xxxii. 6); a gwreiddyn paganiaeth y byd Cenedlig (Rhuf. i. 21).

ADN. 19: *Dy ffydd a'th iachâodd.* Mewn ystyr uwch na'r naw eraill. Edrychasant hwy ar y sarph bres, megys, â llygaid allanol y corff, a chawsant iachâd corfforol; ond hwn â llygad mewnol ffydd, a chafodd iachâd oddiwrth y gwahanglwyf naturiol, ac oddiwrth y gwahanglwyf dyfnach a gysgodid ganddo.

SABBOTH, MAWRTH 17EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* MEDI 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Iachâu merch y wraig o Ganaan.

SABBOTH, MAWRTH 24AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MEDI 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Iachâu merch y wraig o Ganaan.

[Ceir sylwadau helaeth ar yr oll o'r Wers uchod, yn cynnwys atebion i gwestiynau y GWERSLYFR, yn y DRYSORFA am Gorphenaf, 1888, tu dal. 249—225.]

SABBOTH, MAWRTH 31AIN—*(Yr oll o'r Wers am* HYDREF 7FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Iachâu y mud a'r byddar.

ADN. 31: *Ac efe a aeth drachefn ymaith o dueddau Tyrus a Sidon,* &c. Tua'r gogledd yn gyntaf (er mwyn dirgelwch, fe allai, fel o'r blaen, adn. 24) trwy Sidon, ar draws yr Iorddonen, i'r ochr ddwyreiniol i fôr Galilea.

ADN. 32: *Un byddar ac attal dywedyd arno.* Mud a byddar, fel y dywedem ni. Byddardod yw yr achos o fudandod; am nad yw y byddar yn clywed seiniau nis gall eu swnio. Gallai nad yw hyn ond rhan o'r achos. Dywedir fod diffyg yn y peiriannau llafar ynglŷn â diffyg yn y clyw.

ADN. 33: *Ei gymeryd ef o'r neilldu allan o'r dyrfa.* Paham? Gallai mai am fod y rhan hon o'r wlad yn cynnwys Cenedloedd ac Iuddewon. Nifynai greu cyffro, i dynu lluoedd o Genedl-ddynion, ac i gynnyrchu ofergoeledd ynddynt hwy a rhagfarn yn yr Iuddewon. Felly y gwnaeth yr Iesu â'r dyn dall o'r tu dwyrain i Bethsaida—aeth âg ef yn gwbl y tu allan i'r pentref. Nis gellir penderfynu yr achos. Gallai mai rhyw neillduolrwydd yn y dyn, neu yn yr edrychwyr a'r amgylchiadau. Paham y rhoddai ei fysedd yn ei glustiau ef, poeri, a chyffwrdd â'i dafod? Nid i guddio yr elfen wyrthiol yn y gwelliadau. Buasai hyny, medd Meyer, yn anghywirdeb. Yr oeddynt yn arwyddion i gysylltu y wyrth â'i Berson ef. Defnyddiai ein Hiachawdwr foddion allanol, medd Alford, fel arwyddion o'r rhinwedd iachäol oedd yn trigo ynddo Ef ac yn dyfod allan o hono, fel yn ymgnawdoledig yn ein natur ni. Gallai hefyd fod yr Hwn a fedrai wneyd

heb foddion yn defnyddio moddion, er mwyn rhoddi mawredd ar foddion, yn addysg i ni y rhai nas gallwn wneyd hebddynt.

Adn. 34: *A chan edrych tua'r nef, efe a ocheneidiodd*, &c. Ochenaid gweddi; ochenaid ymdrech; ochenaid cydymdeimlad poenus. Yr oedd ffydd yn fwy anmherffaith yn y rhandir hanner-paganaidd hwn. Gallai ei fod mewn gwlad fel hon, lawn o grêd mewn swyn a gau dduwiau, am wneyd yn fwy amlwg ei ddibyniad ar Dduw y Tad. Noda Marc yn fanwl ei ocheneidiau, a'i edrychiadau.

Adn. 35: *Rhwym ei dafod a ddattodwyd.* Cefnoga hyn y farn fod rhwystr anianyddol yn y peiriannau llafar, heblaw yr anfantais o fod heb glywed seiniau gan eraill. Symudwyd yr hyn oedd yn attal, beth bynag ydoedd.

Adn. 36, 37: Gwaharddai gyhoeddi y wyrth. Yr oedd hyn yn unol â nodwedd ei weinidogaeth. Yr oedd rhesymau neillduol hefyd, y mae yn debyg, dros hyn yn yr amgylchiadau. Ni buasai cyhoeddusrwydd mawr, yn y lle ac ar y pryd hwn, yn unol â chynllun ei waith. Ond po fwyaf y gwaharddiad, mwyaf oedd eu hawydd i'w gyhoeddi. Yr oedd y cymhelliadau i hyn, fe allai, yn gymysgedig; ond yn benaf, yn ol adn. 37, syndod a diolchgarwch yn cynnyrchu mawl. *Da y gwnaeth efe bob peth.* Dywedodd Duw hyn am ei waith yn y greadigaeth gyntaf. Dywedir yma yr un peth am weithredoedd Duw yn y cnawd, yr hwn a ddaethai i ffurfio creadigaeth newydd.

Gellir nodi am y wyrth hon yn gyffredinol:—y mae mewn cysylltiad agos o ran amser â'r amgylchiadau blaenorol. Marc yn unig sydd yn adrodd yr hanes hwn. Ymhyfryda efe mewn cofnodi manylion gwellhâd, ac hefyd dull *graddol* y gwellhâd, a gwellhâd lle y gwneir defnydd helaeth o foddion allanol. Dengys yr hanes hwn y gwahaniaeth rhwng un dan afiechyd neu ddiffyg naturiol, ac un yn meddiant ysbryd aflan, megys Mat. ix. 32; Marc ix. 25. Yr oedd holl fôd yr Iesu yn llawn o allu achubol.

DOSBARTH HYNAF.

Sabboth, Mawrth 10fed—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Medi 16eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

(Rhoddwyd y Nodiadau ar y *rhan olaf* o'r Wers hon (Ioan viii. 7—11), ynglŷn â'r rhan gyntaf, yn rhifyn Chwefror, tu dal. 60.)

Sabboth, Mawrth 17eg—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Medi 23ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

Adn. 12: *Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi.* Rhaid cysylltu yr adnod hon â vii. 52, gan fod hanes y wraig (vii. 53—viii. 11) wedi ei osod i mewn yn nghanol yr adroddiad blaenorol. Pa fodd i'w cysylltu? Gan fod y Sanhedrim wedi methu yn eu hymgais i ddal yr Iesu, ac wedi myned i ymddadleu â'u gilydd (vii. 45—52), yr oedd efe yn awr yn gallu ail ddechreu cyfarch y bobl oedd wedi ymgynnull yn y deml, adn. 20. A lefarwyd y geiriau hyn (12—20) mewn cysylltiad â'r pethau a ddywedasai efe am dano ei hun fel y dwfr bywiol (vii. 37, 38) ar "y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r ŵyl," ynte ar ol hyny? Ar un o'r dyddiau canlynol, medd Meyer, ar sail adn. 20, yr hon, medd efe, sydd yn gwahanu yr ymddyddan hwn oddiwrth yr un blaenorol. Nid ydym yn gweled y rhaid i hyny fod. Credwn gydag Olshausen fod y dywediad am dano ei hun fel y "goleuni" yn gystal ag fel y "dwfr" wedi ei lefaru ar "ddydd mawr yr ŵyl," am y rheswm da a ddyry yr esboniwr hwn—fod amgylchiad neillduol yn nefodau yr ŵyl yn rhoddi achlysur naturiol iddo Ef i gymharu ei hunan â *goleuni*, fel y gwnaethai o'r blaen â *dwfr*. Safai dau ganwyllbren euraidd o faintioli mawr *(candelabra)* yn nghyntedd y gwragedd, wedi eu haddurno â lluaws o lampau; tua'r hwyr goleuid y rhai hyn. Dywedir y taflent eu llewyrch dros holl Jerusalem, a dawnsiai y bobl o'u hamgylch gyda gorfoledd mawr. Yr oedd hyn yn arwyddluniol (Zech. xiv. 7, 16). Dangosai Jerusalem fel y ddinas oedd i oleuo y byd, ac arwyddai y goleuni lawenydd a digrifwch. Beth oedd yn fwy naturiol nag i'n Hiachawdwr, pan yr oedd y lampau ar gael eu goleuo *(ar ol* hyny buasai gorfoledd y dyrfa yn rhwystro) i gyhoeddi "Myfi yw gwir Oleuni y byd—pob peth a arwyddoceir yn nefodau cysegredig y Deml a gyflawnir yn wirioneddol ynof *Fi!*"

Ar yr un pryd, rhaid addef nad yw y cyfeiriad hwn at y ddefod yn peri o anghenrheidrwydd fod y geiriau wedi eu llefaru ar "ddydd mawr yr ŵyl." Barna rhai nad oedd y lampau hyn yn cael eu goleuo ond ar ddydd cyntaf yr ŵyl, eraill mai ar yr ail ddydd: ond sicr yw, pa un bynag, fod meddyliau y bobl yn llawn o'r delweddau hyn am amser wedi iddynt fyned heibio; a buasai cyfeiriad atynt yn syrthio i mewn yn naturiol âg agwedd eu hysbryd.

Ond nid yw y cwestiwn—ar ba ddi-

wrnod y llefarwyd hwynt—o ddim pwys. Y mae y pwys yn y geiriau eu hunain. *Goleuni y byd.* Barna rhai fod yr Iesu wedi dechreu dysgu yn y deml y dydd hwn, yn fore iawn, gyda chyfodiad haul, adn. 2; fod y wraig a ddaliesid yn ystod y nos wedi ei dwyn ato yn foreuol; ac erbyn hyn fod yr haul wedi cyfodi yn ei nerth, a bod ei belydrau yn goleuo i fyny yn ddysglaer ardderchawgrwydd aur a marmor y deml; a bod ei eiriau yn cyfeirio at yr haul yn gystal a'r lampau: 'Gwelwch yn awr oleuni gogoneddus y dydd, yn rhagori ar ddysgleirdeb lampau yr ŵyl sydd yn awr wedi diffodd, ac ar bob goleuni arall. Ond yr hyn yw haul Duw i'r ddaear, hyny a mwy ydwyf *Fi* i'r holl fyd pechadurus, megys y dywed yr Ysgrythyr am yr Hwn oedd i ddyfod!' Eglura Meyer ystyr yr ymadrodd "Goleuni y byd" fel hyn:—yr un oedd yn meddu ac yn dwyn y gwirionedd Dwyfol am iachawdwriaeth, oddiwrth yr hwn y mae y gwirionedd achubol hwn yn myned allan i holl ddynolryw, y rhai heb Grist ydynt yn dywyll a marw. Gwna rhai y goleuni a'r iachawdwriaeth yr un peth, eraill yr iachawdwriaeth yn deilliaw o'r goleuni. Y mae goleuni mewn natur yn *dangos* ac yn *bywhâu.* Y mae yma ystyr, dybygem, yn cyfateb i'r ddau: goleuni *ar* iachawdwriaeth, a goleuni *yr* iachawdwriaeth; goleuni *ar* fywyd a goleuni *y* bywyd. Yn ystyr eglur y gair "goleuni," y mae Crist yn ddoethineb personol Duw: "ynddo Ef y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig;" Efe yw y Gair, y mynegiad o'r meddyliau tragywyddol; y Dadguddiad perffeithiaf o Dduw; Prophwyd mawr yr Eglwys. Iddo Ef y mae y byd yn ddyledus am bob gwybodaeth o bethau tragywyddol. Yn ystyr ddyfnach y gair, y mae yr iachawdwriaeth ynddo Ef ei hunan. Efe yw y "bywyd," ac y mae yn "oleuni," fel y mae yn fywyd. *Yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.* Cyfeiriad, medd Stier a Godet, at y golofn dân yn arwain Israel yn yr anialwch. Dywed Meyer nad yw hyn ond mympwyol, fel y syniad fod vii. 37 yn cyfeirio at y graig yn yr anialwch. "Tywyllwch" yw elfen marwolaeth, a "goleuni" yw elfen bywyd—y gwir fywyd tragywyddol Messianaidd, nid yn y byd a ddaw yn unig, ond yn awr. Yr hwn a ddylyno yr Iesu fel y Messiah a'r Iachawdwr, trwy ffydd, "ni rodia mewn tywyllwch;" "nid yw yn rhodio," yn ol un darlleniad. Tybia rhai fod cyfeiriad pendant yma at y wraig a ddaliesid mewn godineb. *Efe a gaiff oleuni y bywyd.* Y mae yn ei gyfranu ei hunan iddo o anghenrheidrwydd, yn unionsyrchol o'r ffynnonell bersonol. Crist yn byw ynddo, yn ol Ioan a Paul. Dau o eiriau mawrion Ioan ydoedd "goleuni" a "bywyd:" y mae perthynas ddofn rhyngddynt. Y mae gan hwn "oleuni y bywyd" sydd yn dyfod o Grist, fel meddiant gwirioneddol a thufewnol. Nid goleuni oddiallan ar ei gamrau: y mae y goleuni *ynddo* am fod y bywyd ynddo.

Adn. 13: *Am hyny y Phariseaid a ddywedasant wrtho, Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun; nid yw dy dystiolaeth di wir.* Am nas gallent wrthddyweyd sylwedd ei dystiolaeth, deuent â gwrthddadl *ffurfiol* yn ei herbyn. Cymerent ei eiriau Ef ei hun, gan eu troi yn ddadl yn ei erbyn: "Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hunan, nid yw fy nhystiolaeth i wir," Ioan v. 31. Dyna reol y gyfraith. Ond nis gellir ei chymhwyso at yr achos hwn. Y mae yr achos hwn yn un hollol ar ei ben ei hun, yn perthyn i gylch uwch. Golyga "am danaf fy hunan" 'fel *dyn* unigol.' Ond nid felly y mae: "*Arall* sydd yn tystiolaethu am danaf fi." Yr oedd y *Tad* yn tystiolaethu *ynddo Ef.* Ac yn awr, yr oedd yntau yn tystiolaethu *yn y Tad*—yr ochr arall i'r undeb: adn. 16—"myfi a'r Tad."

Adn. 14: *Er fy mod I yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth I yn wir.* Ymostynga at arferion dynol trwy ddyweyd *er.* Ond gallasai ddyweyd *am. Oblegid mi a wn o ba le y daethum, ac i ba le yr ydwyf yn myned.* Yr oedd ei dystiolaeth ef am dano ei hun yn tarddu o *hunan-adnabyddiaeth* berffaith. I ddangos mor ychydig a wyddom am y gwynt, dywedir nas gwyddom "o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned." Yn gyferbyniol, dengys efe berffeithrwydd ei wybodaeth trwy ddyweyd—"mi a wn o ba le y daethum, ac i ba le yr ydwyf yn myned." Dyma ddau gwestiwn mawr gwybodaeth—*O ba le?* ac *I ba le?* Mewn ymddyddan cyffredin—'gwybod y cwbl *ôl a blaen*—o'r dechreu i'r diwedd.' Cynnwysa hyn y cyfan rhwng y ddau.

Yr oedd ei dystiolaeth Ef am dano ei hun yn tarddu o'i *fawredd.* Rhaid i *Dduw* dystiolaethu am dano ei hun, onidê fe fydd byth heb gael ei adnabod. Fel y dywedodd Awstin yn brydferth: "Nis gellir dangos Goleuni â dim ond efe ei hunan; efe ei hun yw ei dyst." *Chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.* Nid oeddynt yn ei adnabod o gwbl. Sylwa Lange mai mater o ymwybyddiaeth personol oedd hwn i'r Iesu; felly Efe oedd raid fod y tyst. Nis gallent

hwy wybod, wrth gwrs, o honynt eu hunain; ac ni fynent wybod yn yr unig ffordd y gallasent—trwy gredu ei dystiolaeth ef.

SABBOTH, MAWRTH 24AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MEDI 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 28).

ADN. 15: *Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd.* Y mae *tystiolaethu* bob amser yn arwain i *farnu.* Dygir tystiolaeth er mwyn cael *barn* gywir. Yr oeddynt hwy yn barnu yn annghywir, trwy wrthod ei dystiolaeth Ef. Barnent "yn ol y cnawd"—y "cnawd" yn y gwrthddrych ac ynddynt hwy eu hunain, a'r blaenaf o herwydd yr olaf. Barnent ef wrth yr olwg allanol yn unig, am eu bod hwy eu hunain yn rhagfarnllyd, hunanol a chnawdol. *Nid ydwyf fi yn barnu neb.* Nid hawdd deall pa fodd y mae y dywediad hwn yn dyfod i mewn. Y mae y cysylltiad yn gofyn ystyr gondemniol i'r barnu. Yr oedd "barnu" yr Iuddewon yn cario y ddwy ystyr: am eu bod yn cam-farnu am yr Iesu, yr oeddynt yn ei gondemnio. Yr ystyr olaf yn unig sydd i'r "barnu" hwn: 'Nid ydwyf fi yn condemnio neb.' 'Nid i farnu y byd y daethum, ond i'w achub.' Dyma y cysylltiad, medd rhai: 'yr wyf fi yn dysgu yn dawel, heb gondemnio neb; tra yr ydych chwi yn fy ngham-esbonio ac yn fy nghondemnio I.'

ADN. 16: *Ac eto, os wyf fi yn barnu, y mae fy marn I yn gywir.* Nid yw y dywediad blaenorol yn cau allan achosion anghenrheidiol o farnu. Yr oedd y cyfryw wedi dygwydd eisoes, o herwydd ei wrthdarawiad i'r byd fel y mae yn bechadurus; er mai achub y byd oedd ei genadaeth. 'Y mae fy nhystiolaeth I yn dyfod yn *farn* trwy annghrediniaeth,' medd Luthardt. 'Os ydych chwi fel hyn yn fy ngorfodi i farnu, bydd fy nedfryd yn ol gwirionedd.' Yn ol un darlleniad *—gwir* yn gyferbyniol i *gau;* yn ol un arall, yn gyferbyniol i bob *cysgod* anmherffaith. *Oblegid nid wyf fi yn unig, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd I.* 'Nid fel person dynol; y mae fy undeb â'r Tad yn cau allan bob posibl-rwydd i'r farn beidio bod yn *wir.*'

ADN. 17, 18: *Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn, &c.* Nid oedd Efe yn rhwym wrth reolau dynion pechadurus. Ond ymostynga i ddangos fod ei dystiolaeth Ef yn fwy na'r hyn a ofynai y gyfraith Iuddewig. Gofynai y gyfraith dystiolaeth dau *ddyn.* Ond wele yma dystiolaeth y ddau Berson dwyfol—y Tad a'r Mab. Er fod y ddwy dystiolaeth mewn undod bywiol, anwahanol, yn ymwybyddiaeth y Duw-ddyn, gwahaniaethir hwynt yma i gyfarfod â'r syniad cyfreithiol Iuddewig. Ymresyma "yn ol dull dyn," ac nid fe allai heb fesur o watwareg sanctaidd.

ADN. 19: *Pa le y mae dy Dad di?*" 'Os oes ail dyst, paham na fyddai efe yma gyda thi?' Ond rhagrithio yr oeddynt. Gwyddent ei fod wedi dyweyd fwy nag unwaith mai *Duw* oedd ei Dad. Sylwa Meyer eu bod yn dangos eu rhagrith trwy ofyn *pa le,* ac nid *pwy.* Dengys ateb yr Iesu iddynt wreiddyn eu cwestiwn drygionus. Yr oedd Efe yn ddadguddiad o'r Tad; ond ni fynent hwy y goleuni am eu bod yn caru y tywyllwch.

ADN. 20: *Yn y trysordy,* lle yr oedd y cistiau yn y rhai y rhoddid y cyfraniadau at y Deml. Yr oedd tair ar ddeg o honynt; safent yn nghyntedd y gwragedd, yn agos i'r canwyllbreni mawr y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. *Ni ddaliodd neb ef.* Math o ddiweddglo buddugol i'r adroddiad o'r ymddyddan hwn.

SABBOTH, MAWRTH 31AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* MEDI 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 28).

ADN. 21: *Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn.* Golygfa newydd yn cael ei hagor. Cymerodd hyn le, yn ol Meyer ac eraill, un o'r dyddiau canlynol. Ond, meddai Stier, yn sicr ar yr un dydd, ar ol yspaid byr. Llefarai wrth yr Iuddewon oedd yn y Deml, adn. 20, 22. Dyma yr olaf o'r gyfres o ymddyddanion â'r Iuddewon. Tystia ein Harglwydd yn hon yn eglurach fyth ei darddiad dwyfol, ei burdeb dibechod, a'r achos o'u hanghrediniaeth hwythau; nes y gweithir eu gelyniaeth i'r man uwchaf, fel o'r diwedd y maent yn codi ceryg i'w taflu ato, adn. 59. *Yr wyf fi yn myned ymaith.* Ei fynediad o'r byd "at yr hwn a'i hanfonodd," vii. 33. *A chwi a'm ceisiwch I.* Nid ei geisio i'w *ddal,* ac nid "ceisio" *ffydd* yw hwn, ond ei geisio i'w gwaredu oddiwrth eu cyfyngderau allanol, yn y dinystr mawr oedd i ddyfod arnynt fel cenedl am eu gwrthodiad o hono ef. *Ac a fyddwch feirw yn eich pechod.* Nid y farwolaeth dragywyddol a feddylir yn uniongyrchol, er mai dyna fyddai canlyniad y marw arall yn y cyfryw gyflwr. 'Daw arnoch fel cenedl y dialeddau dwyfol (yn ninystr Jerusalem), a chwi a fyddwch feirw ynddynt.' "*Yn* eich pechod"—nid yr achos paham, ond y cyflwr yn mha un. Eglura un y gwahaniaeth hwn trwy farwolaeth y ddau leidr: yr oedd y ddau yn marw *o herwydd* eu pechod, ond un oedd yn marw *yn* ei bechod. *Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.* Nis gallent esgyn i'r nef, i ddwyn yr Iesu i

lawr i'w gwaredu. Y mae y golygiad hwn yn gyson â xiii. 33. Yr un meddwl ag yn vii. 34; nid cyfeiriad at uffern ar ol marw, llefara yn unig am eu hystâd hyd at eu marwolaeth.

ADN. 22: Nid oedd wedi dianc eu sylw mai *gwirfoddol* oedd y mynediad o'r byd y soniasai am dano: am hyny, gofynant mewn gwawd maleisus, "*A ladd efe ei hun? &c.*" 'Ai dyma y ffordd y mae am ein gadael? Os felly, nis gallwn yn sicr ddyfod ato!' Yr oedd hunan-laddiad yn dra erchyll yn nghyfrif yr Iuddewon, a golygent mai i *Gehennah* yr arweiniai. Gwawd tebyg i vii. 35, ond llawer mwy maleisus.

ADN. 23: *Chwychwi sydd oddi isod; minnau sydd oddi uchod.* Nid yw yn gwneyd sylw o'u gwawd gwenwynig; ond deil o'u blaen, gyda thawelwch cadarn ac urddasol, eu natur isel hwy eu hunain, yr hyn a barai iddynt ei wawdio Ef. Dyna yr achos eu bod heb ei ddeall Ef, yr Un nefol. Y mae yr hanner olaf o'r adnod yn cynnwys yr un gwirionedd —y mynegiad nacaol o'i darddiad goruwchnaturiol. Yr oeddynt "o'r ddaear," ac felly "yn ddaearol," heb y ddoethineb uwchaf a'r bywyd Dwyfol.

ADN. 24: *Am hyny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau.* Dyma y rheswm am y geiriau bygythiol (adn. 21) a ail-adroddir yma. Am eu bod o'r ddaear, yn amddifad o ffydd, trwy yr hon yn unig yr oedd cael gafael ar y bywyd dwyfol, tragywyddol, byddent feirw yn eu pechodau. *Oni chredwch chwi mai myfi yw efe.* Sef y Messïah, y gair oedd yn barhaus o flaen meddyliau yr Iesu a'r Iuddewon, yn enwedig yn eu hymddyddanion. Yn llythyrenol—"mai myfi yw." Y mae peidio enwi y gair, ei gymeryd yn ganiatäol, yn rhoddi urddas ychwanegol arno. Yr oedd yr Arglwydd yn symio ffydd yr Hen Destament i'r gyffes "mai myfi yw efe"—"mai myfi sydd Dduw," &c.; felly y gwna yr Iesu grynhoi ffydd y Testament Newydd i'r gred "mai myfi yw" (y Messïah). *Chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.* Yn adn. 21 yr oedd y pwyslais ar "yn eich pechodau;" ond yma ar *feirw.* Nis gellir ei ochel ond trwy ffydd.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'R DECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Ceniadwr.*

I.

Y MAE yn debyg fod holl ddarllenwyr y DRYSORFA yn gwybod mai Prifddinas yr Iwerddon ydyw Dublin; ond gall fod lliaws heb yr un syniad am ei maint a'i hansawdd, yn neilluol mewn ystyr grefyddol. Y mae Dublin yn sefyll o bob tu i'r Afon Liffey, 132 o filldiroedd i'r gorllewin o Liverpool, a 60 o filldiroedd i'r gorllewin o Gaergybi. Y mae ei therfynau bwrdeisiol yn cynnwys 3808 o erwau o dir. Cynnwysai yn y flwyddyn 1882, 25,508 o dai; a 130 o filldiroedd o heolydd. Ac y mae yn cael ei hamgylchu o'r bron gan y *Circular Road*, yn naw milldir o hyd. Y mae yr Afon Liffey yn rhedeg trwyddi fel y crybwyllwyd, ac o bob tu iddi y mae llongbyrth wedi eu hadeiladu o wenithfaen am ddwy filldir a hanner o ffordd; ac y mae yn cael ei chroesi gan un ar ddeg o bontydd, saith o honynt o geryg a phedair o haiarn.

Yma y preswylia Arglwydd Raglaw y wlad, a hi ydyw canolbwynt yr awdurdodau gwleidyddol, eglwysyddol, addysgol, cyllidol, masnachol, a milwrol.

Yn y cŵr eithaf i'r ddinas y saif y *Phœnix Park;* ac y mae y gyflafan a gymerodd le yno yn y flwyddyn 1882 yn peri fod ei enw yn adnabyddus bron trwy yr holl fyd, ac yn gyrchfan miloedd lawer o ymwelwyr bob blwyddyn â'r *noted spot*, fel y gelwir ef. Y mae y parc hwn yn cynnwys 1753 o erwau, ac yma y mae y *Vice Regal Lodge*, sef preswylfod yr Arglwydd Raglaw; ac yma hefyd y mae *Lodges* y Prif a'r Is-Ysgrifenydd.

Y mae yn y ddinas 20 o Eglwysi *Plwyfol* Protestanaidd ac 20 yn ychwanegol o rai heb fod yn rhai Plwyfol, ac y mae llawer o honynt yn fawrion ac yn dra chostus. Y mae yma 9 o Gapelau *Plwyfol* gan y Pabyddion, ac 8 eraill gan gangenau gwahanol o Babyddion, y rhai oll ydynt yn fawrion, rhai yn hynod felly, ac yn orwych dros ben. Hefyd y mae ganddynt 3 mynachlog, ac 8 o *Convents.* Y mae gan y Presbyteriaid 6 o gapelydd yma; yr Unitariaid, 2; yr Annibynwyr, 3; y Wesleyaid Cyntefig, 2; y Wesleyaid, 8; y Crynwyr, 2; y Bedyddwyr, 2; y Moraviaid, 1; y *Catholic Apostolic*, 1; un synagog gan yr Iuddewon; ac hefyd un capel gan y Trefnyddion Calfinaidd Cymreig, a hwnw yr unig gapel Cymraeg yn yr holl Iwerddon.

Yn y flwyddyn 1871 (y cyfrif diweddaf sydd genym wrth law), yr oedd poblog-

aeth y ddinas yn 246,326; yn cynnwys 195,180 o Babyddion; 39,897 o Eglwyswyr; 4828 o Bresbyteriaid; 1828 o Wesleyaid; a 4904 rhwng yr holl enwadau eraill; yn gwneyd nifer yr holl Brotestaniaid yn 51,146; fel y mae erbyn heddyw yn agos i dri o bob pedwar o drigolion y ddinas hon yn Babyddion. Yn y flwyddyn 1644, cawn mai rhifedi y trigolion oedd 8159; yn cael eu gwneyd i fyny o 5551 o Brotestaniaid, a 2608 o Babyddion. Wrth ystyried y ffigyrau yna gwelwn gynnydd dirfawr y Babaeth, o'i gyferbynu â chynnydd y boblogaeth yn y ddinas hon.

Yn niwedd y ganrif ddiweddaf cawn fod trafnidiaeth y porthladd yn cynnyddu yn ddirfawr, fel yr oedd y llongbyrth yn llawer rhy gyfyng ar gyfer y llongau oeddynt yn tramwy yn ol a blaen yma. Yn y flwyddyn 1791 y mae y Llywodraeth yn gwneyd *grant* o £45,000 tuag at adeiladu llongbyrth ar y ddwy ochr i'r Afon Liffey; ac ar Awst 24, 1821, y mae y *Custom House Dock* yn cael ei agor, a hyny gyda rhwysg neillduol, gan ei *Uchelder Breiniol George y Pedwerydd;* a galwyd ef ar ei enw ef yn *George's Dock.* Oddeutu yr adeg yma, gallwn feddwl, y mae trafnidiaeth Gymreig mewn unrhyw rym yn dechreu, a'r morwyr Cymreig yn dyfod i fynychu y lle; a gallwn feddwl fod eu temtasiynau a'u profedigaethau yma yn fawrion, ac aml un o honynt yn hawdd eu denu i'r tafarndai, &c., canys nid oedd na Chymdeithas Cymedroldeb na Chymdeithas Ddirwestol wedi ei sefydlu yn y wlad; ac nid oedd yr un addoliad Cymreig iddynt yn y lle, a'r nifer lïosocaf o lawer o honynt yn analluog i fwynhau gweinidogaeth yr efengyl yn yr iaith Saesoneg. Ond y mae yn amlwg iawn hefyd, er i ni ddywedyd hynyna, fod amryw o ddynion duwiolfrydig iawn ymysg y morwyr y pryd hwn hefyd.

Pa bryd a chan bwy y dechreuwyd gwasanaeth crefyddol yn Gymraeg yn Dublin, y mae yn anhawdd iawn erbyn heddyw gallu dyweyd. Yr ydym wedi chwilio pob ffynnonell yn ein cyrhaedd, ac wedi gohebu cryn lawer, er ceisio cael allan hanes yr achos o'r dechreuad hyd yn awr; a byddai yn dda iawn genym eto gael clywed oddiwrth frodyr fu yn hysbys o'r achos hwn mewn blynyddoedd a aethant heibio, er cael yr hanes mor gryno a chywir ag y gellir.

Yn ddiweddar, mewn ymddyddan ar y mater hwn gyda John Roberts, Ysw., Limerick, yr hwn a fu yn aelod am flynyddoedd o'r Eglwys Gymreig yn Dublin, a'r hwn sydd eto yn teimlo cryn lawer o ddyddordeb ynddi,—dywedai efe fod iddo adgofion plentynaidd am ei dad a'i daid yn ymddyddan ar yr aelwyd am ddechreuad yr achos Cymreig yn Dublin, ac am y rhan a gymerodd ei hen daid yn y symudiad, sef Capt. Israel Matthews, meistr a pherchenog y llong *Conway Castle;* ac y byddent yn son am ddosbarthiadau Biblaidd, a chyfarfodydd gweddïo, a gynnelid yn Dublin yn lled foreu. Ond taflwyd ammheuaeth i'w feddwl gan un, y gallai ei fod yn cam-gymeryd Dublin am Liverpool; a pharodd hyn iddo wneyd ymchwiliad mwy manwl, a chafodd afael ar *Bill of Lading*, yr hwn sydd yn awr ger ein bron, ac sydd yn profi fod y gŵr uchod yn hwylio o Liverpool i Dublin yn y flwyddyn 1825. Ac y mae yn ddiammeu mai nid dyma y tro cyntaf iddo; ac y mae hyn yn cadarnhau yr argraff ar ei feddwl ef mai am Dublin yr oeddynt yn son. Y mae enw Capt. Israel Matthews yn hysbys fel un oedd gydag ychydig eraill yn ymgynnull at eu gilydd yn Liverpool mewn ystafell i gyd-addoli eu Duw yn eu hiaith eu hunain, a hyny cyn adeiladu hen gapel *Pall Mall.* Diau nad oedd yn ddiymdrech yn yr un cyfeiriad pan yn treulio ei Sabbothau yn Dublin.

Ynghylch y pryd hwn hefyd, cawn fod Capt. John Williams, Caer, yn hwylio yma. Yr ydoedd ef yn bregethwr, a byddai yn casglu y morwyr ynghyd i'w long, ac yn cynnal gwasanaeth crefyddol gyda hwynt; ac yr ydym yn cael y byddai yn myned nid yn unig o'r naill long i'r llall, ond hefyd o'r naill dafarndŷ i'r llall i gymhell y morwyr i ddyfod i wrando yr Efengyl. Hefyd, heb fod ymhell o'r un adeg, cawn enwau Capt. William Evans, Milford, a Capt. Evan Lloyd, Caergybi; ac yr oedd y ddau yma eto yn bregethwyr; a diau fod amryw eraill nad ydym wedi cael gafael ar eu henwau, er y buasai yn dda iawn genym eu cael er cael yr hanes yn fwy cyflawn, a fu yn weithgar a diwyd gyda'u brodyr y morwyr yn y blynyddoedd hyn.

Nid ydym yn cael lle i gredu fod y Cymry yn ymgynnull i unrhyw ystafell neillduol yr adeg yma; ond yr ydym yn cael ein tueddu yn gryf i synio fel arall, sef mai yn y llongau y byddid yn cynnal cyfarfodydd crefyddol pan y byddai y gŵr da yma a'u cyffelyb yn dygwydd bod yn y porthladd.

Byddai yn y blynyddoedd hyn gryn lawer o forwyr Cymreig yn bresennol, fel wedi trefnu i gyfarfod gael ei gynnal mewn llong neillduol y byddai hono yn rhy fechan, a'r holl gynnulleidfa gyda'u gilydd yn symud i un fwy, ac ar rai adegau yn cynnal ychwaneg nag un moddion ar yr un adeg: cyfarfod gweddi

mewn un llong, a phregeth yn y llong arall. Ac o herwydd y nifer luosog fyddai yn y lle, a'r anghyfleusdra i gynnal y moddion, aed i ddechreu son am gael pregethu sefydlog yn Dublin. Gan y byddai aml i Sabboth yn myned heibio heb i'r un o'r gwŷr da a nodwyd fod yn bresennol, a neb arall yn ddigon blaenllaw i gasglu y gynnulleidfa ynghyd ac i arwain y moddion, byddai y Cymry yn myned ar wasgar, ac ni byddai un moddion crefyddol yn cael ei gynnal ganddynt. Felly bu son a siarad am rai blynyddoedd am sefydlu achos Cymreig yn Dublin. Ond fel y sylwa un ysgrifenydd yn y Drysorfa am 1831, "Yr oedd tri o rwystrau yn cyfodi fel mynyddoedd uchel ar y ffordd, sef Pa le i gael capel? Pa le i gael pregethwr? ac O ba le y ceid arian?"

Barddoniaeth.

"ABRAHAM FFYDDLON."

Abraham, y dyn ffyddlonaf,
"Cyfaill Duw y galwyd ef;"
Hynod oedd pan ar y ddaear,
Hynod eto yn y nef.
Yn ei fynwes mewn gogoniant
Canu moliant y mae 'r saint;
Llwybrau 'i ffydd os rhodiwn ninnau
Etifeddwn yr un fraint.

Ffydd ddiegwan ydoedd ganddo,
Ffydd i gredu addewid Duw,
Ffydd yn trechu annghrediniaeth
Ac ammheuaeth o bob rhyw.
Ffydd oedd coron hardd ei fywyd,
Aden ffydd a'i cododd fry
I fwynhau 'r ysbrydol Ganaan,
Lle trodd ffydd yn olwg gu.

D. W.

Machynlleth.

BECHADUR, AI TEWI'R WYT TI?

Mynyddoedd tàlgribog hen Gymru fy ngwlad,
Sydd gadarn a phrydferth, 'd oes tafod a wâd;
Y creigiau ysgythrog ni syflant un cam,
Hyd nes yr ä 'r crëad a'i bethau yn fflam;
Er cymaint y gwylltedd parablant o hyd,
Ac wrth yr oes nesaf ni byddant yn fud;
Siaradant gyfrolau, a byddant mewn bri,
Bechadur llwfr, tawel, *Ai tewi 'r wyt ti?*

Mae ffrydlif y mynydd a'i hoslef yn fwyn,
A murmur afonig wrth odreu y llwyn;
Y trystfawr bistylloedd, a'r ffynnon fach, fyw
Yn d'wedyd yn barchus bob amser am Dduw:
Y gwlanog gawodydd wrth ddisgyn i'n plith,
Mân geryg y nefoedd, y llwyd-rew, a'r gwlith,
Y blodau amryliw, a'r llysiau di-ri',
Cydunant i ofyn, *Ai tewi 'r wyt ti?*

Teuluoedd coedwigoedd sydd barod bob pryd
I roddi cydganau i Grëwr y byd;
Y cymyl arddunol olwynant trwy 'r nen,
Yr huan godidog, a'r lleuad glaer—wèn,
Planedau sefydlog sydd uchod yn byw
Sy 'n dadgan yn groyw ogoniant ein Duw;
A hwythau 'r sêr dysglaer ganmolant ein Rhi;
Ai tybed, bechadur, mai *dystaw wyt ti?*

Mae yntau 'r pentewyn achubwyd o'r tân
Bob amser â'i galon mewn hwyl i roi cân;
Mewn ysbryd addolgar nesâu y mae ef
I brofi melusder cyfrinion y nef:
Prif bleser ei fywyd wrth fyn'd i well gwlad
Yw canmol yr allor, yr aberth, a'i Dad;
Tra 'n canmol y goncwest gaed ar Galfari,
Mewn syndod gofyna, *Ai tewi 'r wyt ti?*

Y memrwn rhagorol na welwyd ei ail
Sydd â thystiolaethau yn britho ei ddail,
Y rhai a gyhoeddant â pharabl clir
Mai Duw yw perchenog y moroedd a'r tir;
O'i holl greaduriaid mewn harddwch, a llun,
D'wed cwmwl o dystion mai 'r penaf yw Dyn.
Os cafodd ei godi i feddu 'r fath fri,
Bechadur andwyol, *Ai tewi 'r wyt ti?*

Mae cerbyd efengyl yn teithio o hyd,
Gan gludo ei nwyddau i bedwar bàn byd;
D'wed newydd am *bechod, euogrwydd,* a'r *loes,*
Y *preseb,* y *geni, Gwaredwr,* y *groes;*
Mae llu o baganiaid oedd bell oddiwrth Dduw
Yn gallu moliannu am foddion i fyw;
Gall pagan melynddu, a'i lygaid yn llì,
Appelio 'r gofyniad, *Ai tewi 'r wyt ti?*

Yr adeg pan alwyd y crëad i fod,
A phan y sefydlwyd trefniadau y rhôd;
Mor fuan ei gwnaethpwyd yn sicr ei sail
Angelion ganasant anthemau di-ail;
Pan anwyd ein Ceidwad, ein Priod, a'n Pen,
Gwnaeth engyl gerddorfan yn entrych y nen;
Hoffasant hwy leisio o fewn ein byd ni,
Ai am fod yn ddystaw am byth yr wyt ti?

Einion Ddu.

Tregeiriog.

Adolygiad y Wasg.

Y Pulpud Bedyddiedig *yn Nghymru, sef Deugain o Bregethau, gan wahanol Weinidogion y Bedyddwyr. Dan olygiaeth y Parchedigion* J. A. Morris *a* T. E. Williams, *Aberystwyth.* Aberystwyth: J. Gibson.

Yr oedd argraff ar ein meddwl er yn blant fod *pregethu da* ymhlith y Bedyddwyr. Gwneid i ni dybied hyny trwy wrando arnynt mewn ambell Gymanfa. Ac ni chawsom achos i newid ein meddwl ar ol gwrando eu gweinidogion yn pregethu, ar achlysuron neilluol, o hyny hyd yn awr. Cadarnhâ y gyfrol hon y farn a ffurfiwyd genym er ys llawer blwyddyn. Gwelir wrth y Rhagymadrodd mai hon yw y gyfrol gyntaf a gyhoeddwyd o bregethau gwahanol weinidogion y Bedyddwyr yn Nghymru. Dygwyd hi allan dan olygiaeth dau o weinidogion galluog a thalentog, ac o

safle uchel yn y Cyfundeb (neu yr enwad), y rhai y gwelir eu henwau uchod; ac y mae Pregeth ragorol gan bob un o'r golygwyr yn y gyfrol. Cynnwysa ddeugain o Bregethau, fel y gwelir, gan gynifer a hyny o weinidogion. Un peth sydd yn ein taro yn gryf wrth edrych dros daflen y cynnwysiad ydyw—nodwedd *efengylaidd* y pregethau, mor bell ag y mae y materion yn dangos hyny. Ac y mae y pregethau eu hunain, mor bell ag yr ydym wedi gallu darllen, yn cario allan yr un nodwedd. Y mae pethau trymion yr Efengyl yn cael eu lle priodol. Ymdeithir ar hyd prif-ffordd fawr yr Efengyl, ac ni wastreffir amser a nerth i droi o'r naill du i lwybrau anhygyrch, i blethu damcaniaethau bychain, cywrein-ddoeth, nad yw o'r pwys lleiaf i neb pa un a wnant eu credu neu beidio. Y mae yn sicr fod hyn o'r pwys mwyaf i gyfundeb a gwlad, fod gwirioneddau mawr, bywydol, yr Efengyl yn cael eu pregethu—y gwirioneddau a fwriadwyd i fod yn foddion i achub a sancteiddio eneidiau dynion. Ac nis gellir meddwl am fendith fwy i wlad fel Cymru, lle y mae zel bleidiol wedi bod yn ffynu i'r fath eithafion, nag i'r holl enwadau gael eu hargyhoeddi mai y gwirioneddau hyny yw y rhai bywydol, y rhai yr ydym oll *yn cytuno* arnynt, ac nid y mânbynciau yr ydym yn gwahaniaethu o berthynas iddynt. Ac y mae y nodwedd hon yn werthfawr hefyd, nid yn unig yn wyneb yr haint o sectyddiaeth sydd wedi bod yn y fath rwysg yn ein gwlad, ond yn wyneb dirywiad galarus lliaws yn y blynyddoedd hyn oddiwrth "y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint." Y mae y gyfrol hon yn llawn o "ymadrodd iachus nas gellir beïo arno." Yr ydym yn hollol o'r un farn â thystiolaeth Dr. J. Thomas, Liverpool, am y gyfrol hon, yr hon a welsom yn cael ei dyfynu yn rhai o'r papyrau, ei bod "yn cytuno âg iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb." Ar yr un pryd, y mae y gwirionedd yn cael ei gyflwyno gyda mesur o amrywiaeth a newydd-deb, gwybodaeth a dawn, ac ŷni meddyliol. Y mae yn llyfr rhadlawn. Cynnwysa swm mawr iawn o fater—245 o du dalenau, mewn llythyren fân ond clir, wedi ei rwymo yn hardd mewn lliain, am dri swllt a chwe' cheiniog.

Goddefer i ni bellach nodi yn fyr rai o'r pethau nad ydym yn eu hoffi yn y gyfrol hon. Nid ydym yn hoffi y teitl: "Y Pulpud Bedyddiedig yn Nghymru." Gadawn heibio yn awr yr *honiad* sydd yn enw y gyfrol, fel yn enw y cyfundeb. Nid oes obaith y deuwn i gytuno ar y pen hwn, o leiaf y tu yma i'r Mil blynyddoedd (yn ol prophwydoliaeth y diweddar Mr. Evans, *New Inn*). Ond a gadael hyny heibio: nid yw yn enw seinber ac esmwyth, nac yn ddull naturiol o ddyweyd yr hyn a fwriedir ei ddyweyd trwyddo. Buasai yn fwy syml a naturiol i alw y gyfrol yn "Bregethau: gan Weinidogion y Bedyddwyr, &c.," neu rywbeth tebyg. Oni fuasai yn darllen yn rhyfedd yn Saesoneg: "*The Baptized Pulpit in England?*" Gwyn fyd na b'ai ein holl bulpudau yn fwy "bedyddiedig" â'r bedydd mawr, o'r hwn nad yw y bedydd dwfr ond cysgod, y bedydd "â'r Ysbryd Glân ac â thân!"

Pan y mae y Saeson am wahaniaethu rhwng y ffurf gau o beth â'r gwir beth, newidir terfyniad yr enw; megys *piety*, *pietism*, &c. Felly, tybiwn ninnau fod yn ambell un o'r pregethau hyn braidd ormod o—ni ddywedwn *dawn*—ond beth fyddai i ni ddyweyd *donioldeb?* Nid ydym yn hoffi nodi engreifftiau o hyn. Mwy dymunol yw nodi engraifft i'r gwrthwyneb. Fel un o'r cyfryw, yr ydym yn nodi pregeth y Parch. Owen Davies, Caernarfon, fel un sydd, i'n tyb ni, yn hollol rydd oddiwrth arddull yr *ehedeg heb adenydd*, ac yn engraifft dda o symledd, ac o ddull urddasol o ymdrin â'r gwirionedd, gan roddi mwy o bwys ar feddyliau nag ar eiriau. Nid ydym yn meddwl am foment mai dyma yr unig engraifft o'r rhinweddau rhagorol hyn; a phrawf o hyny yw ein rheswm am beidio nodi dim ond un, sef pe dechreuem nodi engreifftiau yr elem yn rhy faith. Ond y mae yma engreifftiau i'r gwrthwyneb.

Peth arall a'n tarawodd yn rhyfedd wrth ddarllen rhai o'r pregethau hyn, oedd y rhyddid a gymerir gan rai wrth ddyfynu adnodau y Bibl. Dyfynant rywbeth yn debyg i'r adnod, ond nid yr adnod ei hunan. Y mae hyny yn oddefol weithiau, pan na phroffesir dyfynu, ond yn unig aralleirio. Ond mewn dyfyniad proffesedig o adnod, a dyfynnodau o bob tu iddi, y mae ei dyfynu yn anghywir yn beth diesgus, ar dir crefyddol a llenyddol. Dyma engraifft yn un o'r pregethau: "Rhaid oedd i Iesu Grist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant." Paham na roddir yr adnod fel y mae ar lawr yn y Bibl: "Onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant"? Eto: "a brofasant o ddaionus air Duw;" "gan gael ei wneyd yn felldith drosom, fel y delai arnom ni fendith Abraham;" "megys y dysgasoch Grist, felly rhodiwch ynddo"—a lliaws cyffelyb. Pan y mae cam-ddyfynu yn tarddu o ddiofalwch neu aflerwch, gwna i ni golli ymddiried yn y pregethwr.

Nis gallwn beidio teimlo: 'Os yw y pregethwr mor ddiofal a hyn wrth ddyfynu geiriau y tragywyddol Dduw, nid yw yn debyg ei fod yn gofalu nemawr am ei eiriau na'i feddyliau ei hun.'

Os byddys yn dyfynu o *Destyn* arall heblaw y *Testyn Derbyniedig*, pob peth yn dda; ond dyweder hyny. Neu, os byddys yn dyfynu o *gyfieithiad* arall, neu yn gwneyd cyfieithiad arall ar ein hawdurdod ein hunain, nid ydym yn dyweyd dim. Ond gadawer i ni wybod ymha le yr ydym. Ac felly y mae cyfrif am lïaws o'r amrywiadau yn y gyfrol hon. Y mae y Parch. Owen Davies yn gwneyd defnydd o'r ymadrodd prydferth sydd yn y Cyfieithiad Diwygiedig, yn lle "y dirgelwch, yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd"—"y dirgelwch, yr hwn sydd wedi ei gadw mewn dystawrwydd trwy amserau tragywyddol." Yr un pryd, y cyfieithiad awdurdodedig o'r adnod a ddyry efe uwch ben y bregeth, tra y dyry y llall gyda "neu," wrth osod i lawr yr ail fater, yr hwn sydd yn seiliedig ar y frawddeg hon. A hyn, yn ein barn ni, sydd yn weddus a phriodol. Ond yn y Bregeth gyntaf, synir ni wrth weled y testyn yn cael ei roddi i lawr uwch ben y Bregeth fel hyn:—"A'r Gair a ymgnawdolodd, ac a ymdeithiodd yn ein plith ni." Dyma yn amlwg gyfieithiad arall, ond nid y Cyf. Diwygiedig. Y mae y rhan gyntaf yn cytuno â hwnw: "*And the Word* BECAME *flesh.*" Ac y mae yn ddiau fod hwn yn well na'r Cymraeg a'r Saesoneg—*ἐγένετο*. Ond oni fuasai "a ddaeth yn gnawd" yn well nag "ymgnawdolodd?" Ond paham y rhoddir "ac a ymdeithiodd?" "Trigo" *(dwelt)* sydd yn y Cyfieithiad Diwygiedig, ac ar ymyl y ddalen; "*Gr. tabernacled.*" Ac onid "a dabernaclodd," yw y cyfieithiad llythyrenol o'r Groeg—*ἐσκήνωσεν*—o *σκῆνος* neu *σκηνή*?

Dim ond un gair eto o feïad. Heblaw adnodau, ni a gawn fod pennillion cysegredig Williams ac eraill, yn myned trwy ryw gyfnewidiadau dyeithrol, nes ydym bron a cholli ein hadnabod arnynt. A'r gresyn yw fod digon o debygrwydd wedi ei adael i ni allu eu hadnabod o gwbl. Pe yr elai y "newidwyr Hymnau" ymlaen i newid, fel ag i beidio gadael *dim* o'r gwreiddiol, emynau newyddion a fyddent. Fel y dywedodd y Gwyddel am gyllell hen ac adfeiliedig oedd ganddo yn ei logell, y buasai y gyllell oreu fu yn y byd erioed, ond iddi gael ei thrwsio dipyn, sef cael carn newydd i'r llafn, a llafn newydd i'r carn. Pe felly, ni phoenent ni ac ni wnaent gam â'r gwreiddiol. Ond ni wnant hyny. Hen bennill melus yw—

> "Mae Crist a'i w'radwyddiadau,
> A'i groesau o bob rhyw,
> Yn ddigon imi farw,
> Yn ddigon imi fyw," &c.

Beth oedd ein syndod pan welsom ef wedi ei drawsffurfio yn un o'r pregethau hyn i'r ffurf hon?—

> "Mae Crist a'i w'radwyddiadau *mawr*,
> A'i groesau o bob rhyw,
> Yn ddigon i mi farw *'n llon*,
> A digon byth i fyw," &c.

Temtiwyd ni i ofyn—'Yn enw pob rheswm, beth yw y *parody* rhyfedd hwn ar hen bennill mor barchus a chysegredig?' Ni chwynem ddim, pe byddai i'r newidwyr Emynau gyfansoddi unrhyw swm o rai newyddion (ond i ni beidio eu gweled na'u clywed). Ond mewn difrif, paham na adawent Emynau cysegredig Williams yn llonydd? ac os nad ydynt yn foddlon arnynt, cyfansoddant rai gwell yn eu lle. Ond rhaid i ni adael y mater hwn, rhag colli ein hamynedd yn lân!

Yr ydym wedi nodi ychydig o frychau. Ond caiff pawb a bryno y gyfrol hon drysor gwerthfawr o wirioneddau ysgrythyrol ac efengylaidd—defnydd myfyrdod, a chyfrwng adeiladaeth a mwynhad ysbrydol. Y mae y gyfrol yn anrhydedd i'r Golygwyr parchedig, ac i'r Enwad parchus y mae y Gyfrol a hwythau yn ei gynnrychioli.

The THEOLOGICAL MONTHLY. No. I., January. London: James Nisbet & Co.

DYMA y Rhifyn cyntaf o Gyhoeddiad misol sydd yn addaw bod yn un rhagorol iawn. Ffurf newydd ydyw ar yr hen Gyhoeddiad chwarterol parchus—*The British and Foreign Theological Review.* Ond nid y ffurf yn unig sydd yn newydd. Y mae bywyd ac ysbryd newydd yn anadlu trwyddo. Heb fod yn llai uniongred na'i ragflaenydd, y mae, a barnu wrth y Rhifyn hwn, mewn cyffyrddiad nes âg anghenion meddyliol a chrefyddol yr oes.

Cawn alw sylw eto at erthyglau y Rhifyn hwn, mewn nodiad helaethach nag y goddef ein gofod i ni wneyd yn bresennol.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn y Bala, Ionawr 8fed a'r 9fed, penderfynwyd argraffu "Holiadau" Dr. Edwards yn llyfr (heb atebion).

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Engedi, Caernarfon, Ionawr 14 a'r 15fed, agorwyd y mater "Cymeriad Crist" yn eglur a meistrolgar gan y Parch. R. D. Rowlands *(Anthropos)*, Caernarfon, a rhoddwyd pleidlais unfrydol o ddiolch iddo am ei anerchiad. Darllenwyd llythyr o Gyfarfod Misol Liverpool yn cyflwyno y Parch. J. Hughes, D.D., i Gyfarfod Misol Arfon, yr hwn erbyn hyn sydd wedi ymsefydlu yn weinidog yr eglwys yn Engedi. Gydag amlygiadau o lawenydd y frawdoliaeth, rhoes y llywydd, yn enw y Cyfarfod Misol, ddeheulaw cymdeithas i'r Dr. parchedig, yr hwn mewn ychydig eiriau a gydnabyddodd y derbyniad. Cadarnhawyd galwad Eglwys Princes' Road, Bangor, ar y Parch. J. Puleston Jones, B.A., i fod yn weinidog iddi, gan ddymuno iddo Dduw yn rhwydd. Hysbyswyd fod Cymdeithas Genadol y Chwïorydd yn Bethesda wedi anfon £25 i'r Trysorydd Cyffredinol y flwyddyn ddiweddaf, a sylwyd gymaint allai y chwïorydd ymhob man, yn enwedig y trefi a'r pentrefi, ei wneyd pe y dechreuent. Rhoed ar ddeall fod yr anghydwelediad o barth i *copyright* y gwerslyfrau wedi ei derfynu: a phasiwyd i anfon cofnodiad o'r diolchgarwch gwresocaf i'r Prifathraw Edwards, D.D., Aberystwyth, Llywydd Undeb Ysgolion Sabbothol Cymru, am y cynnorthwy sylweddol a roddodd i ddwyn y mater i derfyniad. Galwyd yn ol y rhybudd a roddasid i gynnyg fod i Arfon ymneillduo o'r Undeb. Cynnaliwyd y cyfarfod Nos Lun yn gyfarfod croesawol i'r Parch. Dr. Hughes, ar ei ddyfodiad i Engedi, dan lywyddiaeth Mr. J. Davies *(Gwyneddon)*. Cymerwyd rhan ynddo gan y Parchn. Dr. O. Thomas, Liverpool; Mri. Paton a Lewis, Liverpool; Parchn. Dr. Herber Evans, Caernarfon; T. Owen, Porthmadog; W. Rowlands, Cefnywaen; T. Roberts, Jerusalem; E. Roberts, Dyffryn; E. Jones, Caernarfon; T. P. Lewis, Ysw., A.S., &c.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Abergwaen, Ionawr 8 a'r 9fed, hysbyswyd fod J. Phillips, Ysw., Southfield, wedi prynu tir ein capel yn Hwlffordd, a'i fod yn ei gyflwyno yn *freehold* i'r Cyfundeb. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Phillips am y weithred ychwanegol hon o garedigrwydd.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Llandudno, Ionawr 16 a'r 17eg, datganwyd llawenydd y cyfarfod wrth weled yr Hybarch dad, y Parch. Owen Jones, wedi gallu dyfod am amser byr i'n mysg. Nid oedd, o herwydd llesgedd a gwendid yn ei aelodau, wedi gallu myned ond ychydig allan o'r tŷ er's misoedd. Dywedai bod yr Arglwydd wedi bod yn dda iawn wrtho—wedi ei oddef am dymmor mor faith gyda'i achos. Nid peth bychan, meddai, oedd dal un mor honco ag ef am gymaint o amser. Buasai yn annifyr iawn arno yn awr oni buasai am gysuron crefydd—y mwynhad a gaffai mewn hen bennillion ac adnodau o'r Bibl. Yr oedd yn teimlo ei hun yn ymollwng i law y Llywydd mawr. Cafwyd gair nefyd gan y Parch. Thomas Davies. Yr oedd yn llawen gan y frawdoliaeth ei weled wedi cael ei adferu mor dda i'w iechyd. Dywedai fod yn dda ganddo gael gwella, ac ail ddechreu ar ei waith. Agorwyd y mater—yr Efengyl a'r tlodion, gydag anerchiad rhagorol yn Saesoneg, gan y Parch. C. T. Astley, M.A., a chafwyd trafodaeth fuddiol arno. Diolchwyd i Mr. Astley am ei anerchiad, a dymunwyd arno anfon ei gynnwys i'r *Goleuad* a'r *Monthly Tidings*. Galwyd sylw at farwolaeth y Parch. Joseph Thomas, Carno, a'r golled a gafodd y Cyfundeb yn ei ymadawiad.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Nhreffynnon, Ionawr 28 a'r 29ain, rhoddwyd llythyr cyflwyniad i Mr. Edward Edwards, Wrexham, i Gyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, ar ei ymsefydliad yn Cwmtirmynach fel gweinidog. Dadganwyd gofid am ei ymadawiad â'r Sir.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Penmorfa, Chwefror 4 a'r 5ed, hysbyswyd fod personau neilldiol yn barod i roddi symiau anrhydeddus yn ddilŷg ar gapelau o fewn cylch y Cyfarfod Misol. Hysbyswyd fod addewidion ychwanegol wedi eu cael, er y Cyfarfod Misol blaenorol, hyd yn £24 yn flynyddol, at gynnygion haelionus R. Jones, Ysw., ac E. Jones, Ysw., tuag at gael gweinidogion yn eglwysi gweiniaid Lleyn ac Eifionydd.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Cidweli, Ionawr 29 a'r 30ain, gwnaed sylwadau coffadwriaethol parchus am y diweddar Barch. William

Prytherch, a rhoddwyd ychydig o'i hanes boreuol gan y Parch. D. Williams, Caio. Daeth i'r eglwys yn Caio yn 18 oed; a dechreuodd bregethu yn fuan iawn. Daeth i boblogrwydd ar unwaith, a pharhaodd yn ddefnyddiol a phoblogaidd am dymmor maith. Dygid tystiolaeth uchel iddo fel Cristion, ac fel pregethwr.

Yn Nghyfarfod Henaduriaeth Trefaldwyn, a gynnaliwyd yn y Capel Seisonig, Drefnewydd, Chwefror 1af, cafwyd anerchiad, yn cynnwys amryw awgrymiadau ymarferol a gwerthfawr, gan y cynlywydd, y Parch. E. Parry, M.A., wrth roddi i fyny y gadair. Dychwelwyd diolchgarwch cynhes yr Henaduriaeth i Mr. Parry am ei wasanaeth. Rhoddwyd adroddiad calonogol iawn gan Richard Williams, Ysw., F.R.H.S., am weithgarwch a haelioni yr eglwys Seisonig yn y Drefnewydd. Pasiwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch i Arglwydd Sudeley am ei anrheg o safle *(site)* capel Aberbechan; a chrybwyllwyd mai dyma y pedwerydd *site* a roddwyd ganddo i Ymneilduwyr i adeiladu capelau.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Nolgellau, Chwefror 5 a'r 6ed, cymeradwywyd cynllun y Gronfa Fenthyciol; addawyd ymgymeryd yn galonog â'r amcan, yn ol y rheolau cynnygiedig.

Yn Nghyfarfod Misol Liverpool, a gynnaliwyd yn Crosshall Street, Ionawr 16, pasiwyd penderfyniad yn datgan teimlad dwys y cyfarfod yn wyneb marwolaeth y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn yr hwn yr amlygid y gwerth mawr a roddid ar ei wasanaeth i eglwysi a chynnulleidfaoedd y dref; a'r golled ddirfawr a gai y Cyfundeb yn gyffredinol trwy ei ymadawiad, ac yn enwedig yr eglwys a'r Cyfarfod Misol y bu yn dad a thywysog ynddynt am gyfran mor helaeth o'i oes. Darllenwyd llythyr oddiwrth Gyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, yn cyflwyno y Parch. Abraham Roberts, gynt o Cruglas, Abertawe, yr hwn sydd wedi cymeryd gofal bugeiliol yr eglwys yn Newsham Park. Rhoddwyd y derbyniad mwyaf siriol a chroesawgar i Mr. Roberts, a datganwyd y dymuniadau goreu am ei lwyddiant a'i gysur yn Liverpool.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Ionawr 29ain, cyflwynwyd diolchgarwch y cyfarfod i Mr. Morgan Williams, Bolton, am ei wasanaeth deheuig fel llywydd am y chwe' mis diweddaf; hefyd i'r Parch. W. James, B.A., am ei wasanaeth gwerthfawr fel ysgrifenydd am y tair blynedd diweddaf; hefyd i Councillor Lloyd am weithredu fel trysorydd. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. James yn hysbysu ei fod yn analluog i ymgymeryd â darparu yr adroddiad blynyddol, ac i ysgrifenu yr anerchiad, am fod y meddygon yn ei gynghori i roddi cymaint o orphwys ag y mae modd i'w lygad. Datganai y brodyr eu gofid wrth glywed hyn, ond llawenhäent wrth ddeall fod Mr. James yn gwella. Penderfynwyd fod llythyr o gydymdeimlad y Cyfarfod yn cael ei anfon at Mr. James yn wyneb yr amryw brofedigaethau y mae wedi eu cyfarfod yn ddiweddar. Penderfynwyd hefyd fod llythyrau o gydymdeimlad yn cael eu hanfon at Mr. Jones, Ducie Avenue, yn wyneb marwolaeth ei anwyl briod; ac hefyd at Meistri Edward Roberts a Thomas Redfern yn eu hafiechyd. Annogwyd i ffyddlondeb neillduol gyda'r casgliad at y Gymdeithas Genadol Gartrefol.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Nghroesoswallt, Ionawr 24 a'r 25ain, datganwyd llawenydd wrth weled y Parch. Robert Davies, Amwythig, yn bresennol, ac wedi cael graddau o adferiad iechyd, a chyflwynwyd diolchgarwch iddo ef a Mr. Thomas Owen, Croesoswallt, fel cyn-lywyddion, am eu ffyddlondeb a'u gallu yn ngweinyddiad eu swydd, ac am eu hanerchiadau. Darllenwyd llythyr cyflwyniad i'r Parch. O. Parry Owen, o Orllewin Meirionydd, a rhoddwyd derbyniad serchog iddo. Rhoddodd y Parch. R. Davies, ysgrifenydd y Gronfa Gynnorthwyol, ei adroddiad am y flwyddyn ddiweddaf, yr hwn oedd yn un calonogol, yn dangos fod cynnydd o £20 yn y casgliadau. Treuliwyd y cyfarfod egwysig boreu Gwener, gan mwyaf, i wneyd sylwadau coffadwriaethol am y Parch. Joseph Thomas, Carno; a phenderfynwyd anfon llythyr o gydymdeimlad at Gyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, yn wyneb y golled fawr a gawsant yn marwolaeth y gweinidog enwog a defnyddiol hwn.

DARLITH Y PARCH. J. HUGHES, D.D.

Cynnaliodd eglwys Fitzclarence Street, Liverpool, eu cyfarfod tê blynyddol, prydnawn dydd Mawrth, Ionawr yr 22ain. Yn yr hwyr, traddodwyd darlith dra dyddorol gan y Parch. Dr. Hughes ar "Fethodistiaeth Liverpool yn yr oes o'r blaen." Cymerwyd y gadair gan Richard Owen, Ysw. Yr oedd y Parch. O. Thomas, D.D., yn bresennol, ynghyd ag amryw o weinidogion eraill y dref, a blaenoriaid o'r gwahanol gapeli. Ymddengys fod y ddarlith yn llawn dyddordeb i'r rhai oeddynt yn cofio y cymeriadau a ddarlunid, ac mewn ffordd arall i'r

rhai nad oeddynt yn cofio. Adroddodd Dr. Thomas ar y diwedd y ffaith ddyddorol iddo ddechreu pregethu yn y flwyddyn 1834; a'i fod yn pregethu ar y Sulgwyn yn Liverpool yn y flwyddyn 1836.

CYFARFOD SEFYDLIAD Y PARCH. ABRAHAM ROBERTS.

Cynnaliwyd y cyfarfod hwn Ionawr 22ain, ynglŷn â'r cyfarfod tê blynyddol, yn nghapel Newsham Park, Liverpool. Llywyddwyd gan y Parch. Josiah Thomas, M.A. Rhoddwyd hanes yr eglwys o'i sefydliad, ugain mlynedd yn ol, hyd y symudiad presennol, gan Mr. Evan Pritchard. Cyflwynwyd y gweinidog dros Gyfarfod Misol Morganwg gan y Parch. D. Saunders, D.D. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchn. O. Thomas, D.D., J. Hughes, D.D., Hugh Jones, William Jones, a Thomas Jones; a diolchodd Mr. Roberts am y teimladau cynhes a ddangoswyd tuag ato ar ei ddyfodiad i'w plith. Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. O. Owens.

CYFARFOD SEFYDLIAD Y PARCH. W. MYDRIM JONES.

Cynnaliwyd y cyfarfod uchod yn nghapel Siloh, Llanelli, nos Fercher, Ionawr 30ain. Llywyddwyd gan y Parch. T. James, M.A. Rhoddwyd crynodeb o hanes yr alwad gan y ddau flaenor hynaf, Mr. J. Williams ac Alaw Ddu. Adroddodd Mr. Jones ei deimladau yn briodol ac effeithiol. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchn. T. Job, Conwil, a Daniel Williams, Caio, ynghyd ag amryw weinidogion perthynol i'r enwadau eraill yn y dref, ac amryw flaenoriaid.

AGORIAD CAPEL FALMOUTH ROAD, LLUNDAIN.

Y mae yn hysbys fod yr eglwys yn Crosby Row, ar yr hon y mae y Parch. E. James Jones, M.A., yn fugail, bellach wedi symud i le llawer mwy cyfleus a dymunol, yn Falmouth Road, yn agos i'r *Elephant and Castle*, ac yn agos i Dabernacl Mr. Spurgeon. Y mae y capel newydd yn un hardd a chyfleus, lle i chwech neu saith gant i eistedd ynddo, a *Lecture Room* ac ystafelloedd anghenrheidiol oddiarnodd. Costiodd dros £7000. Y mae £2000 eisoes wedi eu cyfranu neu eu haddaw gan yr eglwys a'r gynnulleidfa. Pregethwyd yn y cyfarfod agoriadol a gynnaliwyd ddiwedd mis Ionawr, gan y Parchn. Principal Edwards, D.D., Aberystwyth, a Dr. Saunders, Abertawe. Mewn cyfarfod cymdeithasol a gynnaliwyd un o'r nosweithiau dylynol, cymerwyd y gadair gan Syr Owen Roberts. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchn. J. E. Davies, M.A., W. Ryle Davies, a R. E. Morris, B.A., ac hefyd gan Mr. Lewis H. Roberts, yr hwn, yn ol ei garedigrwydd arferol, a roddodd gynnorthwy gwerthfawr trwy ei arolygiad a'i gyfarwyddyd gyda'r adeilad newydd.

ABERMAW.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Abermaw, Chwefror 6 a'r 7fed. Y gweinidogion oeddynt yn gweinyddu ydoedd y Parchn. John Williams, Brynsiencyn; a J. Puleston Jones, B.A., Bala. Cafwyd arwyddion amlwg fod yr Arglwydd yn arddel cenadwri ei weision. Y noson olaf, arosodd amryw o'r newydd yn y cyfarfod eglwysig a alwyd ar el. Yr oedd cenadwri y brodyr hyn yn nerthol iawn, fel ag yr ydoedd hen esgusodion y gwrandawyr yn cael eu deifio gan dân eu gweinidogaeth. Daeth i'm cof, wrth wrandaw Mr. J. Puleston Jones, y llinellau canlynol o'r Alarnad a gyfansoddodd Dr. William Rees ar ol yr anfarwol Williams o'r Wern:—

"Fe ddynoethai gellau 'r galon
Gyda rhyw sylweddol ddawn,
Pethau celyd, tywyll, dyfnion,
Wnelai 'n oleu, eglur iawn;
Llosgai 'n ulw esgusodion
Y pechadur oll i gyd,
Nes gorfodai blygu 'n union,
Neu fod dan ei warth yn fud."

Timotheus.

Einion House,
y Fŕiog.

AMRYWION.

Cynnaliwyd Cyfarfod agoriadol capel Robert-town, Pontypridd, Sadwrn, Sul a Llun, Ionawr 12, 13, a'r 14eg. Pregethwyd gan y Parchn. W. Davies, Robertstown; W. James, Aberdare; T. H. Jones, Llansamlet; a W. Lewis, Pontypridd.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn yr Hall, Sir Benfro, Chwefror 9 a'r 10fed. Gweinyddwyd gan y Parchn. W. Jenkins, M.A., Tyddewi; W. Jones, Treforris; Daniel Symonds, Abergwaen; a Dr.

Saunders, Abertawe. Prydnawn yr ail ddydd, cynnaliwyd Cyfarfod Sefydlu Mr. Benjamin Morris, Glandŵr, ger Abertawe, yr hwn sydd newydd ymgymeryd â gofal bugeiliol yr eglwys yn y lle. Llywyddwyd gan y Parch. W. M. Lewis, Tŷllwyd. Cafwyd anerchiadau gan y gweinidogion uchod, a gweinidogion perthynol i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr.

Y mae eglwysi Penfro a Hundleton wedi rhoddi galwad unfrydol i Mr. H. W. Thomas, sydd yn awr yn fugail ar eglwysi Caerfarchell a Solfach, i ddyfod i'w bugeilio fel olynydd i'r diweddar Barch. J. Rees Owen. Hysbysir hefyd fod Mr. Thomas wedi cael cais o Neyland i fyned yno fel olynydd i'r Parch. Thomas Morgan.

Nodiadau Misol.

ERLYNIAD ESGOB LINCOLN.

Amgylchiad sydd yn cynhyrfu y blaid Efengylaidd a'r blaid Uchel-eglwysig yn yr Eglwys Sefydledig, ac yn tynu sylw pob enwad Cristionogol trwy y deyrnas, i raddau anghyffredin, yw erlyniad Esgob Lincoln am ymarferiadau defodol, croes i drefniadau ac athrawiaeth Eglwys Loegr. Ni bu esgob yn sefyll ei brawf fel hyn o'r blaen ar ol Dr. Watson, esgob Tyddewi, yn amser Iago II., yn y fl. 1696, yr hwn a brofid o flaen Archesgob Tenison am gysegr-fasnach *(simony)* a throseddau eraill. Y mae yn hysbys fod Dr. King yn ddefodwr eithafol. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Lincoln yn y fl. 1885. Dygir yr erlyniad ymlaen, mewn enw, gan dri o'i blwyfolion; ond y *Church Association*, cymdeithas y blaid efengylaidd i wrth-weithio defodaeth, sydd mewn gwirionedd yn erlyn. Y prif ddadleuwr dros yr erlyniad yw Dr. Tristram, a thros yr amddiffyniad Syr Walter Phillimore. Agorwyd y prawf am 11eg o'r gloch boreu dydd Mawrth, Chwefror 12fed, yn llyfrgell palas Lambeth, palas Archesgob Caergaint. Cynnwysa y cyhuddiadau oleuo canwyllau ar yr allor yn y dydd, cymysgu y gwin â dwfr yn y Cymun Sanctaidd, gwneuthur arwydd y groes wrth weinyddu, a chyffelyb ddefodau Pabyddol eraill. Pan ofynwyd i'r Esgob, ar ddechreu y prawf, a oedd ganddo rywbeth i'w ddywedyd, darllenodd wrthdystiad yn erbyn awdurdod y llys hwn a dull y prawf. Mewn canlyniad i hyn, hysbyswyd y cai *Vicar-General* y dalaeth ei awdurdodi i gynnal llys yn y *Law Courts* i dderbyn y gwrth-dystiad, a bod y llys presennol yn cael ei ohirio am fis, sef hyd Mawrth 12fed, pan yr eir i mewn i'r ymchwiliad ac y gwrandewir y dadleuon gan y ddwy ochr.

"Yn mhob peth cystuddiedig fuom," meddai yr Apostol; "oddi allan yr oedd ymladdau, oddifewn ofnau." Y mae cystuddiau y Sefydliad Eglwysig yn amlhau, a gall ddyweyd, "*oddi fewn* ymladdau ac ofnau." Fel y mae cystuddiau y corff yn dybenu mewn angeu, felly nid oes ond un ymwared i'r cystuddiau hyn, sef angeu y Sefydliad. O'r angeu hwnw cwyd yr Eglwys i fywyd newydd a gwell.

PRIFYSGOL I GYMRU.

Y mae Mr. Lewis Morris, y bardd enwog, yn dadleu am Brifysgol i Gymru, mewn erthygl alluog yn y *Contemporary Review* am Chwefror. Os bardd yw yr awdwr, nid barddoniaeth yw yr erthygl hon; ond cadwen o ymresymiad cysylltiol a chadarn, wedi ei gwneyd i fyny o ffeithiau ac ystadegau diymwad, yn dangos hawl gyfiawn y genedl i Brifysgol *(University)*, sef corfforaeth yn meddu awdurdod i ganiatâu graddau—yr anghenrheidrwydd am dani fel pen conglfaen i gylymu a pherffeithio adeilad addysg, sef yr ysgolion elfenol, yr ysgolion canol-raddol, a'r colegau cenedlaethol—a'r manteision a ddeilliai i addysg y genedl oddiwrthi. Er nad ydys eto wedi cael yr ysgolion canol-raddol, y mae y diffyg yn cael ei wneyd i fyny, i ryw fesur, gan y nifer mawr sydd yn ein gwlad yn bresennol o ysgolion gramadegol o ansawdd ragorol; a diau y ceir y lleill heb fod yn hir. Heblaw hyny, y mae y colegau wedi eu cael heb y lleill, ac yn gweithio yn llwyddiannus, fel ag yr ydys eisoes wedi dechreu "adeiladu o'r pen uchaf."

Y DDADL AR Y CYFFES FFYDD YN EGLWYS RYDD YSGOTLAND.

Y mae y ddadl am adffurfio, neu roddi rhyw ddullweddiad newydd ar y *Cyffes Ffydd*, yn cynhyrfu Eglwys Rydd Ysgotland yn y misoedd hyn, megys ag y bu o'r blaen ymhlith eu brodyr Henaduriaethol yn Lloegr. Cafwyd dadl fywiog yn Henaduriaeth Edinburgh, yr hon a derfynodd mewn pasio, trwy fwyafrif o bump, ar fod y cais yn cael ei anfon i'r Gymanfa. Pasiwyd cynnygiad cyffelyb yn unfrydol yn Henaduriaeth Aberdeen.

Pasiwyd y cynnygiad, mewn ffurf ychydig yn wahanol, yn Henaduriaeth Glasgow, trwy fwyafrif o 52.

CHWANEGU ESGOBION I GYMRU.

Pasiwyd penderfyniad yn *rural deanery* Arfon, a gynnaliwyd yn ddiweddar yn Mangor, yn ffafr chwanegu dwy esgobaeth at y pedair sydd eisoes yn Nghymru, ac ad-drefnu cyflogau y rhai presennol. Hen syniad sefydlog yn yr Eglwys gyda golwg ar Gymru ydyw fod adeiladu eglwysi newyddion yn effaith ac yn achos llwyddiant. Gŵyr pawb sydd yn deall Cymru na bu erioed gamsyniad mwy. Credwn yr un peth am chwanegu esgobion.

TYSTEB I DR. DYKES.

Anrhegwyd y gweinidog enwog hwn, yr hwn yn awr sydd yn *Principal* Dykes, D.D., gan gynnulleidfa Regent Square, i'r hon y bu yn gweinidogaethu yn dra llwyddiannus am 19 mlynedd, â Thysteb gostfawr, yn cynnwys darlun llawn hyd o hono ei hun, *book-case* wedi ei llanw â llyfrau, ac *American organ;* ynghyd ag Anerchiad wedi ei ffrâmio, a Thestament Newydd addurnedig â darluniau. Rhoddwyd y ddau olaf yn enw y rhai a lafurient gyda'r gangen genadol o'r achos. Rhoddwyd y derbyniad mwyaf croesawgar i Dr. Dykes, a rhoddodd yntau anerchiad priodol a theimladwy. Edrychai yn ol gyda diolchgarwch a gostyngeiddrwydd; ac edrychai ymlaen gyda gobaith a dysgwyliad, a phryder ac awyddfryd dwys, ar ddyfodiad y Parch. John McNeill i weinidogaethu iddynt.

Y FYDDIN IACHAWDWRIAETH.

Y mae *General* Booth, ar ol i'r Llywodraeth wrthod ei gais, yn myned ymlaen yn llwyddiannus, trwy danysgrifiadau gwirfoddol, gyda'i gynllun i leddfu rhyw fesur ar dlodi Llundain. Y mae ganddo yn awr dair o ystafelloedd mawrion, neu sefydliadau i roddi lletty ac ymborth i dlodion am y nesaf peth i ddim o bris. Agorwyd y drydedd o'r rhai hyn Chwefror 11eg yn Marylebone. Costiodd £750 i'w chymeryd o adeilad fawr arall, a'i chyfaddasu i'r amcan. Gall 400 o bersonau eistedd wrth y byrddau ynddi, a gellir rhoddi ynddi 4000 o brydiau bob dydd. Y mae dwy arall o'r *Food and Shelter depôts* hyn i'w hagor yn fuan.

Byrnodion Amrywiaethol.

Y mae y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor yn anfon allan yn ol pum' copi o'r Bibl, neu ran o hono, bob mynyd trwy bob dydd gwaith ar hyd y flwyddyn. Y mae ganddi 5407 o gangenau yn Lloegr.

Torodd tân allan yn Llundain 1884 o weithiau y flwyddyn ddiweddaf.

Daethpwyd o hyd i wely o halen yn ddiweddar yn Barrow, wrth gloddio am lô. Y mae yn ddeg llath ar hugain o ddyfnder.

Saith enaid oedd poblogaeth Middlesborough yn Ngogledd Lloegr, hanner can' mlynedd yn ol. Y mae yno yn awr 70,000 o drigolion.

Y mae dwy fil a hanner o ferched yn Unol Daleithiau America yn feddygon trwyddedig. Deugain mlynedd yn ol y rhoddwyd gradd meddygol i ferch yn America am y tro cyntaf.

Y Llyfrgell frenhinol yn Monaco, tywysogaeth fechan ar fôr y Canoldir, yw un o'r rhai mwyaf yn y byd. Cynnwysa 750,000 o gyfrolau a 24,000 o gyfysgrifau.

Pedwar can' miliwn o bunnau yw swm yr alsawdd *(capital)* a ddefnyddir gan holl amaethwyr y Deyrnas Gyfunol sydd yn dal tir fel tenantiaid.

Nid yw yr iaith Saesoneg yn cael ei harfer i ysgrifenu llythyrau er ys mwy na phum' can' mlynedd. Cyn hyny, y Ffrancaeg a ddefnyddid. Yn yr iaith Lladin yr ysgrifenid llythyrau cyn teyrnasiad Edward I.

Nifer y marwolaethau trwy ffrwydriadau mewn gweithydd glo am y flwyddyn 1888 oedd 43—y nifer lleiaf a fu er y fl. 1851, pan ddechreuwyd cadw cyfrif swyddogol. Yr uchaf er y pryd hwnw oedd am y fl. 1866, yr hwn oedd yn 650.

Dywedir fod Italiad wedi dyfeisio inc yn tywynu (*luminous ink*), fel y gellir darllen newyddiadur wedi ei argraffu âg ef yn y tywyllwch.

Cyfrifir fod yr arian a werir am ddiodydd meddwol yn Mhrydain yn ddigon i gynnal 60,000 o genadon yn ol £250 y flwyddyn yr un; 500,000 o ysgolfeistri am £100 yr un; 10,000 o eglwysi am £2,000 yr un; 5,000 o ysgolion am £800 yr un. Rhoddai i'r byd heblaw hyny 400,000,000 o Fiblau swllt; 1,000,000,000 o draethodau yn ol swllt y cant; £60 yn y flwyddyn i 100,000 o weddwon; a £30 yn y flwyddyn i 200,000 o deuluoedd tlodion.

Y mae cyllid blynyddol cwmpeini rheilffordd y *Great Eastern* yn bedair miliwn o bunnau. Y mae y swm hwn yn fwy na holl gyllid teyrnas Groeg, ac yn agos gymaint a chyllid unedig teyrnasoedd Sweden a Norway.

Bwrdd y Golygydd.

"CYNGHORION I BREGETHWYR."

Gair at y BLAENOR *(neu y* DIACON*), oddiwrth yr* ARCHDDIACON *o Sir Gaernarfon.*

ANWYL FRAWD,—Gwelaf bedwar o gynghorion oddiwrthyoh yn y DRYSORFA ddiweddaf at Bregethwyr. Ond nid oes a wnelwyf â'r *tri* chynghor diweddaf, ond â'r *cyntaf* yn unig. Yr ydych yn cynghori y pregethwyr i *siared yn isel;* ac yn dyweyd fod eisieu rheol yn yr ysgolion i ddysgu y *key* neu y nôd i ba uchder y codir y llais, &c.

Wel, yr ydwyf finnau yn peri i'r pregethwyr *siared yn* UCHEL ac eglur, fel y clywo y pellaf yn y capel; ac hefyd fel y clywo y dosbarth hwnw sydd bron yn un ran o dair o'n cynnulleidfaoedd, sef y rhai sydd yn drwm eu clyw. Ac yn awr, Mr. Gol., ar bwy y gwrandawa y pregethwyr, druain? Dyma ddau swyddog pwysig yn cynghori yn groes i'w gilydd.

Yn awr, awn "at y gyfraith ac at y dystiolaeth," i benderfynu y pwnc. Wel, deued y DIACON âg un adnod i beri i'r pregethwr siared yn isel, deuaf finnau â *thair* adnod i beri i'r pregethwr *siared yn uchel,* a bydd genyf ddegau o adnodau wrth gefn yn niwedd y ddadl. Yr ydych yn cymeryd rhyddid ar feddwl un adnod at eich pwnc, sef mai y "llef ddystaw fain" sydd yn argyhoeddi. Wel, mae yn eithaf gwir hyny. Ond llef pwy yw hono? Onid llef yr Ysbryd Glân, ac nid llef y pregethwr? Yr oedd mor anghenrheidiol i Elïas gael clyw ed y gwynt nerthol, y mellt a'r ddaeargryn, ag oedd iddo gael clywed y "llef ddystaw fain." Yr oedd y pethau mawr cyntaf yn dwyn Elïas i ystyried ei gyfrifoldeb i Dduw; ac ar ol hyny yr oedd fel tir addfed wedi ei drin i dderbyn yr had. Gwaith yr Ysbryd Glân yn unig oedd y llef ddystaw fain: ac fe ddaeth hono ar ol yr ystormydd cyntaf. Fel yna yn union y mae gweinidogion yn dysgwyl pan yn pregethu. Daw rhai o honynt yn llawn o feilt a tharanau, a'r rhai hyny yn rhuo yn ofnadwy, nes y daw pechaduriaid i ofni ac i grynu, ac na byddant yn gweled dim o'u blaen ond damnedigaeth dragywyddol. Daw un arall ar eu hol â meddyginiaeth yn ei esgyll gogyfer â'r clwyfau a'r briwiau oedd y taranau wedi eu gwneyd. Ac felly, os taranwr fydd y pregethwr, rhaid iddo fod yn ysbryd y daran a'r mellt yn traddodi, cyn yr effeithia efe trwy ei genadwri ar y gwrandawyr.

Clywais fy rhieni, er ys tua 60 o flynyddau yn ol, yn adrodd llawer am ddull a phregethau un o'r dyniou a wnaeth fwyaf o'i ôl erioed yn Nghymru, ac yn enwedig wrth gofio gau fyred ei oes; a hwnw oedd y diweddar Barchedig Robert Roberts, Clynnog. Dywedasant wrthym laweroedd o weithiau am ei ddull effeithiol yn traddodi; y byddai hanner ei bregeth bron bob amser yn daranau ac yn feilt oddiwrth ddeddf Duw o'r nefoedd, ac uffern a'i fflamau oddi-isod, a'r pechaduriaid mewn llewygfeydd yn ofni syrthio i'r trueni. Ië, gwelsant y rhai mwyaf annuwiol yn cilio yn wysg eu cefnau gan ofn, ac yn dychymygu eu bod yn disgyn i'r trueni pan y byddai y pregethwr yn darlunio uffern. Ac yna gwaeddai y pregethwr dros bob man, am i'r Arglwydd waredu ei wrandawyr rhag myned i'r lle poenus hwnw! Ië, gwelsant ddegau o weithiau y rhai mwyaf annuwiol yn syrthio yn gelaneddau dan ei weinidogaeth.

A chofiwn, nid wrth siared yn ddystaw y byddai yr effeithiau hyn yn cymeryd lle. O! na, dyn wedi ei ferwi mewn tân am achub ei wrandawyr oedd y gŵr hwn. Clywais hwynt yn dyweyd y byddai, pan yn troi i'r rhan efengylaidd o'i bregeth, yn troi ei gefn at y gynnulleidfa; yna codai ei olwg i fyny a bloeddiai, gan ofyn i'r Arglwydd pa beth a ddywedai wrth ei wrandawyr? Byddent hwythau yn dysgwyl, yn union fel pe buasai yn angel Duw. Ac yna, ar ol derbyn y genadwri, dyna fe yn troi at ei wrandawyr, ac yn gwaeddi â'i holl nerth—"*y mae gobaith eto y caiff yr euog ei fywyd!*" A'r canlyniad o'r addewid yma fyddai gorfoledd am oriau.

Mae y *Diacon* yn amneidio mai pregethwyr bychain fydd yn gwaeddi; ac nid oes ganddo ddim gwell enw i'w roi arnynt na "phregethwyr trystiog." Ai rhai bychain a thrystiog oedd Ebenezer Morris; John Evans, New Inn; Evan Harries, William Havard, Morgan Howells, a John Jones, Blaenanerch? Deuwn eto i'r Gogledd:—John Elias,—gellid clywed ei lais am chwarter milltir o ffordd pan yn pregethu mewn Sassiwn; Edward Morgan, Dyffryn; John Jones, Talsarn. Ië, y dyn mwyaf a feddwn yn awr yn fyw: efe yw y goreu o bawb am waeddi, ac wrtho ef y bydd yr holl Sassiwn yn dysgwyl bob amser. Clywais, a hyny ar y seiliau cryfaf, ei fod yn pregethu yn Sassiwn Bangor, a bod un o'r creigiau gerllaw yn adsain yr hyn a ddywedai; ac i ŵr boneddig o Sais oedd yn clywed y graig yn llefaru, ofyn i ryw un am gyfeithu y geiriau oedd y graig yn eu siared; ac i hwnw wneyd, ac i hyny fod yn foddion i droi y gŵr boneddig. Dyna gyflawniad o'r geiriau, "y gareg yn llefain o'r mur," onidê? O'r tadau anwyl! pa le y maent? O! ië—dyna Michael Roberts anwyl! y clywid ei lais trwy yr holl gymoedd, ac y byddai synwyr i'w weled bron yn ei anadl.

Ond am y curo traed a churo'r Bibl, nis gwn pa beth i'w ddywedyd, os nad yw eu gweinidogaeth yn poethi eu hysbryd. Mae genyf un stori yn ymylu ar hyn. Yr oedd y diweddar Barch. Griffith Jones, Tre'rgarth, unwaith wedi gyru ei fraich o'i lle; ac aeth at y doctor. Ond ymhen yr wythnos, aeth o'i lle eilwaith. Ac wrth dd'od o'i gyhoeddiad boreu dydd Llun, aeth

heibio i'r doctor wed'yn, i'w rhoi yn ei lle. "Wel," meddai y doctor wrtho, "rhaid i chwi beidio ag ysgwyd eich braich, neu ni saif hi ddim yn ei lle." "Wel," meddai yntau, "y mae'r bobl yn gwrthod credu'r gwirionedd wrth i mi ddim ond siared a nhw!" Felly, fe allai fod y brodyr hyn yn meddwl y creda pobl yn well wrth iddynt dreio pob *plan*.

Yn awr, wrth derfynu, dymunaf i'r *Diacon* dynu y cynghor hwn yn ol; a hyny er mwyn dau ddosbarth o wrandawyr: sef y dosbarth sydd yn bell oddiwrth y pregethwr, a'r dosbarth sydd yn drwm eu clyw.

[Gofyna yr ARCHDDIACON i ni, pa beth a wna y pregethwyr, druain, yn wyneb cynghorion mor wahanol, gan swyddogion pwysig, am y dull o draddodi? Credwn mai y tebygolrwydd yw, mai myned ymlaen a wnant rywbeth yn debyg i'w dull presennol, i aros hyd nes y bydd y blaenoriaid wedi cytuno â'u gilydd.—GOL.]

Bywgraffiaeth.

MR. OWEN JONES, JERUSALEM.

Gan y Parch. THOMAS ROBERTS, *Bethesda.*

(Parhad o tu dal. 76.)

RHAN II.

MAE son am yr hen bregethwyr yn peri meddwl am beth arall a gofir yn o gryf gan ei gydnabod o berthynas iddo. Yr oedd cryn dwysged o'r pregethau a wrandawsai yn ei ieuenctyd wedi cael cartref pur ddiogel yn ei feddwl. Mae Mr. Thomas Hughes, Gatehouse, yn ysgrifenu newn llythyr am dano, bod "ganddo allu mawr i wneyd crynodeb o'r pregethau a glywai y Sabboth, ac i draddodi hyny ar y diwedd i'r eglwys—er hwyrach," meddai Mr. Hughes ymhellach, "y bu hyn yn achlysur digalondid i ambell frawd gwan, trwy y byddai yr adolygiad weithiau yn well na'r bregeth." Y dystiolaeth hon, mae'n debyg, o fewn rhyw derfynau, sydd wir. Ond nid adrodd yr hyn oedd newydd wrando yn unig a fedrai Owen Jones. Cofiai hefyd sylwedd pregethau a glywsai er's hanner canrif. Ac i ni, rhaid i ni addef, yr oedd mwy hyfrydwch yn yr hen, ar rai cyfrifon, nag yn y diweddar. Tybiasom weithiau wrth ei glywed ef yn adrodd penau pregeth a glywsai yn yr amser gynt, oddiar ambell adnod, ein bod yn cael gronyn o weledigaeth i mewn i ddull o bregethu na buasai genym nemawr syniad am dano oni b'ai hyny. Ofer, ac hwyrach, gwaeth nag ofer, fyddai nodi esamplau yma, er fod ambell un yn bur fyw yn ein meddwl heddyw. Ond dyweyd yr ydys iddo wrandaw llawer a chofio llawer. Un o arferion ei ddyddiau boreu ydoedd cerdded i bob man a fyddai o fewn rhyw gyrhaedd ar ol cadw noswyl yn y chwarel, os byddai golwg am gael pregeth ar ol myned; ac fe wyddys y *byddai* golwg ar noson waith y pryd hwnw yn llawer amlach nag yn awr. Ac nid i oedfaon yn unig yr elai. I'w feddwl ef, pan yn ŵr ieuanc, yr oedd rhyw swyn anhygoel i ieuenctyd bellach mewn unrhyw gyfarfod crefyddol. Ac os byddai yn y cyfarfod rywbeth go nodedig, yr oedd, fel y gellid dysgwyl, fwy swyn fyth. Esiampl o'r awydd yma yn Owen Jones oedd ei waith yn cerdded i lawr ar noson i Fangor er mwyn cael bod yn bresennol yn y Tabernacl, pan roddai yr eglwys ei llais ar achos Dr. Owen Thomas fel ymgeisydd am y weinidogaeth. Eto i oedfaon, bid sicr, y cerddai fwyaf ac amlaf; a ffrwyth y siwrneuon hyn oedd rhan o reswm ei ddefnyddioldeb; oblegid mynych y dygai allan yr hen bethau a glywsai, a deheuig iawn yr arferai hwy at ei bwrpas presennol yntau. Prin y gellid meddwl am dano yr hyn ydoedd, oni b'ai am yr awch gyda pha un yr aethai ar ol yr hen bregethwyr. Ymddengys hefyd fod ganddo bleser go ddwfn yn eu cymdeithas pan allai ymwthio iddi. Ymdroai gyda rhai o honynt ar ol yr oedfa, er y golygai hyny y byddai weithiau yn oriau mân y boreu arno yn cyrhaedd adref. Cofus genym ei glywed yn adrodd mai unwaith yn unig yn ei oes y tybiodd iddo weled—neu glywed—"ysbryd." Yr oedd hyny tuag un o'r gloch y boreu, wrth iddo ddychwelyd o wrandaw pregeth, ac ar ol ymdroi gyda'r pregethwr, yn rhywle yn nghyfeiriad Pentir neu bellach. Bu mewn oerias o ofn gwirioneddol am enyd y pryd hwnw; ac nis gwaredwyd ef o honi nes y cofiodd y rhaid mai hen olwyn ddwr fregus a gwichlyd mewn man gwybyddus, erbyn ystyried, oedd yn gwneyd y swn y tybiodd ef mai o rywle neu oddiwrth rywbeth arall mwy annaearol y deuai. Pe mai gwir ysbryd a welsai neu a glywsai, nid ydym yn sicr y buasai hyny yn ei luddias i droi allan drachefn ar noson arall, ac i wynebu y perygl, os byddai hyny yn anghenrheidiol, er cael oedfa neu ryw un arall o'r cyfarfodydd crefyddol ag yr oedd iddo ef gymaint hyfrydwch ynddynt.

Bu Owen Jones yn flaenor am yn agos iawn i hanner can' mlynedd. Yn y Carneddi y dewiswyd ef gyntaf. Yr oedd hyny yn y flwyddyn 1837. Ei oedran y pryd hwnw oedd saith ar hugain. Bu felly yn flaenor am 49 mlynedd; pump yn y Carneddi a phedair a deugain yn Jerusalem. Y diweddar Barch. David Jones, o Gaernarfon y pryd hwnw, oedd un o'r rhai a anfonasid i'r Carneddi dros y Cyfarfod Misol i wrandaw llais yr eglwys. Am hanes y noson hono, heblaw y dewisiad ei hunan, nis gwyddom ddim credadwy, os nad oes un eithriad. Yr eithriad yw sylw bychan a wnaeth y gweinidog hybarch a enwyd, yr hwn sylw y clywsom Owen Jones yn fynych yn ei adrodd, fel peth a lynasai yn ei ystyriaeth ef. Rhoddi cynghor yr

oedd y gweinidog; ac wrth ei roddi, "I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh," meddai "y'th gyffelybais;" a swm y cynghor, fe dybygid ydoedd, mai felly y dylai blaenoriaid fod—wedi eu harneisio yn daclus, ac yn cydweithio yn unfryd â'u gilydd.

Pan alwyd Owen Jones yn flaenor, yr oedd dau eraill gydag ef. Un o'r ddau oedd y diweddar Barch. David Morris, Cae Athraw, wedi hyny; a'r llall ydoedd Mr. Thomas Williams, Cilfodan, fel ei hadwaenid. Blaenoriaid gwych oedd y tri hyn. O'r tri, Owen Jones ei hunan a arosodd yn flaenor, a hyny yn unig, hyd y diwedd. Aeth y lleill yn bregethwyr. Dechreuodd David Morris bregethu yn bur ebrwydd; a pha fodd y cyflawnodd efe ei weinidogaeth sydd ry wybyddus i beri bod eisieu dywedyd dim. Am Thomas Williams, aethai yn brydnawn cyn iddo ef ddechreu pregethu; a barn lliaws o'i gyfeillion ydoedd mai gwell fuasai iddo beidio dechreu o gwbl; oblegid yn ei achos yntau, fel ambell achos arall, ni chafwyd yn y pregethwr unrhyw ennill cymesur â'r golled a gawsid o flaenor cryf a chymeradwy. Dyna, fe dybygid, oedd barn Owen Jones; oblegid mae y chwedl yn adrodd iddo gyfarfod â Thomas Williams ar y ffordd ger llaw Pontytŵr, ryw ddiwrnod heb fod yn bell oddiwrth amser marwolaeth y ddau; ac ebai y naill, "Arnat ti, Owen, y mae y bai na buaswn i yn pregethu yn gynt nag y gwnaethum i." "Pa fodd y gall fod y bai arnaf fi?" gofynai y llall. "Fel hyn: yr oeddwn i, trwy y blynyddoedd, yn aros i ti ddechreu yn gyntaf, gael i minnau ddechreu wed'yn. Dechreuodd Dafydd Morris, ti a wyddost, toc iawn; a minnau, am amser maith, a hir ddysgwyliais i tithau fyned yn nesaf." "Fuasai ddim llawer gwaeth pe buaset ti wedi dal i ddysgwyl hyd eto," oedd yr ateb a gafodd gan ei hen gydswyddog; ac yr oedd hyn i gyd heb na dig na chwerwedd, oblegid teimlai y ddau yn ddigon rhydd a chyfeillgar at eu gilydd.

Aros yn flaenor ddarfu i Owen Jones, a thrwy hyny, diau yw iddo wneuthur yr hyn oedd oreu i achos yr Arglwydd Iesu yn ei fro. Oblegid, "gwasanaethodd swydd diacon," ebai brawd ag yr ydym eisoes wedi dyfynu rhai o'i eiriau—"gwasanaethodd swydd diacon yn eglwys Jerusalem am dymmor maith, a gwnaeth ei alwedigaeth a'i etholedigaeth i'r swydd yma yn sicr yn meddyliau y rhai a'i dewisodd, na ddarfu iddynt ddim methu wrth wneyd hyny; o herwydd bu yn addurn i'r sêt fawr hyd ddiwedd ei oes." Mae brawd arall yn adrodd geiriau fel hyn a glywodd gan y diweddar Barch. David Jones, Treborth:—"Nid wyf yn chwennych dyweyd dim yn isel am neb; eto, *un* o'r blaenoriaid goreu yn Arfon yn fy oes I oedd Owen Jones." Tystiolaeth uchel oedd hon; ac nid yn ddiachos, yn ddiau, y rhoddwyd hi. Fe'i hennillwyd, nid trwy fawredd nodedig mewn unrhyw un peth nodedig; ond trwy waith cyson, diflino, gŵr o alluoedd uwch, mae yn sicr, na'r cyffredin, a'r galluoedd hyny wedi eu cysegru am oes i wir ofal am waith yr Arglwydd, a llwyr ymroddiad iddo. Cydgerddodd y gofal a'r ymroddiad hwnw â holl hanes achos crefydd yn y capel y cysylltid enw Owen Jones âg ef—ei godiad, ei gynnydd, a'i lwyddiant go fawr. Yr oedd ganddo law gref yn mhlaniad yr achos; gwyliodd ef yn ei dyfiant, a gweloddef wedi cyrhaedd mesur da o gryfdwr ac addfedrwydd. Nid i bawb blaenoriaid, yn ddiau, y rhoddwyd y fraint hono.

Yn y parotöad at blaniad yr achos yn y cychwyn, fe ellir tybied, y daeth grym Owen Jones i'r golwg gyntaf. Gwelai ef, a gwelai eraill llygadog, y dylasid cael capel mewn rhan arall o'r gymydogaeth. Ond nid felly y gwelai pawb. I'r Carneddi yr esgynasai y llwythau o amryw ranau o'r ardaloedd er's hir amser, ac yno y mynid iddynt barhâu i esgyn; oblegid tybid mai cydaros yn yr hen gartref fyddai oreu yn gystal ag esmwythaf. Gofynai gryn fedr i orchfygu y brodyr hyn heb eu briwio. Hwyrach na lwyddwyd yn hollol; ond teimlid bod yn rhaid ceisio. Yr oedd y Methodistiaid wedi colli lliaws eisoes o ddiffyg capel yn Bethesda; yr oeddent ar y ffordd i golli llawer mwy, a rhaid oedd trechu y rhai a safent ar y ffordd. Bu ymryson nid bychan yn mhlith y brodyr ynghylch y mater yma. Mae hen frawd, oedd yn aelod o eglwys y Carneddi ar y pryd, yn tystiolaethu bod yno ddadleu brwd ac uchel ar y cwestiwn yma. Pan ofynwyd iddo, beth a wnai Owen Jones,—a siaradai efe lawer iawn? "Nid llawer," oedd yr ateb; "yn hytrach, go ychydig; ond yr oedd yr ychydig hwnw yn bur gryf; ac yr oedd ymadrodd y llefarwr mor llawn o ddefnydd perswâd, fel, pan y tawai, y byddai llawer o'r rhai a'u gwrandawent wedi eu tynu i fod o'r un feddwl âg ef." Mae y dyfyniad a roddwyd yn y dechreu yn son am daith a gymerodd efe ac un arall i osod achos y capel newydd o flaen y Parch. John Jones, Talysarn. Taith ar ddydd Sabboth yr ydys yn meddwl oedd y daith hono. Clybuwyd fod Mr. Jones yn pregethu yn Dinorwig y Sul hwnw. Cerddodd Owen Jones a'r brawd arall dros y mynydd yno ato, er mwyn cael ymddyddan âg ef mewn hamdden ar fater y capel newydd. Cais, bid sicr, oedd hyn i sicrhau cefnogaeth y Cyfarfod Misol trwy yn gyntaf sicrhau cydymdeimlad y Parch. John Jones. Cafwyd y ddau; ac ymhen enyd y cyfeillion a alwent am achos newydd a orfuant, ac mewn hen gorsle, lle na thyfai dim ond mïeri ymysg meini o fawr faintioli, ar fin ffordd fawr Caergybi a'r Amwythig, fe godwyd capel, yr hwn, ynghyd a thŷ, ac hefyd ardd a chae glas o flaen y capel, y rhai a arloeswyd allan o'r anialdir cyntefig, a gostiodd dair mil a thri chant o bunnau. Yn y flwyddyn 1842 y bu hyn, a gweithwyr o Chwarel Cae braich y cafn oedd corff mawr—agos yr oll—o'r rhai a wnaethant y gwaith; a hyny ar amser mor wan fel na chaniateid iddynt weithio yn y chwarel ond dwy ran o dair o bob wythnos. Bellach, yn y capel hwn, a chydag achosion y

capel hwn, a'r eglwys a'r gynnulleidfa ynddo, y bu maes llafur penaf Owen Jones, nes iddo ddisgyn mewn benaint i'r bedd. Yno y bu yn cyhoeddi; yno y bu yn arolygu yr Ysgol Sabbothol; yno y bu yn arwain y cynnulliadau; yno y bu yn gosod i lawr gasgliadau at bob rhyw achosion o flaen y gynnulleidfa; yno y bu yn dysgu, yn cynghori, yn rhybuddio, yn dyddanu; yno, mewn gair, y bu yn "ffyddlawn yn yr holl dŷ;" ac nid oedd dim o faterion yr eglwys, o'r pethau a dybir leiaf hyd at y rhai a gyfrifir yn uchaf a mwyaf ysbryddol, nas gallai ymaflyd ynddynt gyda deheurwydd mawr. Yr oedd ei hir wasanaeth a'i feistrolaeth ynddo wedi peri i ambell un fyned yn ddiarwybod i edrych arno fel rhan hanfodol o'r achos ei hunan; ac, ar ryw olwg, nid dyeithr, fe allai, ar ol ei farw, oedd clywed hen frodorion a ymadawsent er ys talm i leoedd eraill, ond a ymwelent ar achlysur â'u hen ardal a chael ei le ef yn wag, yn tystiolaethu nad oedd dim a'u tarawent â mwy o chwithdod na gweled Capel Jerusalem heb Owen Jones. Y mynyd o'r blaen yr oeddys yn son am gyhoeddi; ac wrth son, yr oeddys ar fedr ymesgusodi o herwydd crybwyll gorchwyl ag y cafwyd achos i gredu bod pobl gall iawn a ddirgel dybiant nad yw rhagori ynddo nemawr o wir ragoriaeth wedi y cwbl. Nis gwyddom ni, ac nis gallwn ddyweyd ein bod yn un awdurdod ar y mater. Ac eto, y mae yn anhawdd peidio barnu bod Owen Jones yn gyhoeddwr ar ei ben ei hun. Nid trwy ddadleu, nac ychwaith trwy ddesgrifio—pe medrem ddesgrifio—y ceisiem berswadio eraill mai felly yr oedd. Yn hytrach, ni a ddygem ddwy dystiolaeth, a dwy dystiolaeth nad oes achos bod appêl oddiwrthynt. Mae un yn eiddo pregethwr, a'r llall yn eiddo blaenor. Y pregethwr sydd un o'r rhai mwyaf athrylithfawr yn Ngogledd Cymru, neu, o ran hyny, yn Nghymru i gyd. Bu y gŵr hwn am enyd yn amser ei ieuenctyd yn aros yn Bethesda; a chlybuwyd ef yn dwyn tystiolaeth i'r perwyl yma; nad oes ganddo gof bywiocach o ddim a welodd ac a glywodd yno nag sydd wedi aros gydag ef o allu Owen Jones fel cyhoeddwr; ac ni a allwn sicrhau mai nid ffug ragoriaeth fuasai yn ymaflyd fel yna yn meddwl y gŵr hwnw. Soniasom am dystiolaeth blaenor. Y blaenor hwnw yw Mr. Thomas Hughes, Gatehouse. Dyma ei eiriau ef, y rhai, dybygem, y dylid eu dodi yn ei ffordd ef ei hunan o'u dyweyd:—"Bu Owen Jones yn cyhoeddi yn Jerusalem am flynyddoedd lawer; ac, yn sicr, yr oedd yn un o'r cyhoeddwyr goreu yn Nghymru, os nad yn y byd i gyd. Yr oedd ei lais yn glir a hyglyw; neb yn cwyno eu bod yn methu ei glywed; ei gof ydoedd gryf a gafaelgar, fel y gallai gyhoeddi naw neu ddeg o gyfarfodydd heb edrych ar bapyr na chamgymeryd o gwbl, hyd nes yr aeth yn rhy hen i lenwi y swydd. Yr oedd y gwaith yma wedi bod yn destun efrydiaeth fanwl iddo ef am dymmor maith. Clywsom un yn dywedyd fod yn werth myned i Gapel Jerusalem, pe i ddim ond i glywed Owen Jones yn cyhoeddi. . . . Hefyd," ebai Mr. Hughes ymhellach, "yr oedd ef yn nodedig o fedrus am roddi pob casgliad yn y modd goreu ger bron y gynnulleidfa. Pan yn gofyn cynnorthwy at gynnal Cymanfa y Sulgwyn, byddai yn appelio at y bobl yn siriol a dengar, ac yn dywedyd mor ddymunol fuasai cael casgliad cymysg o wŷn a melyn; a chasgliadau rhagorol sydd wedi eu cael at hyn lawer gwaith—ïe yn wir ar hyd y blynyddoedd. Gan fod casgliadau eglwys Jerusalem yn dyfod i'r Cyfarfod Misol mor brydlawn a helaeth, yr ydym yn credu pe dywedem fod hyn i'w briodoli i ddoniau casglyddol Owen Jones, na fethem ddim llawer." Mae y brawd sydd yn dyweyd fel hyn yn awdurdod hefyd ar lais; mae ganddo air i'w ddyweyd am lais Owen Jones; a chan ei fod ef yn gyfryw awdurdod, prin, ond odid, y byddai yn gyfreithlawn peidio ysgrifenu ei sylw megys ei rhoddir ganddo:—"Yr oedd ei boll anerchiadau ef yn hynod o dderbyniol, a hyny yn un peth am ei fod yn siarad mor naturiol, heb un gronyn o rodres na mursendod yn agos ato: dim ymgais i drawsffurfio ei hunan i arddull neb arall. Mae hyawdledd mewn naturioldeb. Clywais am ddyn dall wedi cael ei wahodd i wledd lle cymhellwyd brawd i ofyn bendith ar y bwyd. Wedi iddo ddarfod, gofynodd y dall i'r nesaf ato, 'Pwy oedd y gŵr yna a ofynodd fendith?' Yr ateb oedd, mai ei gymydog oedd yn byw yn ei ymyl. 'Hynod iawn,' ebai yntau; 'nid gyda'r llais yna y bydd efe yn siarad efo mi yn y tŷ acw.' Wel, un llais oedd gan Owen Jones ymhob man, yn y tŷ, yn y capel, ac yn y chwarel; ac yr oedd hyn yn sicr o fod yn ddolen yn nghadwen ei ddefnyddioldeb."

Oni b'ai am y lled esgus roddai y peth dros ysgrifenu hyny ellid o eiriau y blaenor doniol o'r Gatehouse, ni roddasid cymaint a hynyna o le i Owen Jones fel cyhoeddwr. Gallasai beri i rywun feddwl mai cyhoeddwr ydoedd yn fwy na dim. Ond nid felly. Ni a anturiwn ofyn i'r darllenydd goelio ei fod can alluoced ymhob peth arall ag ydoedd yn y rhan hon; ac a anturiwn ychwanegu y gallesid dyweyd cymaint am ei fedr yn y pethau hyny ag yn y peth hwnw. Ond yr amser a ballai; lle Y Drysorfa a ballai; ac, yn enwedig, amynedd y neb a geisiai ddarllen a ballai hefyd. Felly rhaid i ni dynu at ddiweddu, ac wrth wneyd hyny fe ddylid dywedyd i'r brawd hwn gyfarfod â llawer o rwystrau, â pha rai yr ymdrechodd nes eu gorchfygu. Aeth drosto rai amserau eithaf trallodus a phrofedigaethus, yn enwedig yn mlynyddoedd dechreuad yr achos, pan yr oedd dyled y capel yn fawr a throm iawn, a'r cyfrifoldeb yn gorwedd ar ei ysgwyddau ef, ac ychydig frodyr o gyffelyb feddwl. Mae gwir llythyrenol yn nywediad y dyfyniad a roddasom ar y dechreu am y nosweithiau digwsg a dreuliodd yn ystod yr amser pryderus hwnw. Dyoddefodd hefyd oddiwrth frodyr gau. Mae cyfaill o flaenor

oedranus mewn eglwys arall yn ysgrifenu am ymgais tra bradwrus a wnaed o le go uchel ac agos at yr awdurdodau, ar un achlysur, i greu anymddiried yn Owen Jones yn meddwl yr holl gymydogaeth, pan mai effaith sier yr anymddiried ar y pryd hwnw fuasai llesteirio pobl a fwriadent gyfranu at ddiddyledu yr addoldŷ. Nid oes dadl ychwaith nad peri yr aflwydd hwnw oedd amcan y brad; ac nid heb *act* nodedig o wroldeb pybyr oddiwrth Owen Jones y tröwyd y cynghor drygionus hwnw yn ffolineb. Mae yr un hynafgwr o flaenor yn ysgrifenu gair fel hyn:—

"Bu ein brawd yn siampl i'r cymydogaethau hyn fel Ymneillduwr. Oddeutu deg ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol, bu ymosodiadau tymion oddiwrth yr Eglwys Sefydledig ar Ymneillduwyr; ac aeth llawer un ysgafn ac anwybodus, fel yr us, i'r Eglwys yr adeg hono. Ond bu sefydlogrwydd a chadernid Owen Jones yn nerth i ddegau sefyll eu tir yn ngwyneb pob hudoliaeth."

Fel hyn, "bwa" ein hen gyfaill "a arhôdd yn gryf, a breichiau ei ddwylaw a gryfhasant trwy ddwylaw grymus Dduw Jacob;" ac am dano yntau hefyd, megys am y patriarch, y gellir, ac, yn wir, y mae yn rhaid chwanegu mai "oddiyno," ac nid o hono ei hun, y bu yn "fugail" ac yn "faen Israel," i'r graddau y bu. Bu yr Arglwydd yn dirion o hono yn ei ragluniaeth. Rhoddes iddo briod a fu iddo yn gymhorth a chysur nid bychan; cu iawn oeddynt y naill gan y llall. Yr oedd hi yn gryf ei heiddigedd a'i gofal am ei urddas a'i anrhydedd ef; a chyda hyny yr ydoedd yn ddeheuig iawn ei hwsmonaeth o amgylchiadau cartref, fel ag i roddi iddo yn y ffordd hono lwybr pur ddirwystr i wasanaethu crefydd. Nid ymuniawnodd byth ar ol y golled a gafodd yn marwolaeth ei briod. Ymhellach, cafodd gydswyddogion a chydweithwyr, yn enwedig rai, o'r radd uchaf a goreu. Gan i ni grybwyll hyn, y mae yn rhydd i ni gyfaddef ein bod er ys meityn yn llafurio dan fesur o anesmwythder poenus, rhag ein bod yn ysgrifenu fel pe mai trwy lafurwaith Owen Jones yn unig y daeth achos yr Arglwydd i fod yr hyn ydoedd yn yr eglwys yr oedd ef yn swyddog ynddi. Nid felly. Hyd yn nod ei lafur ef ei hun, ni buasai mor effeithiol ag y bu, oni b'ai ei fod yn llafurio gydag eraill can alluoced a chan ffyddloned ag yntau; ac o honynt hwy, o drugaredd, y mae rhai yn aros hyd yr awr hon. Os soniasom yn unig am dano ef, ein hesgusawd yw mai am dano ef yr ydym, y pryd hwn, yn ysgrifenu; ac fe haeddai ef well gair o goffadwriaeth na hwn ydys wedi dreio osod wrth eu gilydd. Oblegid, trwy ras Duw, y gweithiwr cyffredin hwn o chwarelwr, trwy hanner can' mlynedd o wasanaethu yn ffyddlawn yr Arglwydd Iesu yn ei deyrnas a'i amynedd Ef, a sicrhaodd iddo ei hun le tywysog yn meddyliau y rhai a'i hadwaenent. Ond, er anmherffeithiau yr hyn a ddywedasom am dano, rhaid i ni yn awr ei adael. O'r lliaws ysgrythyrau ag y gwelsom o bryd i bryd eu bod iddo yn fater o brofiad a dwys fyfyrdod, yr olaf agos, os nad yr olaf oll, yn ei ddyddiau olaf, oedd hon:—"Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw." Pan ddeuai i ddiwedd y gyntaf o'r ddwy adnod, ac at y gair "o hyn allan," efe a safai, ac a arosai, megys un a betrusai a oedd iddo gyflawn genad i fyned ymlaen, a gorphen y geiriau: ymhen enyd fechan iawn, modd bynag, ymlaen yr äi, a dyweyd yr adnod nesaf a wnai, gan sibrwd yn gryf hyderus y geiriau sydd yn canlyn; a sicr ddiammheu ydyw, mai ymadrodd llythyrenol wir yn ei enau ef yr awr hono oedd, "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw."

MRS. EVANS, DOLAERON, LLANGEITHO.

Gan y Parch. JOHN EVANS, *Abermeurig.*

Yr ydym, ar gais llawer, wedi ymgymeryd â chofnodi rhyw ychydig o bethau am y chwaer deilwng uchod. Merch ydoedd i'r Parch. Ebenezer Richard, Tregaron, ac felly yn chwaer i Mr. Henry Richard, y diweddar A.S. dros Merthyr. Priododd â Mr. David Evans, Ty'ndolau, Llangeitho, yr hwn a adnabyddwyd yn well wedi hyny fel Mr. Evans, *Tanner*, Aberaeron, yr hwn a fu yn flaenor ffyddlawn am flynyddoedd yn eglwys y Tabernacl, ac a ennillodd iddo ei hun radd dda o gyhoeddusrwydd yn y Cyfundeb trwy Gymru. Bu farw yn gymharol ieuanc, Rhagfyr 23, 1869, a symudodd hithau ymhen 18 mis ar ol hyny i Langeitho. Yr oedd gan Mrs. Evans chwaer henach na hi o'r enw Mary, yr hon a briododd â Mr. Samuel Morris, *Tanner*, y blaenor enwog ac adnabyddus yn Twrgwyn, yr hwn oedd fab i'r Parch. Ebenezer Morris. Ac yn y briodas hon unwyd teuluoedd y ddau bregethwr enwog. Ond y mae Mr. Evans a Mr. Morris wedi myned er ys blynyddoedd, a'u gwragedd hefyd, ac wedi gadael bylchau eang ar eu hol, sydd yn ymddangos eto heb eu cau mewn un neu ddau o ystyriaethau, os nid ychwaneg.

Ond y mae a fynom yn awr â Mrs. Hannah Evans, merch ieuangaf Mr. Richard. Ac y mae yn adeg hynod o briodol i alw sylw ati yn awr, ar ol yr ysgydwad fel o ddaeargryn a gafodd ein gwlad trwy farwolaeth ei brawd.* Mae adeg mebyd ac ieuenctyd Mrs. Evans yn ein dwyn yn ol i'r Prospect House, Tregaron, pryd yr ydoedd y tŷ hwnw yn ei ogoniant penaf, oblegid yr efengylydd enwog oedd yn byw yndo. Mae y tŷ ymysg y twr tai sydd ar y llain o dir rhwng ffordd Pontrhydfendigaid a ffordd y *Station*. Yr oedd hi yn meddu adgofion melus am yr hen dŷ hwn a'i amgylchoedd, ac adroddai rai o honynt yn

* Ysgrifenwyd y Coflant hwn yn adeg marwolaeth Mr. H. Richard.

fynych wrth ei phlant. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn dal cysylltiad â duwioldeb amlwg ei thad, ac â'r pregethwyr fyddai yn arfer llettya yno. "Meddyliwch am dano," meddai am ei thad, "yn ychwyn i daith, y ceffyl yn barod wrth y drws, ac yntau yn myned ar ei union i gyflwyno ei hunan a'i deulu i ofal yr Arglwydd. Yr oedd yn addoliad yn yr holl deulu, a byddai ein meddwl gydag ef nes y daethai yn ol." Adroddai hefyd am dduwioldeb ei mham. "Mae yn gwneyd cywilydd i mi yn fynych," meddai; "nid oes genym ddirnadaeth gymaint o wasanaeth a fu fy mam i grefydd yn Tregaron, ac hefyd yn y wlad. Mae llawer o ganmol ar fy nhad, ond yr oedd gwasanaeth fy mam hefyd yn fawr iawn, er nad oedd mor amlwg ag ef. Pan feddyliwyf am grefydd yr hen bobl, yr wyf yn synu pa fodd y gallwn ni yn yr oes hon feddwl am gael myn'd i'r nefoedd o gwbl." Mae achos ymadroddion fel yna yn ddigon amlwg, sef yr argraff ddofn oedd crefydd fawr y teulu wedi adael ar ei meddwl pan yn blentyn. "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi." Mae "gorchymyn" y tad, yn gyffredin, yn dyfod yn "addysg tad," a geiriau y fam yn dyfod yn "gyfraith y fam," yn yr efelychiad o honynt.

Ymhlith pethau difyr boreu ei hoes, adroddai yr hanesyn canlynol, yr hwn sydd yn agoriad da i weled prif linellau ei chymeriad. Ar amser Cymdeithasfa Awst yn Llangeitho, un flwyddyn, yr oedd chwech o'r pregethwyr goreu wedi dygwydd dyfod i Tregaron yr un noswaith, ac i lettya yn y Prospect House. Yr oedd y dref hefyd yn llawn iawn o ddyeithriaid, a phawb yn awyddus am eu cael i'w tai. Yr oedd un hen wraig o'r enw Betty wedi dyweyd wrth Mrs. Evans, yr hon oedd ferch ieuanc iawn y pryd hwnw, am iddi gofio rhoddi pregethwr iddi hi. "Ac nid rhywun, cofiwch," meddai, "ond dyn *respectable*." Addawodd Miss Richard wneyd ei chais. Aeth i dŷ yr hen wraig i ofyn pa help allasai roddi iddi er gwneyd y pregethwr yn gysurus. Rhoddodd fenthyg llïan bwrdd iddi, a llawer o bethau eraill. Ond nid oedd y ddwy yn cydweled am un peth. Yr oedd yr hen chwaer yn rhoddi gŵydd dew i swper, a'r ferch ieuanc yn ei gweled yn hollol anmhriodol; ond gŵydd neu ddim oedd i fod. Wedi i'r pregethwr ddyfod, nid oedd wrth fodd yr hen wraig, gan fod golwg rhy dlawd arno; a dywedodd wrth gymydoges iddi, ei bod wedi digio yn fawr wrth Miss Richard am anfon un mor dlodaidd yr olwg arno ati hi. "Bet fach," meddai hono, "efe oedd yn pregethu yn y capel heno; a dyna oedfa gafwyd!—y lle yn foddfa o ddagrau, a phawb bron yn y diwedd yn moliannu." "Taw," meddai hithau yn wyllt; "nid wyt yn dyweyd y fath beth. Yr wyf wedi ei gweled hi! mi wnes yr ŵydd i swper, ond ni roddais y llïan ar y bwrdd; yr oeddwn yn ei weled yn rhy wael i roddi y llïan gwyn o'i flaen, fel y dywedodd Miss Richard." Gyda hyn tywynodd goleuni i feddwl yr hen chwaer, a dywedodd yn ddisymwth, "Ond mi wn beth a wnaf, mi wnaf gystal pryd o *bancos* iddo bore fory ag a gafodd erioed, ac mi ro'r llïan ar y bwrdd hefyd." Boreu drannoeth daeth Miss Richard yno i ofyn helynt y llettya, pryd y dywedodd Betty pa fodd y bu arni ynghylch y swper. "Dyna i chwi wers, Betty," meddai hithau; "gymaint yn well fyddai i chwi fy nghoelio I, welwch ch'i mor sâff yw bod yn serchog i bawb? Yr oeddech yn gwybod ei fod yn bregethwr, ac yr oedd hyny yn ddigon i chwi dros ymddwyn tuag ato fel pe byddai y gŵr boneddig penaf yn y wlad." Er mor wyllt ei thymher oedd Betty, goddefodd yn dda; ond dywedodd gyda llais uchel o'r diwedd, "Tewch chwi son, ni chafodd neb yn y dre' ei dendio yn well nag ef: cafodd *bancos* i frecwast, a'r llïan ar y bwrdd," gan ystyried fod y ddau beth hyn yn iawn am bob dirmyg y nos o'r blaen.

Yn y flwyddyn 1837 ymdaenodd owmwl du dros y *Prospect House*. Yn mis Mawrth, oyn gorphen ei daith i ymweled â'r eglwysi yn mhen isaf y Sir, daeth Mr. Richard adref i Tregaron, yn llesg a gwael, a bu farw bore drannoeth. Nid oedd Miss Richard ar y pryd ond dwy ar bymtheg oed. Y flwyddyn ganlynol aeth i ymweled â'i brawd ieuengaf, sef y Parch. Henry Richard, Marlborough Chapel y pryd hwnw, wedi hyny Henry Richard, A.S., yr hwn y mae owmwl du dros Gymru o herwydd ei farwolaeth yntau yn y dyddiau hyn. Mae yn debyg fod Miss Richard yn fwy cymhwys na llawer o'i chyfoedion i fyned o le gwledig fel Tregaron i Lundain. Ond yr oedd y daith hon yn cynnwys llawer o'r difyrion *y* carai hi eu hadrodd ar hyd ei hoes. Ymhlith y Saeson y byddai hi yn aros pan yn Llundain, a hyn oedd yn peri llawer o'r anhawsderau oedd ar ei ffordd. Adroddai yr hanesynau canlynol am yr adeg hon. Yr oedd yn arferiad yn y cwmnïoedd y gwahoddid hi iddynt, i'r un nesaf at un i ofyn ganddo gymeryd gwin gydag ef. Yr oedd hyn yn ofid mawr iddi, gan fod ei diweddar dad yn un o'r areithwyr goreu ar ddirwest yn Nghymru, ac wedi ei dysgu hithau i lwyrymattal. Ond yr oedd ei brawd wedi rhoddi *phrase* iddi i'w lefaru ar yr achlysur, séf "No, thank you, I am a teetotaller, but I shall be happy to join you in drinking water." Un noswaith yr oedd wedi cael ei gwahodd i barti mawr a phwysig. Yn ei gofid penderfynodd ofyn i gyfaill i'w brawd a gawsai fyned i mewn i ginio gydag ef. Pan ddywedodd wrtho, ei ateb oedd, "Na choelia i fawr, lodes fach o Gymru fel chwi?" Ond nid gwrthodiad pendant oedd y meddwl; a dywedodd ei wraig wrthi, "Peidiwch ohwi a digaloni, bydd fy ngŵr yn sior o wneyd rhywbeth i'ch cynnorthwyo, er mai gŵr y tŷ sydd bob amser yn trefnu pa fodd y maent i fyned i ginio." A noson y wledd, pan y gofynwyd i Mr. Fabian pwy oedd gydag ef, dywedodd, "Where is my little Welsh friend, no one but the lass of St. David's for me," a chyda hyny diflanodd ei gofid. Yr oedd hi wedi

bod mewn ysgolion da, ac wedi dysgu siarad Saesoneg yn hylithr a choeth.

Pan briododd yn 1847 aeth ei mam gyda hi i fyw i Aberaeron, lle y bu hyd ei marwolaeth yn 1855. Yr oedd Mrs. Richard yn eglwys y Tabernacl yn fath o beiriant trydanol; pan siaradai byddai yn sicr o wasgar bywyd trwy yr holl le. Ac os na fyddai myn'd ar bethau yno, byddai yr hen Evan Caleb yn debyg o'i galw hi i siarad. Bu cymdeithas ei mam yn llawer o fantais i Mrs. Evans yn nechreu ei bywyd priodasol, a diammeu i hyn osod argraff ddaionus arni tra bu byw. Yr oedd Mrs. Richard yn oracl yr eglwys yn Nhregaron, o herwydd ei doethineb, ei charedigrwydd, a'i phrofiad crefyddol helaeth, ac felly yr oedd hefyd yn Aberaeron. Gallwn sicrhau fod Mrs. Evans wedi efelychu ei phrif rinweddau, ac yr ystyrid hi yn un o'r colofnau crefyddol pa le bynag y byddai. Wrth ddarllen am ei rhagoriaethau, byddai yn dda cymeryd i ystyriaeth eu bod hefyd yn rhagoriaethau ei thad, a'i brawd Henry, i raddau mwy neu lai. Yr oedd ei llygaid mawrion, y wyneb agored, yr ychydig gamu oedd yn ei gwàr yn gwneyd i'w phen sefyll ymlaen yn fwy na'r cyffredin, yn ei gwneyd yn ddelw o'i thad o ran ei chorff, fel y dywedodd y Parch. John Elias am dani, "Dyma *bicture* o Eben Richard." Os oedd felly o ran ei chorff, yr oedd hefyd yn ddelw o hono mewn ystyriaethau eraill, a'r un fath o'i brawd.

1. *Barn oleuedig.* Darllenai lawer, meddyliai fwy, ac ni siaradai ond ar bethau adeiladol. Felly byddai hi yn sefyll yn gadarn a sefydlog, pan y byddai eraill yn gwyllty, yn gwamalu, a gwneyd camsyniadau. Hyn oedd yn ei gwneyd yn wraig o gynghor. Pan ddywedwyd fod Mr. Evans, ei phriod, yn gwneyd blaenor da, yr ateb oedd, "Mae ganddo gynghor da gartref; anfynych y mae Mrs. Evans yn *misio*." "Yr oedd fy anwyl fam," meddai Miss Mary Evans, "bob amser fel brenines yn ei theulu; am dani yr holai fy nhad, ac yr holem ninnau, y plant, ac arni y byddai ef a ninnau yn gwrando." Nid un yn traarglwyddiaethu, ond un yr oedd ei doethineb, ei barn dda, ei gofal manwl, a'i thynerwch mawr, yn rhoddi teyrnwialen yn naturiol yn ei llaw. Mae hyn yn ein hadgofio am farn oleuedig ei thad a'i brawd, oedd yn eu gosod i sefyll ymhell o flaen eu hoes yn eu bywyd. Dyma gymhwysodd ei thad i wneyd trefniadau mor ddoeth ar gyfer yr Ysgol Sabbothol, ac i drefnu hefyd y *Cyffes Ffydd* Fethodistaidd, fel un o'r rhai mwyaf blaenllaw. Ei farn ryddfrydig ef oedd y dylai yr Ysgol Sabbothol gael ei chodi ar egwyddor y synagog Iuddewig, sef lle bynag y cawsid deg o ddynion, os na ellid cael ychwaneg. Ac felly y bu efe yn llwyddiannus i lenwi pen uchaf Sir Aberteifi âg ysgolion ac â chapelau. Ei ateb difloesgni ef i'r rhai a'i cymhellent i ddyfod drosodd i Eglwys Loegr oedd, ei fod ef o farn a chydwybod yn Ymneilduwr. Dylid ymgydnabyddu mwy yn y dyddiau hyn hefyd â barn ac ysgrifeniadau Henry Richard, ei fab, er mwyn iddynt gael eu hargraffu ar feddwl yr oes hon, pan y mae ei syniadau *advanced* ef ar gael eu sylweddoli.

2. *Dyngarwch.* Yr oedd yn un o dymher addfwyn, ac o galon hynod o garedig. Ewyllysiai ddaioni i bawb, a theimlai dros bawb. Yr oedd yr *humour* toreithiog oedd ynddi yn ei gwneyd yn gyfeilles o'r fath a garai pob dyn o chwaeth dda. Ac yr oedd ei chalon deimladwy yn ei chymhwyso i roddi cysur mewn gorthrymderau, fel yr oedd yn gyfeilles tywydd garw yn gystal â thywydd teg. Yr oedd un o'r rhai a brofodd lawer o chwerwder y byd yn dyweyd, fod cael cymdeithas Mrs. Evans am ychydig yn peri iddi anghofio ei gofidiau, ac yn peri i'w beichiau fyned yn ysgafn. Yr oedd yn athrawes ar ddosbarth o wragedd, ac ni newidid hi pan newidid yr athrawon, ond dywedai yr arolygwr fod "Mrs. Rees i fod gyda'r plant bach, a Mrs. Evans i fod gyda'r hen wragedd, *fel arfer*." Yr oedd yn athrawes i'r rhai hyn ymhob ystyr; â hi yr ymgynghorent bron ar bob achos, ac wrthi yr adroddent eu holl dywydd, er eu bod lawer hynach na hi o ran dyddiau. Byddai gyda hwy ymhob caledi; ac wedi bod yn ymweled âg un o honynt yn yr *Infirmary*, yn Aberystwyth, dywedai, "I made her very happy by going to see her, and her joy was a great happiness to me."

Yr oedd hen ŵr a hen wraig, o'r enwau Gwen a Dafydd *Coachman*, yn byw yn Aberaeron, ac wedi cael eu darostwng i raddau o dlodi o herwydd hir gystudd Yr oedd ef yn flaenor yn eglwys yr Annibynwyr, a chadwai Mr. Evans, y gweinidog, a hithau lawer o bwyllgorau yn achos y ddau, er trefnu ar gyfer eu hanghen. Yr oedd eisieu rhyw ddwy i'w gwylio bob nos; a gwaith Mrs. Evans bob bore Llun oedd chwilio am rai i wneyd hyny bob nos o'r wythnos, a rhoddai siars iddynt i fyned â'u bwyd eu hunain, gan fod yr hen bobl yn dlawd. Bu hyn am fisoedd lawer, ac anfonai Mrs. Evans ginio yn fynych iddynt, ac ymwelai â hwynt y rhan fynychaf bob dydd. Yr oedd y plant weithiau yn ei gweled yn rhy garedig, a dywedent wrthi, "Mam anwyl, yr ydych yn *selfish* o *unselfish*." Noswaith cyn y Nadolig, pan glywodd am Saesones oedd yn y lle yn dyoddef eisieu, mynodd fyned â chinio da iddi; ond gan ei bod wedi bod mewn amgylchiadau gwell, nid aeth ar hyd dydd ati, ond wedi nos, ac mor ddirgel ag y medrai. Fel hyn y gwnaeth mewn llìaws o amgylchiadau, pryd na chafodd y "llaw aswy wybod beth oedd ei llaw ddehau yn ei wneuthur."

Mae hyn yn ein hadgofio am ei thad, yr hwn y dywedir am dano ei fod bron bob amser yn wylo wrth bregethu; ac mai efe oedd y penaf am ddadleu achos y Fibl Gymdeithas yn y Sir hon. Yr oedd, ac y mae, yn cael ei gyfrif yn un o ddiwygwyr goreu Cymru. Felly ei fab, fel yr oedd ei gysylltiad â'r Gymdeithas Heddwch, ei gyfres llythyrau yn y *Morning Star* yn amddiffyn ei genedl, ei wlad, a'i iaith, a'i ymdrech fel aelod Seneddol dros estyniad

rhagorfreintiau i Gymry, yn profi. Tybia llawer. os bydd dyn yn eiddgar iawn dros ei wlad, ei genedl, a'i iaith ei hun, fod hyny yn ei wneyd yn gul a rhagfarnllyd tuag at wledydd a chenedloedd eraill. Ond y mae gwir ddyngarwch yn hollol fel arall. Yr oedd calon Henry Richard yn ddigon teimladwy i guro mewn cydymdeimlad â holl genedloedd y ddaear, ac yr oedd hyny yn ei wneyd yn fwy o werth i'w genedl ei hun.

3. *Duwioldeb.* Yr oedd natur wedi ei gwneyd yn brydferth a dymunol, ond yr oedd hefyd yn greadur newydd yn Nghrist Iesu; ac yr oedd y newydd yn cysegru yr oll i wasanaeth Crist. Yr oedd yr awydd cryf oedd ynddi i wneyd daioni, yn cael ei gymedroli gan bwyll a gochelgarwch. Yr oedd yr addfwynder tyner ac anwyl oedd ynddi, yn cael ei wneyd yn egni nerthol gan galon wedi ei chryfhâu â gras. Yr oedd yn Gristion cymesur a chyfartal. Yr oedd ei chrefydd yn amlwg yn natur ei hymddyddan, yn mwynder ei geiriau, yn amcan ei gweithredoedd, yn ysgogiadau ei chorff, yn symledd ei gwisg, ac yn nethol iad ei chwmni, yn gystal âg yn nghysondeb ei hymwneyd cyhoeddus â moddion gras, a'r dagrau tryloewon fyddai yn treiglo i lawr ei gruddiau yn fynych pan ynddynt. Bu ei hastudrwydd yn gwrando, a'r arwyddion o deimlad didwyll a ddangosai, yn gymhorth mawr i lawer pregethwr.

Rhoddodd dystiolaeth hefyd yn ei chystudd diweddaf ddarfod iddi ryngu bodd Duw, ac iddi gael mynediad helaeth i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Yr oedd Mrs. Richard, ei chwaer yn nghyfraith, gyda hi yn ei chystudd, a Miss Evans ei merch, yr hon sydd ferch fabwysiedig Mr. a Mrs. Richard. Dywedai wrth Mrs. Richard, â'i llygad mawr yn dysgleirio, a'i hwyneb â golwg angylaidd arno, "I am going home." Ac wrth ei mab, Dr. Evans, Llandyssul, yr hwn oedd o hyd yn gweini arni, "Yr ydych wedi gwneyd eich goreu, ond rhaid ildio. Yr unig beth sydd yn fy mlino yw meddwl eich gadael chwi, fy mhlant anwyl." "Have you no fears?" gofynai Mrs. Richard iddi." "O, dear, no!" oedd ei hatebiad; ac ychwanegai, "Thou wilt keep him in perfect peace, whose mind is stayed on thee. *Perfect peace*, PERFECT PEACE." Dywedai drachefn, "I have no fears, when I think of leaving my dear ones, either, but these farewells are not pleasant." Yna trodd ei llygaid at un o'i phlant, a dywedodd, "Un cas yw hiraeth." Dywedai drachefn, "Carwn yn fawr wel'd rhai o'm cyfeillion, yn enwedig fy mrawd anwyl, caredig; ond nid yw o gymaint pwys, cawn gyfarfod i gyd heb fod yn hir."

Bu farw Chwefror 9fed, 1884, yn 65 oed. Cafodd ei chladdu yn ol ei dymuniad yn mynwent capel Llangeitho, lle y gwelir beddfaen hardd iddi, o'r un defnyddiau a chofgolofn Rowlands, sydd heb fod ymhell oddiwrthi. Symudodd i Langeitho yn 1871, sef ymhen deunaw mis ar ol claddu ei phriod. Heddwch i'w llwch hyd y bore mawr, a bydded y Nefoedd yn dyner wrth ei mab a'i dwy ferch, sydd hyd yma yn yr anialwch, a rhodded iddynt grefydd eu hanwyl fam!

Lloffion.

Y RHESWM A'R TEIMLAD, NEU WIRIONEDDAU I'W CANFOD DRWY BERSONAU.

CANFYDDIR gwirioneddau moesol trwy gyfrwng Personau Dwyfol. . . . . Po uchaf y byddo y Personau Dwyfol yn ngolwg dyn, egluraf a fydd y gwirioneddau moesol. Mewn canlyniad, po fwyaf y byddo y galon yn gweithredu ar y Personau, goreu oll y medr y rheswm weithredu ar wirioneddau pur drwyddynt. Nid yw y teimladau yn gormesu ar y rheswm, na'r rheswm ar y teimladau. Un o elfenau ardderchogrwydd crefydd Crist ydyw, mai ynddi hi y dadguddir y cyfuniad ag sydd yn uno y teimlad â'r rheswm. Torodd gwawr y cyfuniad allan yn yr Hen Destament. Gwelir ef yn y geiriau, "Gyda thi y mae ffynnon y bywyd; yn dy oleuni di y gwelwn oleuni." Cyrhaeddodd ei anterth yn y geiriau: "Yr ydych chwi o hono Ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth."—*Y Prifathraw* D. CHARLES DAVIES, M.A., *Trefecca.*

FFYDD YN CYWIRO RHESWM.

Y MAE Ffydd yn dyrchafu yr enaid, nid yn unig uwchlaw synwyr a phethau teimladwy, ond uwchlaw rheswm ei hunan. Fel y mae rheswm yn cywiro y camsyniadau a ellir eu hachlysuro gan y synwyr, felly y mae ffydd oruwch-naturiol yn cywiro camsyniadau y rheswm naturiol pan y mae yn barnu yn ol synwyr.—LEIGHTON.

DOLENAU Y GADWEN.

RHODDWCH i mi y dolenau hyn: yn gyntaf, teimlad o anghen; yn ail, dymuniad am gael; yn drydydd, crediniaeth fod ystôr gan Dduw; yn bedwerydd, credimiaeth ei fod Ef yn caru i ni ofyn, er ei fod yn attal am dymmor; ac yn bummed, y bydd i ni gael wrth ddal i ofyn. Rhoddwch i mi y dolenau hyn, a bydd y gadwen yn cyrhaedd o'r ddaear i'r nefoedd, gan ddwyn yr holl nefoedd i lawr i mi, neu fy nghodi I i fyny i'r nefoedd.—GUTHRIE.

GEIRIAU Y DOETHION.

Y MAE ystormydd Duw yn ein gyru ar Graig yr Oesoedd.

Nid oes obaith cyrhaedd gwirionedd yn y pen draw, lle nad oes gostyngeiddrwydd y plentyn wrth gychwyn.

Y mae Duw yn golchi llygaid ei blant â dagrau, iddynt fedru darllen yn iawn ei ragluniaeth a'i orchymynion.

Pe byddai genym gyfoeth Crœsus, ni byddai ein dymuniadau yn ddim llai.

Cronicl Cenadol.

SEFYLLFA YR IACHOS YN KHASIA A JAINTIA.

Llythyr oddiwrth y Parch. Dr. Griffiths.

Mewn rhifyn blaenorol rhoddasom adroddiad am yr Henaduriaeth a gynnaliwyd yn Jowai. Diau mai dymunol fydd gan lawer o'n darllenwyr weled y sylwadau a wneir gan Dr. Griffiths ar rai o'r cyfarfodydd ac ar sefyllfa y gwaith ar y Bryniau.

"Cawsom Henaduriaeth dda iawn drwyddi, ac yr oedd cyfarfod boreu Llun yn enwedig felly. Cyfarfod ydyw hwn gan mwyaf, i dderbyn adroddiadau pwyllgorau, penderfynu mân bethau mewn cysylltiad â'r arholiadau, yr Henaduriaeth nesaf, &c. Ond pa un ai dylanwad da y Sabboth ar ein hysbrydoedd, ynte beth a all fod yr achos, yn gyffredin, ac yn gyfleus iawn hefyd, dyma gyfarfod goreu yr Henaduriaeth, lle y mae pawb fel pe yn cael *inspiration* newydd i fyned ymlaen gyda'r gwaith hyd yr Henaduriaeth ddyfodol. Fel y dywedais, yr oedd hwn yn arbenig felly. Dywedwyd ynddo rai pethau a gofir yn hir gan y Cenadon a'r brodorion,—a gofir fel symbyliad i weithio yn fwy egnïol, gan ymddiried mwy yn yr addewid am yr Ysbryd i arwain y meddwl a'r tafod mewn amgylchiadau dyrys a phryderus.

Oud yr oedd swnjcynnydd ymhob peth bron a wnaed yn yr Henaduriaeth. Gyda'r eithriad o un amgylchiad gofidus, lle yr oeddym yn gorfod tori pob cysylltiad âg un oedd wedi arfer myned i fewn ac allan gyda ni, nid am bechod fel un o'r rhai y byddwn yn arfer dysgyblu o'i herwydd yn gyffredin, ond balchder calon wedi myned i eithafion, yr oedd y cenadwriaethau o'r eglwysi yn hynod o galonogol. Yr oedd yno chwech o eglwysi eisieu diaconiaid. Pan ddaethum i'r wlad ddeng mlynedd yn ol nid oedd yn Khasia a Jaintia ddim ond *un* diacon (U Kypa Ka Hen neu U Ngorsing, yn Shillong), ond diwedd y flwyddyn ddiweddaf yr oedd yma 52, rhai eraill yn cael eu derbyn yn Jowai, a chwech o eglwysi eto yn gofyn am rai. Un o'r eglwysi hyn ydyw Nongbah yn Jaintia, lle y mae y llwyddiant wedi bod yn rhyfeddol. Tua blwyddyn ar ol cyrhaedd Khasia yr oeddwn yn y pentref hwnw yn rhoddi meddyginiaeth, a'nid oedd yno, mor bell ag yr wyf yn cofio, yr un Cristion yn y lle y pryd hyny. Y mae nifer yr efengylwyr hefyd yn cynnyddu yn barhaus: anaml yr aiff un flwyddyn heibio yn awr heb rai newyddion. Y flwyddyn *hon*, mae yn wir nad oedd neb; ond y flwyddyn nesaf y mae pedwar o ddynion ieuainc gobeithiol yn dyfod ymlaen i'r arholiad—dau neu dri o honynt yn rhai pur alluog. Yr wyf yn cofio yn dda pan yn cyrhaedd Teriah ddechreu y flwyddyn 1879, fod Mr. Jerman Jones yn ein cyfarfod yno, newydd ddychwelyd o'i daith *gyntaf* trwy Khyndiar; yn awr dyma yno nifer da o Gristionogion yn parotoi i adeiladu capel. Fel y gwelwch yn yr adroddiad, derbyniwyd dau ddiacon o Mawmluh. Dyma bentref oedd wedi myned *bron* yn anobeithiol i'r rhai mwyaf ffyddiog o honom. Yr oedd yno ysgol er yn foreu; mae yn debyg ei bod ymhlith y rhai cyntaf a sefydlwyd; ond er fod amryw o bobl y pentref oedd wedi symud i leoedd eraill wedi dyfod yn Gristionogion, nid oedd dim llewyrch o gwbl ar yr achos yn Mawmluh, ond pawb fel y gareg o galed. Ond ychydig flynyddoedd yn ol, dyma gyfnewidiad drostynt, ac y mae yno eglwys flodeuog yn awr, ac yr oedd y ddau ddyn a osodid yn yr Henaduriaeth ddiweddaf i'w harwain, yn dangos gwybodaeth ëang o'r Bibl a phrofiad addfed fel Cristionogion.

Yr oedd hanes yr achos yn nosbarth Jowai yn galonogol iawn. Gydag ychydig iawn o eithriadau, y mae yno lwyddiant mawr er yr Henaduriaeth ddiweddaf. Y mae eglwys Jowai ei hun wedi dadblygu yn rhyfeddol y blynyddoedd diweddaf yn y gras o gyfranu. Ar ol gorphen eu capel helaeth nid oeddynt yn foddlawn heb gael oriel arno, ac wrth roddi yr oriel rhoddwyd *ceiling* o goed, ac edrycha yn bur dda. Gan nad oeddwn wedi bod mewn *gallery* er's blynyddoedd lawer, nid oeddwn heb fy ofnau ynghylch diogelwch hon; ond daliodd ei llon'd o bobl y boreu a'r prydnawn, Sabboth yr Henaduriaeth, heb ddangos un arwydd o *flaw* yn y gwaith a wnaed arni. Costiodd y *gallery* a'r *ceiling* 1100 *rupees*; (pris *rupee* yw tua 1s. 5c. o arian Lloegr). Y mae cyfeillion Jowai hefyd yn haeddu canmoliaeth am eu haelioni tuag at yr Ysbytty, ac yn haeddu yn gyfiawn gael yr adeilad hwnw yn eu plith yn awr. Rhwng yr holl gasgliadau hyn, a rhai eraill, yr wyf yn credu fod eglwys a hynnulleidfa Jowai wedi casglu tua 3000 *rupees* (£213) mewn tipyn mwy na blwyddyn o amser, ac yn hyn fe ddeil i'w chymharu âg amryw o gynnulleidfaoedd cyffelyb gartref.

Cyfrifid fod o 800 i 850 yn bresennol yn yr oedfaon y boreu a'r prydnawn ar y Sabboth. Yr oeddem yn synu clywed Mr. Ceredig Evans a Mr. Williams yn pregethu mor dda yn y Khasiaeg. Siaradent yr iaith fel pe buasent wedi bod yn y wlad am rai blynyddoedd. Yr wyf yn deall fod Dr. Hughes hefyd wedi dechreu pregethu yn yr iaith, ond gan mai yn ei orsaf ef yr oedd yr Henaduriaeth ni chawsom y pleser o'i glywed y tro hwn yn pregethu. Yr oedd yr arholiad a fu ar y tri yn dangos eu bod wedi bod yn llafurus iawn gyda'r maes a roddwyd iddynt.

Yr oedd yn anmhosibl gwneyd y cyfeillion yn fwy cysurus nag y gwnaeth Dr. a Mrs. Hughes ni oll. Y mae nifer y cenadon wedi myned yn lled fawr yn awr, ac fel y gwyddoch, nid ydyw tŷ neb o honom yn helaeth, fel mai nid peth hawdd ydyw gwneyd cynifer o honom yn gysurus pan ddeuwn at ein gilydd i'r Henaduriaeth. Ond yr oedd pob

peth mor gysurus,—bwrdd llawn, wynebau llaweu, pob peth yn ei amser, &c.—a phe buasem mewn tŷ bedair gwaith y maintioli yr un yr oeddym ynddo."

DOSBARTH SHILLONG.

YMWELIAD AG AMRYW BENTREFI.

Pentref Laitlyngkot—Hen Wraig yn Mawiong—Cyfarfod mawr yn Myllim—Ymdriniaeth ar Weddi—Cyfarfod gyda'r Cristionogion—Sadew—Cristion ffyddlawn—Marwolaeth dau Gristion.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Shillong, Rhag. 12fed, 1888.

DYDD Gwener, y 7fed o'r mis hwn, aethom i Laitlyngkot i ymweled â'r ysgol, ac hefyd i wneyd ymchwiliad i gŵyniou yr oedd rhai o'r pentrefwyr wedi eu dwyn yn erbyn yr athraw oedd yno—nad oedd yn cerdded yn gywir ac ymddwyn yn iawn fel Cristion. Daeth cynnulliad da o'r bobl gyda phlant yr ysgol at eu gilydd un noswaith, a dygwyd y cyhuddiadau ymlaen, a chafodd yr athraw bob chwareu teg i roddi eglurhâd ac amddiffyn ei hun; ond yr oedd yn amlwg ei fod wedi gwneyd o'i le, a bod yn rhaid ei geryddu, a rhoddi athraw arall yn ei le yn y pentref. Er ei ffaeleddau, yr oedd wedi dysgu y plant a'r ieuenctyd yn dda, ac y mae yno nifer yn gallu darllen y Testament Newydd yn rhwydd. Yr oeddem yn darllen y bore yn y drydedd o Matthew am Ioan yn pregethu ac yn bedyddio, ac atebent yn gywir y cwestiynau a ofynid. Holwyd hwynt hefyd yn hanesyddiaeth y rhanau cyntaf o'r Hen Destament. Mae yma rai dynion mewn oed wedi dysgu darllen, a byddant yn myned yn fynych i'r moddion y Sabboth i Myllim, yr hwn sydd tua phum' milldir o bellder. Yr ydym yn edrych ymlaen at yr adeg pan y bydd yn y pentref hwn nifer o Gristionogion a moddion crefyddol rheolaidd ar y Sabboth.

Bore Sadwrn aethom i ymweled â phentref Mawiong, a chawsom gyfarfod yno ganol dydd. Daeth oddeutu 40 ynghyd, y nifer fwyaf yn ferched—gan fod y dynion wrth eu gwaith yn y caeau—ac yn eu plith yr oedd hen wraig tua 80 oed, yr hon oedd yn syth, a sionc a heinyf, yn gweled ac yn clywed yn dda, ac yn hynod ddeallus a siaradus, a gwrandawai yn astud ar hyd y cyfarfod. Cawsom ymddyddan maith â hi ar y diwedd. Yr oedd wedi gweled y cenadwr cyntaf a ddaeth i'r Bryniau, sef Mr. Thomas Jones, ac wedi bod yn siarad âg ef, a hyny yn fuan ar ol iddo gyrhaedd, a'r adeg hono yr oe'd ganddi dŷaid o blant yn tyfu i fyny; ac yn yr oedran hwn yr oedd yn llawer mwy heinyf na'r ferch henaf oedd ganddi. Dywedai fod y duwiau yn dyfod gyda hi ar hyd ei hoes i ba le bynag yr elai, a'u bod yn dyfod yn ol gyda hi adref, ac yn aros gyda hi yn y tŷ, a'u bod yn siarad gyda hi; ond iddynt ei gadael tua 12 mlynedd yn ol, ac nad oeddent wedi dyfod ati byth er hyny. A gwrandawai yn llonydd, gan edrych yn synedig pan oeddwn yn ei hysbysu ein bod ni wedi cael ein hanfon i'r pentref yn bwrpasol i fynegu iddi am y gwir Dduw a'r Iachawdwr Iesu Grist, yr hwn a allai ei hachub a maddeu iddi, a chadw ei henaid rhag myned i uffern i'r carchar tragywyddol, ond y byddai iddo ei glanhau a'i sancteiddio, a'i chymeryd i fyw byth i dŷ a chartref y Duw hwn—y byddai iddo fod gyda hi bob dydd tra y byddai byw ar y ddaear: byddai iddo fod gyda hi yn y tŷ, wrth y tân, yn y nos dywyll, yn yr ardd, ac ar y ffordd, ac y byddai iddo siarad â hi, a'i chynnal a'i chysuro hyd y diwedd, ac yna y cai fyw yn fyw ato i'r nefoedd, ac mai enw y Duw a'r Gwaredwr hwn oedd Iesu Grist. Yna rhoddai ei dwylaw ar ei thalcen, a chan edrych tuag i fyny, *bowiodd* yn barchus. Gwahoddasom hi i dd'od i'r moddion i Myllim drannoeth, ac addawodd ddyfod, a daeth; ac arosodd yno ar hyd y dydd, gan gymeryd sylw manwl o bob rhan o'r gwasanaeth; a rhwng y cyfarfodydd cymerodd Mrs. Jones hi i'r tŷ lle yr oeddem yn aros a pharotodd iddi gwpanaid o dê, ac yfodd ef, a dywedai ei fod yn dda iawn. A phan oeddem yn ffarwelio â hi ar ol y cyfarfodydd, rhoes ei dwylaw yn *flat* wrth eu gilydd, ac yna gosododd hwy ar ei thalcen, a chododd ei gwyneb i fyny gan edrych yn sobr, a gofyn am i'r duwiau drugarhâu wrthi hi a'i chadw a'i bendithio; ac yr oeddwn innau yn gweddïo am i Dduw y duwiau drugarhâu wrthi a'i chadw a'i bendithio; a theimlem yn bur hyderus y bydd iddo wneyd,—y bydd i'r Hwn a wrandawodd weddi ac a arbedodd y Ninifeaid wrando ac arbed yr hen wraig hon, er wedi byw mewn anwybodaeth o hono a phechu yn ei erbyn am 81 mlynedd Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, ac yn arbed yn helaeth. O mor addas a rhagorol a chalonogol yw trefn gras Duw ar gyfer pobl fel hyn, ac yn wir ar gyfer pobl o bob math.

Ar ol y cyfarfod yn Mawiong aethom i lawr i Myllim, gan ein bod yn bwriadu aros yno dros y Sabboth. Yr oedd yn "gyfarfod mawr" yno, y cyfarfod dau-fisol yn y pentrefi yr ochr hon i Shillong, a dysgwylid rhai yno o Shillong, Wmlyngkha, Mawklot, Sadew, Nonkrem, &c. Wedi diweddu y cyfarfod gweddïo am saith y bore, buom wrthi hi yn ddiwyd yn holi ac yn addysgu y rhai oedd i gael eu bedyddio a'u derbyn at y cymun y diwrnod hwnw.

Pregethu am 10 y bore,—dwy bregeth. Am 1 o'r gloch, dau yn traethu yn fyr, un ar Fedydd, a'r llall ar Swper yr Arglwydd. Yna bedyddiwyd 6 mewn oed, a 9 o blant. Wedi hyny yr oedd 57 yn cyfranogi o sacrament Swper yr Arglwydd Yr oedd y gynnulleidfa uwchlaw 200.

Yn y cyfarfod am dri cafwyd ymdriniaeth ar "weddi," a darfu i un o bob lle siarad ar y mater. Yn wir yr oeddent yn siarad yn o dda, pob un yn siarad ar y testun. Y cyntaf, hen ŵr da o Myllim, fydd yn dal neu yn goilwng ei ben i lawr agos bob amser yn y cyfarfodydd, a ddywedodd, "Mae Iesu Grist yn gorchymyn i ni wylio a gweddïo, rhag i ni syrthio i brofedigaeth; ac yr oedd ef yn yr ardd yn gweddïo pan oedd yn gorchymyn y

wers hon i'w ddysgyblion. Mae yn rhaid i ni wylio a gweddïo ; mae gweddïo yn peri i ni gofio yr Iesu, ac yn ein gwneyd yn gryfion a chadarn ; anghofio gwylio a gweddïo ddarfu Pedr pan wadodd ef Iesu Grist yn nghanol y gweision." Dywedai un o fechgyn Mawklot, "fod yn rhaid gweddïo o'r galon gyda theimlad ac awydd am fendith Duw ; fod yn rhaid i ni fod yn ddiwiol a byw yn ddiwiol, fod duwioldeb i gydfyned â gweddi." Dywedai y brawd o Wmlyngkha, "Fod yn rhaid i ni weddïo bob amser, a gweddïo yn ddifrifol ac egnïol ; fod rhai yn ddyfal yn cofio Duw pan mewn trallod, a thlodi, ac afiechyd, ond yn anghofio pan mewn iechyd a hawddfyd ; ond fod y gwir Gristion yn gweddïo bob amser. Yr ydym yn bwyta bob dydd er mwyn i'r corff fod yn gryf i gario baich a gwneyd ei waith, a dylem weddïo bob dydd er cael nerth a gras i'n cynnal a byw yn ddiwiol. A phan fyddom wedi colli y ffordd, wedi digio a gwylltio, wedi camgymeryd a dyweyd geiriau drwg, dylem gofio ac edifarhâu a gweddïo yn y fan am faddeuant, gan fod Duw wedi addaw maddeu i'r hwn a gyffaddefo ei bechodau ac a'u gadawo." Meddai un, "Mae gweddi yn nerthol iawn ; darfu i Elias tawy weddi gyfodi yn fyw fab y wraig weddw o Sarepta, yr hwn oedd wedi marw ; a darfu iddo trwy weddi ddwyn tân i lawr o'r nefoedd i losgi yr aberth ar ben Carmel, pan yn yr ymrysonfa fawr gyda phrophwydi Baal, a thrwy hyny brofi i Israel mai yr Arglwydd oedd Dduw ; a darfu iddo trwy weddi ddwyn gwlaw ar y ddaear, ar ol iddi fod yn sych am dair blynedd a chwe' mis. Trwy weddi y cafodd Daniel o hyd i freuddwyd breniu Babilon. Pan fyddwn wedi methu, trown ati i weddïo ; mae Duw yn sicr o'n gwrando, ac agor y ffordd i ni."

Yr oedd hwn yn gyfarfod da iawn. Bydd y cyfarfod yn Chwefror, y flwyddyn nesaf, yn Nongkrem, a'r mater yno fydd "Ffydd" Yr oedd yno dair o hen wragedd yn eistedd ar y llawr, ar ganol yr ysgol, ar hyd y Sabboth, yn gwrando yn astud, ac yn sisial gair y naill wrth y llall yn fynych Nid oedd yr un o honynt yn Gristion. Un oedd yr hen wraig o Mawiong, a'r ddwy eraill yn rhai o bentref Myllim. Yn fuan ar ol cyrhaedd nos Sadwrn, aeth Mrs. Jones a minnau i dai y ddwy hyn ; ac ar ol ymddyddan ac egluro iddynt, addawsant dyfod i'r cyfarfodydd, ac yr oeddent ar hyd y dydd. Yr ydym yn gobeithio yn gryf y gwelir y tair hyn yn Gristionogion cyn hir. Yr oedd un hen wraig arall wedi addaw dyfod, ond ni ddaeth y tro hwn ; ni a obeithiwn y daw hono hefyd dro arall.

Nos Sabboth cyfarfyddodd yr holl Gristionogion, yn feibion a merched, yn un o'r tai, a chafwyd rhydd-ymddyddan nes yr oedd tua deg y nos. I ddechreu, caed gair o'u profiad a'u hanes hwy eu hunain—a oeddent oll yn byw mewn cariad a heddwch—yn rhodio yn ol rheol gair Duw—yn amcanu ac yn ymdrechu o ddifrif i fyw yn ddiwiol, a rhyngu bodd i'r Arglwydd ymhob peth ; yn helpu y rhai tlodion, yn ymweled â'r rhai claf, yn cysuro y gweddwon a'r trallodedig, yr amddifaid a'r rheidus. Dangoswyd y dylid ymarfer â'r dyledswyddau hyn o gariad at yr Iesu, ac o gariad at eu cyd-Gristionogion, ac y byddai hon y ffordd ragoraf er argyhoeddi eu cydbentrefwyr o ragoriaeth Cristionogaeth ar eu hen grefydd hwy. Yna gair am yr anghenrheidrwydd am ddyfalwch i ddilyn moddion gras yn rheolaidd, ar y Sabboth ac yn yr wythnos ; ac i ofalu am fod eu plant gyda hwy yn y cyfarfodydd, a chymeryd poen i'w haddysgu yn ngair yr Arglwydd, a'u hanfon yn rheolaidd i'r ysgol. Wedi hyny trefnwyd iddynt sut i weithio gyda'r achos cretyddol : rhanwyd y pentref yn wahanol ddosbarthiadau, a gosodwyd nifer o ddynion a merched i ofalu am bob un, ac addawent roddi o leiaf un noswaith bob wythnos i fyned i'r tai i ymddyddan â'r teuluoedd, i'w dysgu a'u cymhell i dderbyn crefydd Iesu Grist. Ac addawent fyned ar gylch i Mawiong bob nos Sadwrn, ac aros am noswaith yn y gwahanol dai, er cael cyfle i egluro iddynt ffordd iachawdwriaeth. Ac yn ddiweddaf cafwyd gair am eu capel newydd, ac annogwyd hwynt i'w doi a'i lorio mor fuan ag y gallent, fel y byddai yn barod i'w agor ddechreu y flwyddyn nesaf. Mae y cyfeillion yma wedi gweithio yn rhagorol i gael y capel hwn, a bydd yn adeilad destlus wedi ei orphen. Cyfranasant dros 30 *rupees* at y draul ; heblaw hyny darfu iddynt godi a chario yr holl geryg—y dynion yn codi y ceryg, a'r merched a'r plant yn eu cario ; clirio y syltaen, tori a chario a pharotoi y glaswellt i'w doi ; yr hyn oll, pe buasent yn talu am y gwaith, a fuasai yn costio o leiaf 200 *rupees* yn ychwaneg. Er hyn oll byddant yn tyr o tua 100 *rupees* i'w orphen. A oes yna ddim rhyw gyfaill, neu ddau neu dri o gyfeillion caredig, a fuasent yn rhoddi ychydig o help iddyat am y tro? Rhyw £5 neu £6 a fuasai yn dyfod â hwy i'r lân. Buasai hyn yn garedigrwydd mawr â'r cyfeillion yn Myllim, y rhai, yn nghanol eu tlodi, sydd wedi gweithio mor ragorol. Bydd yr adeilad yn ddigon i gynnal 300 o bersonau.

Bore Llun, ar ol holi yr ysgol ddyddiol, aethom ymaith am Nongrim-Sadew, a chafwyd cyfarfod yno am 11, ac oddiyno aethom i Nongkyri, ac oddiyno drachefn i Sadew, ac am dri cafwyd cyfarfod yno er annog a chymhell y Cristionogion i lynu wrth yr Arglwydd. Arweiniwyd yr hen Gristion anwyl—hen wraig ddall, i'r ysgoldy, ac yr oedd yn dda genym oll ei gweled yn edrych ac yn siarad mor siriol, ac yn gadarn yn ei ffydd a'i gobaith yn yr Iesu. Yr oedd yno un o'r Cristionogion yn sâl, ac wedi bod felly er ys tro, nes yr oedd wedi myned yn wan, a'i chorff wedi curio, ond yn glynu wrth yr Iesu dan y cyfan. Pan aed i edrych am dani, adroddai ei helyntion : "Bu fy ewythr yma ddoe," meddai, "yn ceisio fy nhemtio i wadu Iesu Grist, a gadael iddo dori wyau ac aberthu, ac y rhoddai efe i mi bob peth ; nad oeddwn wedi cael dim ond trallodion ac afiechyd a thlodi er pan oeddwn wedi troi yn Gristion;" "ond," ychwanegai, "darfu i Iesu Grist roddi nerth i mi, a dywedais y byddai yn well genyf farw yn fy afiechyd a'm tlodi na gwadu fy Arglwydd." Gymaint o lawenydd i ni oedd clywed y dystiolaeth

hon ganddi; yr Arglwydd a'i cynnalio ac a'i cysuro hyd y diwedd.

Y mis diweddaf bu farw un o Gristionogion Myllim. Yr oedd tua 75 mlwydd oed, ond fel Cristion nid oedd ond tua 6 blynedd oed; bu ei gŵr farw tua dwy flynedd yn ol. Yr wyf yn credu fod y ddau wedi cael gafael ar y rhan dda. Yr oeddynt ymhlith y rhai parchusaf yn y pentref, ac y mae nifer o'u plant a'u hŵyrion yn Gristionogion. Wyr iddi hi, U Kabursing, yw yr athraw yn y pentref; mae hefyd yn efengylydd, ac yn Gristion a gweithiwr da. Cafodd gladdedig aeth llosog a pharchus. Yn ddiweddar bu farw Ka Kymi U William (mam William), yr hon, gyda'i theulu, er ys rhai blynyddoedd, oedd wedi dyfod o Cherra i fyw i Shillong. Er nad oedd hi yn hen mewn dyddiau, yr oedd yn un o'r rhai hynaf fel Cristion; yr oedd yn eglwys Dduw er yn eneth, a chafodd nerth i barhau hyd y diwedd, a chredwn yn sicr fod marw yn elw iddi. Cafodd gystudd trwm, ond dyoddefodd y cyfan yn dawel, gan dystiolaethu fod ei henaid yn llawn o dangnefedd yr efengyl.

Mr. a Mrs. Lewis a allaat adrodd llawer o hanesion am dani mae yn ddiau, yn gystal ag am eraill o ddychweledigion cyntaf y Genadaeth, y rhai ydynt wedi myned i ogoniant. Ac onid dyddorol ac adeiladol fyddai i'r ddau Genadwr anwyl hyn roddi pennod yn awr ac eilwaith o'u hadgofion am y dychwelediglon boreuol, eu helyntion, yr erledigaethau a ddyoddefasant, eu ffydd, eu hymdrech gyda'r achos? &c., &c. Da chwi, ymaflwch yn y gorchwyl hwn heb oedi, nid oes neb arall a all ei wneyd.

YSBYTTY YN JIWAI.

Mae Cristionogion Jaintia wedi addaw tua dwy fil o *rupees* tuag at yr Ysbytty, ac y mae boneddwr haelionus yn Llundain, Mr. J. T. Morton, wedi addaw mil o *rupees*. Nid yw Mr. Morton yn aelod gyda'r Methodistiaid, ond anfonodd Dr. Hughes ato, gan ddwyn i'w sylw achos y Genadaeth Feddygol, a'r anghen am ysbytty i'r cleifion, a derbyniodd addewid am fil o *rupees*, ar y dealltwriaeth fod yr adeilad i gael ei orphen erbyn mis Ebrill.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar ei fod wedi derbyn y symiau canlynol er pan wnaed yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Chwaer o Bethania, Corris, tuag at Gapel Cherra, neu fel y gwelo'y Parch. J. Roberts yn oreu	1	0	0
Trefaldwyn Isaf	118	17	3
Dyffryn Clwyd (ychwanegol)	30	12	8
Sir Fynwy	19	14	5
Mrs. Elias, Kelso Villa, Grosvenor Road, Wrexham	20	0	0
Lerpwl (ychwanegol)	67	18	1
Casglwyd gan Elizabeth Jones, Ebbw Vale	2	7	0
Kilgerran, casglwyd gan y plant	1	6	0
Trefaldwyn Uchaf	128	5	8
Dehau Aberteifi	2	2	0
Cyfaill o Sir Fôn tuag at y Gronfa Adeiladu yn Khasia	10	0	0
Bethania, Gorllewin Morganwg	1	17	0
Eto Dwyrain Morganwg	0	2	6
Abergavenny	1	8	2½
Sir Benfro, Cymraeg	18	16	7
Dyffryn Conwy	114	11	4½
Sir Frycheiniog (ychwanegol)	12	2	11
Dwyrain Morganwg	119	4	8
Cyfaill o Brazil, trwy law Mr. Rich. Owen, Eryri House, Talysarn	5	0	0
Sir Fflint	75	2	6
Cangen y Chwiorydd, Liverpool	106	11	3
Mary Jones, Newgate, Rhydlewis	0	5	0
Sir Gaerfyrddin	67	4	9
Gorllewin Morganwg	20	19	2
Ymddiriedolwyr y diweddar Mr. David Jones, tuag at addysg pedwar o bregethwyr brodorol yn y Sefydliad Duwinyddol yn Cherra	48	0	0
Llundain	103	0	0
Hermon	0	8	3
A. W., Aberteifi, tuag at y gwaith cenadol yn Llydaw	1	0	0
Dinam	3	17	10
Henaduriaeth Lancashire	85	16	6
Solva	1	0	0
Manchester	45	0	0
America (ychwanegol)	45	0	0
Dwyrain Meirionydd (ychwanegol)	8	3	7
Am y llyfr *Ymweliad á Khasia*	1	19	6
Soar, Maes cwmwr, trwy law y Parch. T. Jones, Jiwai	0	11	5
Abertileri, Seisonig, eto	1	0	0
Maesglas	2	0	0
Cymunrodd Mr. Robert Jones, Abram's Lane, Dinbych, gyda'r llôg gofynol oddiwrth y dyledwr, trwy law Mr. Thomas Gee, y cymunweinyddwr	26	13	4

Mae eto ar law rai copïau o lyfr Mr. J. Herbert Roberts, *Ymweliad á Bryniau Khasia.*

Mae Cyfarfodydd Misol Dyffryn Clwyd a Dyffryn Conwy wedi gwneyd casgliadau ychwanegol, i gyfarfod á'r cynnydd yn y treuliadau. Da genym ddeall fod cynnulleidfa Clwyd Street, Rhyl, wedi gwneyd casgliad o dros £60 yn ychwanegol at y casgliad a wnaed ar yr amser arferol. Onid oes cynnulleidfaoedd eraill yn barod i ddilyn yr esiampl ragorol hon?

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.*

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.